# Adroddiad ar Brofiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd

Cyflwynwyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gan **Ymchwil Arad**

***Rhagfyr 2023***

Ymchwil Arad
8 Rhodfa Columbus
Brigantine Place
Caerdydd CF10 4SD
029 2044 0552
www.arad.wales

ymchwil arad research

# Cynnwys

**Crynodeb gweithredol** .......... **4**
**1. Cyflwyniad** .......... **11**
1.1 Amcanion yr ymchwil .......... 11
1.2 Cefndir .......... 11
1.3 Methodoleg a throsolwg o’r cyfranogwyr .......... 15
**2. Polisïau a gweithdrefnau** .......... **17**
2.1 Polisïau cyffredinol a phenodol ar gyfer myfyrwyr PGR .......... 17
2.2 Swyddfa graddedigion/ysgolion doethurol .......... 18
2.3 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant .......... 18
2.4 Adborth a chynrychiolaeth myfyrwyr .......... 22
2.5 Crynodeb o'r adran .......... 24
**3. Goruchwyliaeth** .......... **26**
3.1 Gweithdrefnau/canllawiau sy’n bodoli .......... 26
3.2 Ymdrin â chwynion .......... 29
3.3 Datblygiad proffesiynol ar gyfer goruchwylwyr .......... 31
3.4 Crynodeb o ganfyddiadau’r adran .......... 32
**4. Cymorth academaidd** .......... **34**
4.1 Cyfleoedd hyfforddi a datblygu .......... 34
4.2 Myfyrwyr PGR sy'n addysgu .......... 37
4.3 Gwasanaethau eraill .......... 41
4.4 Crynodeb o ganfyddiadau’r adran .......... 43
**5. Datblygu cymuned ymchwil** .......... **44**
5.1 Barn gan brifysgolion a rhanddeiliaid ehangach .......... 44
5.2 Barn myfyrwyr PGR .......... 45
5.3 Crynodeb o ganfyddiadau’r adran .......... 48
**6. Heriau a chymorth gyda llesiant** .......... **49**
6.1 Heriau: Barn gan brifysgolion a rhanddeiliaid .......... 49
6.2 Heriau: Barn myfyrwyr PGR .......... 50
6.3 Cymorth ar gyfer llesiant myfyrwyr PGR .......... 52
6.4 Crynodeb o ganfyddiadau adrannau .......... 54
**7. Casgliadau ac argymhellion** .......... **56**
7.1 Polisïau a gweithdrefnau i gefnogi myfyrwyr PGR .......... 56
7.2 Goruchwyliaeth .......... 56
7.3 Cymorth academaidd a chyfleoedd datblygu .......... 58
7.4 Rolau addysgu ar gyfer myfyrwyr PGR .......... 59

7.5 Datblygu cymuned ymchwil .... 60
7.6 Heriau a chymorth gyda llesiant .... 61
7.7 Datblygu arlwy safonol o gymorth .... 62
**8. Atodiadau .... 63**

# Ffigurau

Ffigur 1: Myfyrwyr PGR fesul SAU ar gyfer blwyddyn academaidd 2021[9-] .... 13
Ffigur 2: Cymunedau ymchwil ar gyfer myfyrwyr PGR .... 44
Ffigur 3: Canran y rhaglenni gradd ymhlith cyfanswm y cyfranogwyr PGR .... 64
Ffigur 4: Canran y disgyblaethau ehangach ymhlith cyfanswm y cyfranogwyr PGR .... 64

# Tablau

Tabl 1: Cyfranogiad SAUau Cymru yn PRES ers 2019 .... 14
Tabl 2: Niferoedd cyfranogwr o blith staff sefydliadau yn ôl sefydliad .... 63
Tabl 3: Nifer y cyfranogwyr o blith myfyrwyr PGR yn ôl sefydliad .... 63

# Crynodeb gweithredol

Rhoddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gomisiwn i Ymchwil Arad i lunio adroddiad ar Brofiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd (PGR). Mae'r crynodeb gweithredol hwn o'r adroddiad yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r ymchwil.

## I. Cefndir a methodoleg yr adroddiad

Prif amcanion yr ymchwil yr adroddir arni yma oedd rhoi mewnwelediadau a dealltwriaeth i CCAUC o ran y materion a **wynebir gan fyfyrwyr PGR**. Nod yr ymchwil oedd ymchwilio i agweddau allweddol ar brofiadau myfyrwyr PGR, gan gynnwys cymorth academaidd, cyfleoedd datblygu a hyfforddi, meithrin cymuned ymhlith myfyrwyr PGR a chynrychiolaeth ar lefel sefydliadol.

Myfyrwyr PGR yw'r gyfran leiaf o fyfyrwyr addysg uwch (AU) ledled y DU a hwythau'n rhoi cyfrif am lai na phump y cant o gyfanswm y myfyrwyr AU. Ym mlwyddyn academaidd 2021/22, roedd 4,315 o fyfyrwyr PGR wedi'u cofrestru yng Nghymru ar draws wyth SAU. Er gwaethaf gostyngiad bach yn 2021/22 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae nifer y myfyrwyr ôl-radd yng Nghymru wedi aros yn sefydlog dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Er y canfuwyd fod lefel boddhad myfyrwyr PGR ar y cyfan yn gyson gadarnhaol dros y blynyddoedd diwethaf, adroddodd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn 2022 fod myfyrwyr PhD a myfyrwyr ôl-radd eraill yn cael eu gorgynrychioli yn nifer y cwynion a gafwyd. Roedd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol o'r farn y gallai'r orgynrychiolaeth hon fod o ganlyniad i fuddsoddiad personol ac ariannol, heriau i fyfyrwyr rhyngwladol a materion goruchwylio. Mae materion ariannol a chyflog isel wedi cael eu nodi fel her sylweddol i fyfyrwyr PGR hefyd.

Ceir gwahaniaethau allweddol rhwng myfyrwyr PGR a allai ddylanwadu ar eu profiad a'u deilliannau. Bydd rhai myfyrwyr PGR yn cael cyllid ar gyfer eu hymchwil, naill ai o ffynonellau allanol fel Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) neu gan y brifysgol ei hun, tra bydd eraill yn hunangyllido eu graddau. Gall myfyrwyr ôl-radd ar ysgoloriaethau a gefnogir gan gynghorau ymchwil UKRI gael eu cefnogi trwy Ganolfannau Hyfforddiant Doethurol (CDTs) a Phartneriaethau Hyfforddiant Doethurol (DTPs) sy'n rhoi hyfforddiant a chymorth i fyfyrwyr doethurol[1]. Hefyd, gall yr holl fyfyrwyr PGR gael y cyfle i addysgu (gan ddibynnu ar argaeledd cyfleoedd yn eu sefydliadau) a bydd rhai'n rhan o dimau ymchwil prifysgolion, gan olygu bod gan rai myfyrwyr PGR statws fel staff a myfyrwyr.

***Methodoleg***

Roedd methodoleg yr ymchwil yn cynnwys cyfuniad o gyfweliadau ansoddol gyda phrifysgolion a rhanddeiliaid ehangach, grwpiau ffocws gyda myfyrwyr PGR ac ymchwil ddesg. Cymerodd cyfanswm o 23 o unigolion ran o naw SAU yng Nghymru gan gynnwys Dirprwy Is-gangellorion Ymchwil, Cyfarwyddwyr Colegau/Ysgolion Doethurol a Deoniaid Ôl-radd/Ysgolion. Cymerodd pum rhanddeiliad ehangach ran hefyd o bum corff gwahanol gan gynnwys cyllidwyr, cyrff cynrychioli myfyrwyr a sefydliadau eraill sydd â chysylltiad â'r sector addysg uwch yng Nghymru.

[1] Partneriaethau Hyfforddiant Doethurol 2 (DTP2) – UKRI

Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda myfyrwyr PGR ar-lein trwy Zoom. Cymerodd cyfanswm o 50 o fyfyrwyr PGR ran mewn grwpiau ffocws ar-lein o wyth SAU.

## II. Polisïau a gweithdrefnau i gefnogi myfyrwyr PGR

Roedd cydnabyddiaeth ar draws prifysgolion Cymru bod myfyrwyr PGR yn garfan unigryw ac amrywiol y mae angen cymorth ac arweiniad wedi'u teilwra arnynt. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n defnyddio PRES ac wedi cynnal eu hadolygiadau eu hunain i ddeall anghenion myfyrwyr PGR yn well yn ogystal â chael eu harwain gan gynghorau ymchwil, cyllidwyr allanol, cyrff cyllido a safonau'r llywodraeth mewn meysydd fel absenoldeb rhiant ac amodau cyflogaeth. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr PGR hefyd yn eistedd ar bwyllgorau a grwpiau sefydliadol, yn unol ag ymdrechion i gynyddu cynrychiolaeth myfyrwyr PGR ar draws sefydliadau.

Mae hyn wedi arwain at ystod o bolisïau, gweithgareddau, cyfathrebu a hyfforddiant pwrpasol i sicrhau'r sgiliau y mae eu hangen i fod yn fyfyriwr PGR effeithiol, a hyrwyddir yn ystod pob cam o'r broses o'u recriwtio a'u hintegreiddio i fywyd prifysgol. Daw'r amrywiaeth hon o gymorth trwy ddwy brif sianel. Set o fesurau wedi'u canoli, ar draws y sefydliad i sicrhau dull unffurf yw un. Yr ail yw lle mae elfennau o gymorth wedi'u datganoli'n well i lefel adran neu, mewn rhai sefydliadau, Swyddfeydd Graddedigion neu Ysgolion Doethurol, y mae cynrychiolwyr prifysgolion yn ystyried eu bod yn cynnig dull mwy hyblyg ac ymatebol.

O ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), amlygodd y rhan fwyaf o sefydliadau fod strwythurau a phrosesau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael eu pennu ar lefel y brifysgol gyfan ac yn cofnodi ac yn monitro pob myfyriwr mewn meysydd fel recriwtio, sefydlu, derbyniadau a pherfformiad. Er hynny, roedd cynrychiolwyr undebau myfyrwyr a rhai myfyrwyr PGR o'r farn bod mwy o gynnydd i'w wneud o ran ymgorffori cymorth ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac ymwybyddiaeth ohonynt, ar draws y gymuned PGR.

**Argymhelliad i sefydliadau:** Dylai sefydliadau sicrhau bod polisïau a strwythurau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cefnogi myfyrwyr PGR yn cyd-fynd â'i gilydd ar draws pob adran / ysgol i sicrhau lefel gyson a chyfartal o gymorth.

## III. Goruchwyliaeth

Mae'r berthynas oruchwyliol yn agwedd hanfodol ar brofiad myfyrwyr PGR, a gydnabyddir gan holl gynrychiolwyr a myfyrwyr prifysgolion. O safbwynt sefydliadol, mae goruchwyliaeth yn faes y buddsoddir yn sylweddol ynddo, sy'n cynnwys codau ymarfer sefydledig, cysylltiadau â strwythurau sefydliadol, a chyfleoedd datblygu proffesiynol i oruchwylwyr. Roedd y dulliau hyn yn cael eu cefnogi ymhellach gan hyblygrwydd wrth benodi goruchwylwyr yn seiliedig ar ddisgyblaeth, hynafedd, deialog gyda myfyrwyr PGR ac yn cael eu hategu gan adolygiadau a monitro.

Fodd bynnag, soniodd myfyrwyr PGR am brofiadau cymysg gyda goruchwyliaeth. Roedd enghreifftiau cadarnhaol yn cynnwys rhyngweithiadau rheolaidd ac amserol, agosrwydd at oruchwylwyr mewn labordai neu ganolfannau ymchwil gyda mynediad rhwyddach at oruchwylwyr, bod â nifer o oruchwylwyr a chanddynt sgiliau gwahanol, a'r parhad a

amlygwyd gan y myfyrwyr PGR hynny a oedd wedi parhau â'u hastudiaethau o lefel israddedig ymlaen yn yr un sefydliad. Roedd profiadau negyddol yn cynnwys anghysonderau canfyddedig wrth ddethol goruchwyliwr, materion argaeledd, diffyg arbenigedd, a bylchau mewn ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Er mwyn cefnogi dull mwy cyson o ddarparu goruchwyliaeth, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi cyflwyno hyfforddiant i staff academaidd. Mae rhai sefydliadau'n parhau i ddarparu hyfforddiant parhaus i addasu ac ymgorffori gofynion cyllidwyr, a chefnogi mwy o ymwneud gan Bartneriaethau Hyfforddiant Doethurol (DTPs) a chyswllt â hwy. Roedd mentrau eraill yn cynnwys paru goruchwylwyr mwy newydd â rhai profiadol a rhannu gwybodaeth ar draws adrannau.

Nododd cynrychiolwyr sefydliadol ystod o fecanweithiau anffurfiol a ffurfiol sydd ar waith i ddatrys anghydfodau. Roedd y rhain yn cynnwys adolygiadau rheolaidd gyda chyfarwyddwyr ymchwil, cyfleoedd cyfryngu a'r opsiwn i newid goruchwyliwr. Er mai dyma'r llwybrau dewisol, mae rhai achosion yn cael eu datrys trwy weithdrefnau cwynion sefydliadol. Amlygodd sefydliadau sy'n cynrychioli myfyrwyr bwysigrwydd strwythurau a phrosesau sefydliadol ac ymgymryd â rôl gyfryngu lle bo angen.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhai myfyrwyr PGR yn betrusgar ynghylch cyflwyno cwynion ac mae hwn yn faes y mae angen ymchwil bellach iddo i gael gwell dealltwriaeth am raddfa'r mater a'r rhesymau dros unrhyw gyndynrwydd. Gallai hyn gynnwys rhoi cynnig ar ddulliau heblaw trafodaeth grŵp neu dreulio mwy o amser yn ymchwilio'n benodol i'r broses o wneud cwynion a pha un a ddylid datblygu llwybrau anffurfiol mwy hygyrch.

**Argymhelliad i CCAUC:** Dylai CCAUC annog sefydliadau i gefnogi goruchwylwyr a staff perthnasol eraill gyda gweithgarwch hyfforddi a datblygu rheolaidd ac effeithiol sy'n gysylltiedig â PGR.

**Argymhelliad i sefydliadau:** Dylai sefydliadau adnabod a rhannu arfer da sy'n ymwneud â goruchwyliaeth PGR, o fewn a rhwng sefydliadau, gan gynnwys gweithredu Fframwaith Goruchwyliaeth Dda UKCGE.

**Argymhelliad i CCAUC:** Dylai CCAUC ystyried comisiynu ymchwil i archwilio amharodrwydd myfyrwyr PGR i gyflwyno cwynion a llwybrau newydd posibl i'w cefnogi.

## IV. Cymorth academaidd a chyfleoedd datblygu

Roedd sefydliadau'n cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu amrywiol i wella profiadau myfyrwyr PGR, gan gwmpasu pynciau sy'n canolbwyntio ar ymchwil fel moeseg a dulliau ymchwil, yn ogystal â sgiliau trosglwyddadwy fel rheoli amser ac ysgrifennu effeithiol. Roedd rhai cyrsiau'n canolbwyntio ar lwybrau gyrfa anacademaidd fel arwain, cyhoeddi ac entrepreneuriaeth. Bu'r Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr (RDF) yn ganllaw i'r rhan fwyaf o brifysgolion o ran dylunio eu hyfforddiant PGR.

Fodd bynnag, roedd anghysonderau'n bodoli o ran agweddau fel cost, mynediad a pha un a yw hyfforddiant yn orfodol ynteu'n ddewisol. Roedd rhai sefydliadau'n cynnig ystod o gyrsiau a oedd i gyd yn ddewisol, tra bo gan eraill bynciau craidd yr oedd angen iddynt gael eu

cwblhau gan bob myfyriwr PGR. Roedd ychydig o sefydliadau’n cynnig dewis o fodiwlau ond yn ei gwneud yn ofynnol i'w myfyrwyr PGR gwblhau isafswm nifer o gredydau o fewn ffrâm amser. Roedd gan rai sefydliadau a rhanddeiliaid ganfyddiad nad oedd sgiliau trosglwyddadwy a hyfforddiant seiliedig-ar-gyflogadwyedd mor hygyrch â hyfforddiant seiliedig-ar-ymchwil ar hyn o bryd.

Disgwylir i fyfyrwyr PGR gydweithio gyda goruchwylwyr a chydweithwyr eraill, gan gynnwys cyrff cynrychioliadol, i nodi eu hanghenion hyfforddi. Roedd rhai sefydliadau hefyd yn partneru gyda sefydliadau allanol i gynnig cyfleoedd hyfforddi ychwanegol. Fodd bynnag, ni allai pob myfyriwr fanteisio ar y cyfleoedd hyn oherwydd cysylltiadau â chyllidwyr neu feini prawf cymhwystra.

Roedd myfyrwyr PGR yn siarad yn gadarnhaol am faint o hyfforddiant a'r math o hyfforddiant oedd yn cael ei ddarparu gan eu priod sefydliadau ond roedd lefelau cymysg o ymwybyddiaeth a mynediad, serch hynny, yn enwedig o ran cyfleoedd hyfforddi wyneb-yn-wyneb ac anghysondeb o ran cyfleoedd rhwng myfyrwyr PGR a ariennir ac a hunanariennir. Roedd rhanddeiliaid ehangach yn cytuno bod angen rhoi cyhoeddusrwydd gwell i hyfforddiant a bod angen i fyfyrwyr PGR gael eu cefnogi'n well ag arian i gael mynediad at gyfleoedd newydd.

Bwlch arall a nodwyd oedd cymorth a chyngor gyrfaoedd wedi'u teilwra, gyda sefydliadau a myfyrwyr yn nodi ffocws ar anghenion academaidd yn hytrach na chyflogadwyedd a datblygiad gyrfa anacademaidd.

**Argymhelliad i CCAUC**: Dylai CCAUC annog sefydliadau i sicrhau bod myfyrwyr PGR a ariennir ac na ariennir yn cael profiad teg o ran manteisio ar gyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol.

**Argymhellion i sefydliadau:** Dylai sefydliadau roi cyhoeddusrwydd gwell i gyfleoedd hyfforddi a datblygu, gan hefyd bwysleisio'r potensial i fyfyrwyr gael budd o rwydweithio yn ystod y digwyddiadau hyfforddi hyn.

Dylai sefydliadau ehangu cyfleoedd hyfforddi sy'n canolbwyntio ar sgiliau cyflogadwyedd a chyngor gyrfaoedd i roi cymorth i fyfyrwyr PGR gamu ymlaen at gyflogaeth.

## V. Rolau addysgu ar gyfer myfyrwyr PGR

Roedd pob sefydliad yn cyflogi myfyrwyr PGR mewn rolau addysgu â thâl, yn bennaf mewn rolau achlysurol am gyfradd fesul awr. Roedd rhai sefydliadau hefyd yn cynnig rolau Cynorthwyydd Addysgu Graddedig (GTA). Roedd sefydliadau’n cydnabod bod y myfyrwyr PGR hynny sy'n addysgu’n gweithredu mewn man aneglur: yn cael eu hystyried yn aelodau o staff gan y rhai y maent yn eu haddysgu, yn gweithio ar y cyd â staff academaidd ac yn cael cyflog gan y sefydliad, ond yn dal i fod yn fyfyrwyr eu hunain. Mae datblygu dull cyson yn wynebu her bellach ar ffurf natur amrywiol myfyrwyr PGR, gyda'r rhai a oedd yn fyfyrwyr a ariennir, yn fyfyrwyr rhan-amser neu’n fyfyrwyr rhyngwladol yn aml yn wynebu cyfyngiadau o ran yr oriau y gallant eu gweithio.

Mae dulliau recriwtio'n amrywio, ac roedd rhai sefydliadau'n cydnabod yr angen am well tryloywder a chysondeb. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, arweiniad Adnoddau Dynol wedi'i ganoli'n well i ysgolion academaidd a hyrwyddo aelodaeth o undebau llafur a pholisïau Adnoddau Dynol sefydliadol i fyfyrwyr PGR.

Mae gan fyfyrwyr PGR sy'n addysgu gontractau addysgu achlysurol ar gyfer yr oriau y maent yn eu darparu, gan gynnwys amser paratoi, ac felly maent yn gweithredu heb yr ystod lawn o fuddion a mesurau diogelu sydd gan gyflogeion parhaol a chyfnod penodol. Amlinellodd cynrychiolwyr o gyrff myfyrwyr bryderon bod myfyrwyr PGR yn cael eu defnyddio gan SAUau i 'lenwi bylchau yn y system' a bod diffyg cyflog a chontractau cyson ar draws gwahanol ysgolion. Roedd ambell i sefydliad yn y broses o fynd i'r afael â'r materion hyn, gan weithio gydag Undebau i gefnogi hawliau cyflogaeth myfyrwyr PGR ymhellach.

Soniodd myfyrwyr PGR sy'n addysgu am brofiadau cymysg o recriwtio, cymorth, hyfforddiant a thâl.  Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf yn cael y profiad yn gadarnhaol, gan nodi gwobrwyon ariannol a phrofiad addysgu fel manteision. Fodd bynnag, soniodd y rhai nad oeddent wedi addysgu am heriau a oedd yn ymwneud â diffyg cydnabyddiaeth i'w sgiliau a thryloywder yn y broses recriwtio.

**Argymhelliad i sefydliadau**: Dylai Sefydliadau datblygu dull sy'n gyson ac yn cael ei gyfleu'n glir o ran myfyrwyr PGR sy'n addysgu, gan gynnwys tâl, amodau a recriwtio i addysgu.

## VI. Datblygu cymuned ymchwil

Mae datblygu cymunedau ymchwil wedi bod yn rhan annatod o ddull rhai sefydliadau o gefnogi eu myfyrwyr, trwy fecanweithiau megis grwpiau ymchwil, gwyliau ymchwil a mannau pwrpasol i fyfyrwyr gwrdd, astudio a chymdeithasu. Mae'r cymunedau ymchwil hyn yn fwy datblygedig mewn rhai sefydliadau na'i gilydd, gyda sefydliadau llai fel rheol yn cynnig mwy o gyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol â staff a myfyrwyr PGR eraill. Dywedodd myfyrwyr PGR a oedd yn gysylltiedig â chanolfannau ymchwil eu bod wedi cael cyfleoedd ychwanegol i rwydweithio; fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd hyn yn cael eu profi gan yr holl fyfyrwyr ar hyn o bryd.

**Argymhelliad i CCAUC:** Dylai CCAUC weithio gyda Prifysgolion Cymru a Chymdeithas Ddysgedig Cymru i gefnogi cynnydd pellach o ran datblygu cymunedau ymchwil, er enghraifft llunio canllawiau i gefnogi cysondeb o ran y dull gweithredu a rhannu enghreifftiau o arfer da.

**Argymhelliad i sefydliadau:** Dylai pob sefydliad yng Nghymru adolygu'r cyfleoedd y maent yn eu darparu i fyfyrwyr PGR ddod yn rhan o gymuned ymchwil, gan gynnwys cyfleoedd trawsddisgyblaethol a gweithgareddau cymdeithasol. Ochr yn ochr â chyfleoedd ar-lein, dylai sefydliadau gynnig rhyngweithiadau yn y cnawd lle bo hynny'n bosibl er mwyn galluogi myfyrwyr PGR i adeiladu cymuned ymchwil.

## VII. Heriau a chymorth gyda llesiant

Dywedwyd fod llesiant ac iechyd meddwl yn rhan allweddol o gymorth prifysgolion a rhanddeiliaid ehangach i fyfyrwyr PGR. Daeth mater arwahanrwydd ac unigrwydd yn ystod gradd PGR i'r amlwg fel pryder allweddol.

Roedd heriau eraill o ran llesiant yn cynnwys yr argyfwng costau byw cyfredol a beichiau ariannol, yn enwedig i fyfyrwyr hŷn a rhan-amser sydd â chyfrifoldebau ychwanegol. Roedd myfyrwyr PGR rhyngwladol yn wynebu materion penodol, gan gynnwys cymhlethdodau gyda fisâu, oedi gyda noddwyr rhyngwladol, a phryderon a oedd yn ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn mae prifysgolion wedi rhoi ystod o fesurau a gweithgareddau ar waith i gefnogi llesiant myfyrwyr PGR. Fel gydag elfennau eraill o brofiad myfyrwyr PGR, mae peth o'r cymorth hwn yn rhan o fesurau ehangach sydd wedi'u hanelu at bob myfyriwr tra bo meysydd eraill yn benodol i fyfyrwyr PGR. Roedd y math cyntaf o gymorth yn cynnwys mwy o fynediad at gwnsela, llinellau cymorth 24 awr a llawlyfrau i fyfyrwyr, a chyda'r ail fath, ar gyfer myfyrwyr PGR, mae gweithdai a sesiynau ar thema llesiant yn aml yn cael eu hymgorffori mewn rhaglenni hyfforddi, weithiau mewn partneriaeth gydag undebau myfyrwyr. Mewn rhai achosion, roedd rhai goruchwylwyr yn cael hyfforddiant i gyfeirio myfyrwyr PGR at y mathau hyn o gymorth.

Roedd myfyrwyr PGR yn cydnabod rôl gefnogol eu goruchwylwyr mewn rhai achosion ac ymdrechion gan eu hadrannau; fodd bynnag, y teimlad cyffredinol oedd bod cymorth ar gyfer llesiant yn cael ei dargedu'n fwy tuag at israddedigion ar hyn o bryd. Ystyriwyd fod dull gweithredu cyson, gan gydnabod amrywiaeth profiad myfyrwyr PGR a'u hanghenion cymorth penodol, yn ffocws allweddol ar gyfer strategaethau yn y dyfodol, ynghyd â chydnabyddiaeth i'r effaith yr oedd costau byw yn ei chael ar gyllid myfyrwyr PGR.

**Argymhelliad i sefydliadau:** Dylai sefydliadau sicrhau bod myfyrwyr PGR yn cael mynediad at gymorth amserol o ansawdd sy'n cydnabod eu hanghenion llesiant penodol a'u taith academaidd.

## VIII. Datblygu arlwy safonol o gymorth

Roedd y gwahanol lefelau a'r amrywiaeth o strwythurau cymorth a roddwyd ar waith wedi'u bwriadu i fynd i'r afael ag amrywiaeth y garfan PGR a'u hanghenion penodol. Er bod y cymorth wedi arwain at ystod o ddeilliannau cadarnhaol i fyfyrwyr PGR, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn dangos bod anghysonderau, lefelau gwahanol o ymgysylltu a bylchau yn y ddarpariaeth o hyd, ac mae hyn wedi cael effaith negyddol ar brofiad cyffredinol rhai myfyrwyr.

Felly gellid cefnogi cydlyniant pellach ar draws prifysgolion Cymru trwy ddatblygu arlwy safonol i fyfyrwyr PGR. Yn unol â'r themâu allweddol yn yr adroddiad hwn, gallai hyn gynnwys dull cyson o roi cymorth gyda llesiant, cyfleoedd datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ffurfiol i statws addysgu, mynediad at gymuned ymchwil a chyswllt mynych â goruchwylwyr. Gallai prifysgolion gefnogi'r dull hwn trwy ddarparu hyfforddiant mynych i

oruchwylwyr a staff eraill sy'n ymwneud â myfyrwyr PGR a chysoni polisïau cymorth mewn modd hyblyg ar draws adrannau a'u priod sefydliadau.

**Argymhelliad i CCAUC:** Dylai CCAUC weithio gyda sefydliadau a rhanddeiliaid ehangach i ddylunio arlwy safonol o gymorth i fyfyrwyr PGR, a allai ddarparu meincnod ar gyfer dull cyson ym mhrifysgolion Cymru.

# 1. Cyflwyniad

Ym mis Ionawr 2023, rhoddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gomisiwn i Ymchwil Arad i gynnal adolygiad o Brofiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd (PGR). Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad. Mae Adran 1 yn dechrau trwy fanylu ar amcanion yr ymchwil, ac yna ceir trafodaeth eang ar gefndir myfyrwyr PGR a'r cyd-destun yng Nghymru. Yna nodir y dull methodolegol gan gynnwys trosolwg o'r cyfranogwyr.

## 1.1 Amcanion yr ymchwil

Prif amcanion yr adroddiad yw rhoi mewnwelediadau a dealltwriaeth i CCAUC ynglŷn â'r materion a **wynebir gan fyfyrwyr PGR;** gweler Adran 1.2 am ragor o fanylion. Y nodau a'r amcanion oedd cynnal ymchwil i'r canlynol:

1. Y cymorth academaidd sydd ar gael.
2. Mynediad at gyfleoedd datblygu a hyfforddiant.
3. Sut, ac i ba raddau, y sefydlwyd cymuned o fyfyrwyr PGR.
4. Cynrychiolaeth myfyrwyr PGR ar lefel sefydliadol.
5. Sut y mae sefydliadau'n ymdrin â chwynion gan fyfyrwyr PGR.
6. Sut y mae barn myfyrwyr PGR yn cael ei hystyried gan sefydliadau.
7. Ymgysylltiad sefydliadau yng Nghymru â Chanolfannau Hyfforddiant Doethurol (CDTs) a/neu Raglenni Hyfforddiant Doethurol (DTPs).
8. Gwybodaeth gynnar am sut y mae sefydliadau'n gweithredu argymhellion yr adroddiad Myfyrwyr Ôl-radd sy'n Addysgu, a gomisiynwyd yn flaenorol gan CCAUC.

Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio dod i gasgliadau i ddeall a yw sefydliadau'n mynd i'r afael yn effeithiol â materion a brofir gan fyfyrwyr ymchwil ôl-radd, gan gynnwys yng nghyd-destun datblygiadau mewn gwledydd eraill yn y DU.

Gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth i CCAUC a'r sector addysg uwch yng Nghymru ar gyfer:

- dulliau posibl o wella profiad myfyrwyr ymchwil ôl-radd, gan gynnwys cysondeb o fewn a rhwng sefydliadau, a
- sut y gellid monitro profiad y myfyrwyr hyn ar lefel sefydliadol ac ar lefel sector, er mwyn goleuo gwelliant a galluogi atebolrwydd.

## 1.2 Cefndir

Myfyrwyr PGR yw'r gyfran leiaf o fyfyrwyr addysg uwch (AU) ledled y DU (llai na 5% o gyfanswm nifer y myfyrwyr AU).[2]. Ym mlwyddyn academaidd 2021/22, roedd gan SAUau yn y DU 113,315 o fyfyrwyr PGR wedi cofrestru ar draws 22 o feysydd pwnc, ar lwybrau arwahanol neu ryngddisgyblaethol[3]. Mae myfyrwyr PGR yn bennaf yn gwneud graddau ymchwil doethuriaeth (gan gynnwys Doethur mewn Athroniaeth (PhD)) ond mae'r ffigyrau

[2] Ystadegau Myfyrwyr Addysg Uwch: Y DU, 2021/22 - Niferoedd a nodweddion myfyrwyr | HESA
[3] Ystadegau Myfyrwyr Addysg Uwch: Y DU, 2021/22 - Pynciau a astudir | HESA

hyn hefyd yn cynnwys graddau ymchwil eraill megis Meistr mewn Athroniaeth (MPhil), Meistr Ymchwil (MRes) a Doethuriaethau Proffesiynol.

Ceir gwahaniaethau allweddol rhwng myfyrwyr PGR a allai ddylanwadu ar eu profiad a'u deilliannau. Mae'r rhain yn ymwneud â nodweddion personol a gwarchodedig, yn ogystal â'r gwahanol ffyrdd y caiff myfyrwyr PGR eu cyllido. Bydd rhai myfyrwyr PGR yn cael cyllid ar gyfer eu hymchwil, naill ai o ffynonellau allanol fel Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) neu gan y brifysgol ei hun, tra bydd eraill yn hunangyllido eu graddau. Gall myfyrwyr PGR ar ysgoloriaethau ymchwil a ariennir gan gynghorau ymchwil UKRI gael eu cefnogi trwy Ganolfannau Hyfforddiant Doethurol (CDTs) a Phartneriaethau Hyfforddiant Doethurol (DTPs) sy'n rhoi hyfforddiant a chymorth i fyfyrwyr doethurol[4]. Hefyd, efallai y bydd yr holl fyfyrwyr PGR yn cael y cyfle i addysgu (gan ddibynnu ar argaeledd cyfleoedd yn eu sefydliadau) a bydd rhai yn rhan o dimau ymchwil prifysgolion, gan olygu y bydd gan rai myfyrwyr PGR statws staff a myfyriwr.

Er y canfuwyd fod lefel boddhad myfyrwyr PGR ar y cyfan yn gyson yn gadarnhaol dros y blynyddoedd diwethaf[5], adroddodd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) yn 2022 fod myfyrwyr PhD a myfyrwyr ôl-radd eraill yn cael eu gorgynrychioli yn nifer y cwynion a geir. Roedd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol o'r farn y gallai'r orgynrychiolaeth hon fod o ganlyniad i fuddsoddiad personol ac ariannol, heriau i fyfyrwyr rhyngwladol a materion goruchwylio[6]. Mewn astudiaeth yn 2019 a oedd yn archwilio penderfynyddion boddhad myfyrwyr PhD, canfuwyd mai cymorth goruchwylwyr sy'n cael yr effaith fwyaf ar lefelau boddhad[7]. Mewn data a dynnwyd o Arolwg Myfyrwyr PhD Nature 2019, y tri phryder pennaf i fyfyrwyr PhD oedd anawsterau cynnal cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, syndrom ffugiwr ac ansicrwydd ynghylch rhagolygon gyrfa[8].

Mae materion ariannol a thâl isel wedi cael eu nodi hefyd fel her sylweddol i fyfyrwyr PGR. Rhyddhaodd y Sefydliad Polisi Addysg Uwch (HEPI) adroddiad yn 2020 a oedd yn archwilio data a dynnwyd o ddau arolwg byd-eang o fyfyrwyr: Arolwg Myfyrwyr PhD Nature 2019 fel a nodwyd uchod, ac arolwg a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Wellcome yn 2019. Archwiliodd HEPI ddata a oedd yn ymwneud yn benodol â myfyrwyr sy'n astudio yn y DU: ymatebodd cyfanswm o 1,069 o fyfyrwyr i'r arolygon (526 o Arolwg Myfyrwyr PhD Nature a 543 o arolwg Ymddiriedolaeth Wellcome). Canfuwyd fod myfyrwyr PGR yn cael llai na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol am y gwaith y maent yn ei wneud; roedd nifer cymedrig yr oriau a weithir mewn wythnos yn 47 awr a'r tâl cyfartalog yn £6.65 yr awr[8].


Sefydlodd canfyddiadau'r Arolwg o Brofiad Ymchwil Ôl-radd (PRES) yn 2022 bedair ystyriaeth allweddol ar gyfer sefydliadau addysg uwch (SAUau): rhyngweithiadau ar-lein o'i gymharu ag yn y cnawd, myfyrwyr PGR ag anableddau, gwerthfawrogi ac ymateb i adborth myfyrwyr PGR, a mynediad at weithgareddau datblygu[4]. Er bod ymchwil fel PRES a monitro gan sefydliadau unigol yn digwydd, mae diffyg system safonedig i fonitro ac archwilio profiadau myfyrwyr PGR. Felly, gallai cael dealltwriaeth ehangach am brofiadau myfyrwyr

[4] Partneriaethau Hyfforddiant Doethurol 2 (DTP2) – UKRI
[5] Adroddiad yr Arolwg o Brofiad Ymchwil Ôl-radd 2022_1669210654.pdf
[6] Adroddiad Blynyddol Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol 2022 (oiahe.org.uk)
[7] Determinants of PhD student satisfaction: the roles of supervisor, department, and peer qualities: Assessment & Evaluation in Higher Education: Vol 44, No 7 (tandfonline.com)
[8] PhD-Life_The-UK-Student-Experience_HEPI-Report-131.pdf

PGR gyfrannu at ddatblygu dull Cymru gyfan cyson gan dynnu ar arfer da ledled Cymru a'r DU.

### 1.2.1 Y cyd-destun yng Nghymru

Ym mlwyddyn academaidd 2021/22, roedd 4,315 o fyfyrwyr PGR wedi'u cofrestru yng Nghymru ar draws wyth SAU[9]. Er gwaethaf gostyngiad bach yn 2021/22 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae nifer y myfyrwyr PGR yng Nghymru wedi aros yn sefydlog dros y pum mlynedd ddiwethaf[10]. Dangosir nifer y myfyrwyr PGR a oedd wedi'u cofrestru ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 ar gyfer pob sefydliad yn Ffigur 1 isod.




Ffigur 1: Myfyrwyr PGR fesul SAU ar gyfer blwyddyn academaidd 2021*[10-11]*

Mae'r PRES yn cynnig y cyfle i SAUau gael dealltwriaeth am brofiadau eu myfyrwyr PGR, a allai yn ei dro helpu i oleuo meysydd y mae angen eu datblygu i wella profiad. Mae nifer y SAUau yng Nghymru sy'n ymgysylltu â PRES wedi amrywio dros amser a chafwyd gostyngiad mewn ymgysylltiad yn 2022 o'i gymharu â 2021, gyda dim ond pedwar SAU o Gymru yn cymryd rhan[5]. Mae Tabl 1 isod yn dangos cyfranogiad SAUau Cymru yn PRES ers 2019.

[9] Nid oedd unrhyw fyfyrwyr PGR wedi cofrestru yn y Brifysgol Agored yng Nghymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22.

[10] Pwy sy'n astudio mewn AU? | HESA

[11] Ers i'r ymchwil hwn gael ei gomisiynu ac i'r gwaith maes gael ei wneud, ailfrandiwyd Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn gyhoeddus yn Brifysgol Wrecsam. Mae data HESA ar gyfer 2021/22 yn defnyddio 'Prifysgol Glyndŵr Wrecsam', felly defnyddir yr enw hwn trwy gydol yr adroddiad hwn. Gorffennol, presennol a dyfodol Prifysgol Wrecsam – Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.

Tabl 1: Cyfranogiad SAUau Cymru yn PRES ers 2019[12]

| SAU | 2019 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|
| **Prifysgol Aberystwyth** | ✓ | | ✓ |
| **Prifysgol Bangor** | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Prifysgol Caerdydd** | ✓ | ✓ | |
| **Prifysgol Metropolitan Caerdydd** | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Prifysgol Abertawe** | | | |
| **PCDDS** | ✓ | ✓ | |
| **PDC** | | ✓ | ✓ |
| **Prifysgol Glyndŵr Wrecsam** | | | |

Yn flaenorol, comisiynodd CCAUC adolygiad o bolisïau ac arferion o ran cefnogi myfyrwyr PGR sy'n addysgu yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2021[13]. Roedd yr adolygiad hwn yn ymwneud â chefnogi datblygiad prifysgolion Cymru fel arweinwyr mewn ymarfer a pholisi dysgu ac addysgu, ac arddangos sut y gallai sefydliadau ddatblygu dull prifysgol gyfan cyson o hyfforddi, cefnogi a monitro myfyrwyr PGR a gyflogir i addysgu ac asesu.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys dadansoddiad o bolisïau presennol SAUau, arolwg o'r rhai sy'n ymwneud â chefnogi addysgu gan fyfyrwyr PGR, adolygu data presennol o PRES, a thrafodaethau bord gron. Gwnaed sawl argymhelliad polisi ac ymarfer, gan gynnwys eglurder ynghylch recriwtio, tâl a thelerau ac amodau, gwella cynrychiolaeth myfyrwyr PGR mewn pwyllgorau addysgu, monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a datblygu a hwyluso rhwydweithiau ar gyfer myfyrwyr PGR a staff. Mae adrannau diweddarach yn yr adroddiad hwn yn manylu ar y canfyddiadau a gasglwyd gan fyfyrwyr PGR a oedd yn cael eu cyflogi i addysgu a chan staff prifysgolion, gan archwilio a oedd yr argymhellion ynghylch polisi ac arfer o adroddiad 2021 yn cael eu gwireddu ar lawr gwlad.

Trwy siarad gyda phob SAU yng Nghymru ac ymgysylltu’n uniongyrchol â myfyrwyr PGR, ceisiodd yr ymchwil hon adeiladu ar yr astudiaethau, yr adolygiadau a'r arolygon blaenorol hyn, er mwyn cael dealltwriaeth fwy cynhwysfawr am brofiad myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr PGR yng Nghymru.

[12] Nid yw’r adroddiad blynyddol ar PRES ar gyfer 2020 yn cynnwys enwau’r sefydliadau addysg uwch a gymerodd ran.
[13] AdvHE-HEFCW-Review-of-policy-and-practice-PGR-who-Teach.pdf

## 1.3 Methodoleg a throsolwg o'r cyfranogwyr

Roedd methodoleg yr ymchwil yn cynnwys cyfuniad o gyfweliadau ansoddol, grwpiau ffocws ac ymchwil ddesg. Trafodir manylion y cyfweliadau gyda phrifysgolion, rhanddeiliaid a grwpiau ffocws gyda myfyrwyr PGR yn yr is-adrannau sy'n dilyn. Ceir dadansoddiad o'r cyfranogwyr fesul sefydliad (cyfweleion o SAUau ar rhai a oedd yn bresennol yn y grwpiau ffocws i fyfyrwyr PGR), disgyblaeth a rhaglen radd yn Atodiadau 1-4. Gan nad oedd unrhyw fyfyrwyr PGR wedi'u cofrestru yn y Brifysgol Agored yng Nghymru, ni chynhaliwyd grŵp ffocws i fyfyrwyr PGR yn y sefydliad hwn a dim ond cynrychiolwyr y brifysgol y siaradwyd gyda nhw.

### 1.3.1 Cyfweliadau prifysgolion a rhanddeiliaid

Cynhaliwyd cyfweliadau ansoddol ar-lein trwy Microsoft Teams gyda staff o bob un o'r naw SAU sy'n gweithredu yng Nghymru. Darparwyd manylion cyswllt ar gyfer unigolion allweddol o bob sefydliad gan CCAUC. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyfweliadau, roedd mwy nag un cynrychiolydd o bob sefydliad yn bresennol. Roedd gan rai aelodau o staff gysylltiad uniongyrchol â myfyrwyr PGR ac roedd gan eraill swyddi rheoli/strategol yn y sefydliad nad oeddent yn golygu ymdrin â myfyrwyr, megis Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil. Cymerodd Cyfarwyddwyr Colegau Doethurol/Ysgolion a Deoniaid Ôl-radd/Ysgolion ran yn y cyfweliadau hefyd. Cymerodd cyfanswm o 23 o gyfranogwyr ran o naw SAU yng Nghymru; dangosir dadansoddiad o'r cyfranogwyr yn Nhabl 2 yn Atodiad 1. Yn ogystal â chyfweliadau gyda staff a gyflogir o fewn y sefydliadau, cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda chynrychiolwyr staff a myfyrwyr o dri Undeb Myfyrwyr.

Cysylltwyd hefyd â rhanddeiliaid y tu allan i'r naw prifysgol yng Nghymru ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan mewn cyfweliad. Cymerodd cyfanswm o bum rhanddeiliad ran o bum corff gwahanol gan gynnwys cyllidwyr, cyrff myfyrwyr cynrychioliadol a sefydliadau eraill sydd â chysylltiad â'r sector addysg uwch yng Nghymru.

### 1.3.2 Grwpiau ffocws myfyrwyr PGR

Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda myfyrwyr PGR ar-lein trwy Zoom rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023. Defnyddiwyd cysylltiadau prifysgolion i hysbysebu'r grwpiau ffocws i fyfyrwyr PGR, ac fe wnaeth Arad hysbysebu'r grwpiau ffocws ar Twitter hefyd ar gyfer dwy brifysgol lle cafwyd anhawster cyrraedd myfyrwyr PGR. Roedd y gwahoddiad yn cynnwys dolen i arolwg ar-lein i fyfyrwyr PGR ei gwblhau i fynegi eu diddordeb mewn cymryd rhan. Casglwyd data demograffig trwy'r arolwg hwn ac fe'i defnyddiwyd fel sail i ddewis cyfranogwyr ar gyfer y grwpiau a sicrhau eu bod yn cynrychioli'r garfan amrywiol o fyfyrwyr PGR yn fras. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y rhaglen radd (PhD, MRes, ac ati), y dull astudio (llawn amser / rhan-amser), y ddisgyblaeth, trefniadau cyllido a pha un a oedd y myfyriwr PGR yn fyfyriwr rhyngwladol ynteu'n fyfyriwr cartref. Er nad oedd yr ymchwil hon yn ceisio cynrychioli'r garfan o fyfyrwyr PGR yng Nghymru'n llwyr, sicrhawyd fod y sampl o gyfranogwyr a ddetholwyd yn adlewyrchu amrywiaeth myfyrwyr PGR.

Gwahoddwyd wyth myfyriwr PGR o bob prifysgol (ac eithrio'r Brifysgol Agored fel a amlinellwyd uchod) i ddod i grŵp ffocws. Gwnaed y penderfyniad i gynnal dau grŵp ffocws gyda myfyrwyr PGR Prifysgol Caerdydd gan bod cyfran uchel o fyfyrwyr PGR yng Nghymru'n astudio yno.

Cymerodd cyfanswm o 50 o fyfyrwyr PGR ran mewn grwpiau ffocws ar-lein. Mae Tabl 3 yn Atodiad 2 yn amlinellu nifer y myfyrwyr PGR a oedd yn bresennol o bob prifysgol ac mae Ffigur 3 yn Atodiad 3 yn dangos dadansoddiad o'r cyfranogwyr fesul rhaglen radd.

Roedd y cyfranogwyr yn gwneud rhaglenni gradd mewn ystod eang o ddisgyblaethau. At ddibenion yr ymchwil hon ac i sicrhau bod y cyfranogwyr yn aros yn ddienw, cafodd y rhain eu grwpio gyda'i gilydd yng nghategorïau’r Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd, a'r Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg. Mae Ffigur 4 yn Atodiad 4 yn cyflwyno canran y cyfranogwyr yn ôl y disgyblaethau ehangach hyn.

O'r 50 o fyfyrwyr PGR a gyfranogodd yn y grwpiau ffocws, dywedodd 31 yn eu hymateb i'r arolwg eu bod yn fyfyriwr ôl-radd a ariennir gyda'r 19 arall yn nodi eu bod yn hunangyllido. Fodd bynnag, mae'n werth nodi, yn ystod y grwpiau ffocws, y bu ychydig o achosion lle aeth myfyrwyr ôl-radd a oedd wedi dweud eu bod yn cael eu cyllido ymlaen i egluro eu bod yn cael benthyciad myfyriwr yn hytrach na chyllid uniongyrchol ar gyfer eu hastudiaethau gan gyllidwr neu gyngor ymchwil. Dywedodd 16 o'r 50 o fyfyrwyr PGR a gyfranogodd yn y grwpiau ffocws eu bod yn fyfyrwyr rhyngwladol.

# 2. Polisïau a gweithdrefnau

Mae'r adran hon yn nodi canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â'r cymorth a roddir i fyfyrwyr PGR trwy fecanweithiau sefydliadol, yn ogystal â chymorth gan randdeiliaid eraill megis cynrychiolwyr ar ran cyllidwyr ac Undebau Myfyrwyr.

## 2.1 Polisïau cyffredinol a phenodol ar gyfer myfyrwyr PGR

Dywedodd uwch gynrychiolwyr o bob prifysgol yng Nghymru fod darparu profiadau myfyrwyr o ansawdd da i fyfyrwyr PGR yn rhan hanfodol o'u cenhadaeth a'u hethos. Er bod pob un wedi nodi bod rhywfaint o gymorth i fyfyrwyr PGR yn dod o dan strwythurau sefydliadol cyffredinol megis codau ymarfer myfyrwyr, polisïau Adnoddau Dynol a TG, roedd cydnabyddiaeth bod myfyrwyr PGR yn garfan unigryw ac amrywiol o fyfyrwyr y mae arnynt angen cymorth ac arweiniad wedi'u teilwra. Roedd yr amrywiaeth hon yn cael ei chydnabod gan gynrychiolwyr sefydliadol wrth ddisgrifio amrywiaeth eu corff myfyrwyr PGR, gyda chyfeiriadau at fyfyrwyr hŷn, y rhai â chyfrifoldebau gofalu, myfyrwyr rhan-amser a rhyngwladol.

Rhoddir cymysgedd o gymorth academaidd a llesiant ar draws gwahanol gamau 'taith myfyriwr PGR' – o'r cais i'r cyfnod sefydlu ac ymlaen drwy eu hastudiaethau ynghyd â chymorth ar gyfer gyrfaoedd posibl unwaith y bydd eu cymhwyster wedi'i gwblhau. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cyfathrebu, digwyddiadau, gweithgareddau a hyfforddiant pwrpasol i ddiwallu anghenion penodol myfyrwyr PGR. Amlinellwyd fod myfyrwyr PGR yn gyffredinol yn cael gwybod am bolisïau penodol a mwy cyffredinol yn ystod pob cam o'r broses o gael eu recriwtio ac integreiddio i fywyd prifysgol, er enghraifft, trwy eu llythyr cynnig, proses sefydlu, llawlyfrau a gwefannau.

Amlygodd cynrychiolwyr sefydliadol ystod o ysgogwyr ar gyfer yr ehangder o gymorth ac arweiniad yr oeddent wedi'u sefydlu. Roedd pob prifysgol yng Nghymru naill ai wedi cynnal eu hymchwil eu hunain i brofiad myfyrwyr PGR (megis cynnal grwpiau ffocws ac arolygon) neu wedi hyrwyddo mecanweithiau eraill ar gyfer casglu adborth (h.y. cwblhau PRES a'i ddadansoddi'n ddiweddarach) er mwyn deall anghenion eu myfyrwyr PGR yn well. Nododd yr holl gynrychiolwyr ddylanwad cynghorau ymchwil, cyrff cyllido a sefydliadau eraill, er enghraifft UKRI a CCAUC, wrth bennu eu polisïau cymorth i fyfyrwyr mewn meysydd fel absenoldeb rhiant a chontractau cyflogaeth.

Nododd y rhanddeiliaid hynny a oedd yn cynrychioli cyllidwyr a chyrff strategol ehangach yn y sector addysg uwch eu bod yn gefnogol i arlwy gyson a theg i fyfyrwyr PGR. Amlinellodd un cynrychiolydd o gyngor ymchwil eu bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyllidwyr eraill ynghylch eu disgwyliadau ar gyfer sefydliadau, myfyrwyr a goruchwylwyr. Fe eglurodd hefyd fod y safonau hyn yn aml yn cyd-fynd â pholisi ehangach gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â chyflogaeth, absenoldeb rhiant a phrofedigaeth, ac â meysydd eraill fel cymorth ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Roedd y mathau hyn o gymorth yn cael eu darparu trwy ystod o fframweithiau a strwythurau o fewn sefydliadau, peth ohono trwy ddulliau wedi'u canoli, ar draws y sefydliad i sicrhau ymagwedd unffurf tra bo elfennau eraill o gymorth yn cael eu datganoli i lefel adrannol.

## 2.2 Swyddfa graddedigion/ysgolion doethurol

Roedd gan y rhan fwyaf o brifysgolion dimau penodol â gorchwyl i gefnogi myfyrwyr PGR; roedd rhai wedi hen ennill eu plwyf tra bod eraill wedi cael eu sefydlu'n fwy diweddar. Yn fwyaf cyffredin, roedd y rhain ar ffurf swyddfa graddedigion neu ysgol ddoethurol, a oedd yn cael eu chydnabod gan staff a chyfranogwyr yn y grwpiau ffocws fel y 'pwynt cyswllt canolog' ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â myfyrwyr PGR; yn ei hanfod, 'hyb' gwybodaeth, cyfathrebu a chymorth.

Fel arfer, roedd gan swyddfeydd graddedigion ac ysgolion doethurol raglenni treigl o gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer myfyrwyr PGR ac roeddent yn darparu arweiniad ar bolisïau a gweithdrefnau'r brifysgol trwy ddigwyddiadau fel sefydlu. Roedd materion rhaglen-benodol, gan gynnwys safonau academaidd a chydlynu cynigion i astudio, yn aml y tu allan i gylch gwaith yr adrannau hyn, ac yn hytrach yn cael sylw ar lefel yr ysgol/y coleg.

Nodwyd fod swyddfeydd graddedigion ac ysgolion doethurol yn cael eu hintegreiddio fel rheol o fewn strwythurau'r brifysgol ond eto bod ganddynt rywfaint o awtonomiaeth a hyblygrwydd i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r garfan myfyrwyr PGR a dylunio gweithgareddau yn unol â hynny.

Nid oedd yn ymddangos bod gan ddwy brifysgol graddedigion nac ysgolion doethurol penodol ar gyfer eu myfyrwyr PGR. Er gwaethaf hyn, roedd y ddau sefydliad hyn yn trefnu llawer o gyfleoedd hyfforddi a datblygu tebyg yn benodol ar gyfer myfyrwyr PGR: roedd gan un ganolfan i gefnogi hyfforddiant a datblygiad, ac roedd gan y llall raglen datblygu ymchwilwyr a oedd yn cynnal sesiynau hyfforddi.

## 2.3 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r adran hon yn archwilio prosesau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws prifysgolion, gan gynnwys pa strwythurau oedd ar waith i ymdrin ag unrhyw heriau ac mae'n rhoi enghreifftiau o ble'r oedd myfyrwyr yn bersonol wedi wynebu materion a oedd yn ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

### 2.3.1 Barn gan brifysgolion a rhanddeiliaid

O ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, nododd cynrychiolwyr o bob prifysgol nifer o fecanweithiau cymorth a oedd ar waith i sicrhau bod myfyrwyr PGR yn cael profiad teg. Amlygodd y rhan fwyaf o sefydliadau fod strwythurau a phrosesau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael eu pennu ar lefel prifysgol gyfan a bod y rhain yn cofnodi ac yn monitro pob myfyriwr mewn meysydd megis recriwtio, derbyniadau a pherfformiad. Roedd enghreifftiau penodol a ddarparwyd gan sefydliadau'n cynnwys dyfarnu swyddi myfyrwyr y darperir cyllid cyfatebol ar eu cyfer i'r rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i arallgyfeirio'r boblogaeth myfyrwyr ac ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws arferion recriwtio.

Amlygodd un sefydliad rôl newydd a grëwyd yn eu hysgol raddedig i edrych ar hygyrchedd addysg ddoethurol, y bwlch mynediad doethurol a pholisïau a gweithdrefnau recriwtio doethurol. Nododd y sefydliad fod y datblygiad hwn yn y camau cynnar ond amlinellodd ei fod yn gam pwysig ymlaen i'r sefydliad o ran helpu i fynd i'r afael â bylchau.

Dywedodd un rhanddeiliad ehangach fod eu sefydliad yn cyllido prosiectau'n uniongyrchol i gefnogi amrywiaeth yng nghymuned ymchwil SAUau'r DU. Nod y prosiectau hyn oedd hybu mynediad a chyfranogiad ar gyfer ymchwilwyr doethurol o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac roeddent hefyd yn darparu hyfforddiant ychwanegol i godi ymwybyddiaeth o ragfarn ddiarwybod mewn goruchwyliaeth.

Dywedodd y rhan fwyaf o brifysgolion fod hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i gynnwys fel rhan o'r rhaglen sefydlu i fyfyrwyr a bod gwybodaeth am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i chynnwys o fewn llawlyfrau myfyrwyr. Roedd hyn yn cynnwys sut i fod yn sensitif i faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn ogystal ag arfogi myfyrwyr â gwybodaeth am gysylltiadau sefydliadol allweddol pe baent yn wynebu problemau eu hunain. Nododd rhai hefyd, pan oedd myfyrwyr PGR yn cofrestru, y gofynnir iddynt gwblhau gwybodaeth fonitro a fyddai'n nodi unrhyw anghenion cymorth o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y gellid gweithredu arnynt pe bai angen. Nodwyd ei bod yn ofynnol i fyfyrwyr PGR ar raglenni sy'n para am yn hwy nag un flwyddyn academaidd gofrestru bob blwyddyn, ac felly bod gan brifysgolion sawl pwynt cyswllt â myfyrwyr PGR a oedd yn datgelu anghenion ac y gallent wedyn roi cymorth parhaus trwy gydol 'taith myfyriwr PGR'.

Roedd prifysgolion yn cydnabod bod angen gwaith ac adolygu parhaus i ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a sicrhau profiadau teg i fyfyrwyr. Defnyddiodd un brifysgol enghraifft o'r ffordd yr oedd cyrsiau wedi cael eu gwneud yn hygyrch trwy amrywiaeth o ddulliau gyda recordiadau a thrawsgrifiadau ar-lein ar gael yn hytrach na sesiynau wyneb-yn-wyneb yn unig, gan gynyddu hygyrchedd ar gyfer mwy o fyfyrwyr PGR megis y gymuned myfyrwyr byddar neu'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Nododd prifysgol arall bwysigrwydd bod â thîm goruchwylio priodol a oedd yn sensitif i wahaniaethau diwylliannol, mater a godwyd gan fyfyrwyr PGR yn Adran 2.3.2.

Dywedodd prifysgolion fod nifer o ffyrdd y gallai myfyrwyr PGR godi materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Soniodd rhai fod myfyrwyr yn gallu codi materion gydag ysgolion doethurol, trwy fecanweithiau adborth, ac Undebau Myfyrwyr, yn ogystal â thrwy bwyllgorau (megis grwpiau llywio Athena SWAN a grwpiau Menywod mewn Ymchwil) yr oedd myfyrwyr PGR weithiau'n eu mynychu. Gwnaeth cyfwelydd arall o brifysgol sylwadau am bwysigrwydd proses a oedd yn ei gwneud yn bosibl i faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gael eu codi gan fyfyrwyr yn uniongyrchol. Rhoddwyd enghraifft o fyfyriwr PGR yn codi pryderon ynghylch tybiaethau ableddiaethol, yn benodol y gofyniad i argraffu traethawd ymchwil ar bapur gwyn fel rhan o amodau cyflwyno. Aeth y cynrychiolydd ymlaen i ddweud, o ganlyniad i'r adborth hwn, fod y brifysgol wedi newid ei gofynion.

> "*Mae'n dod oddi wrth yr myfyrwyr eu hunain a'u mentrau hwy eu hunain...* [Gan gyfeirio at y myfyriwr PhD] *Pan oedd hi'n bryd cyflwyno ei thraethawd ymchwil, holodd, 'pam fod gennych chi lawer o'r gofynion hyn? Mae llawer o ableddiaeth yn*

*sail i hyn... Ac felly fe aethom mor bell â newid llawer o'n disgrifiadau o ran beth yw'r gofynion cyflwyno*." Staff Prifysgol

Soniodd cynrychiolwyr undebau myfyrwyr am dystiolaeth anecdotaidd o heriau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i fyfyrwyr PGR, er enghraifft myfyrwyr benywaidd (o ran materion deinameg), myfyrwyr rhyngwladol (iaith a diwylliant), myfyrwyr anabl (mynediad at adnoddau a safleoedd) a myfyrwyr niwroamrywiol ac roeddent o'r farn bod mwy o gynnydd i'w wneud i wreiddio cymorth ar gyfer, ac ymwybyddiaeth o, Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws y gymuned PGR. Nododd nifer o gynrychiolwyr eu gwaith eu hunain i gefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, er enghraifft cynnal ymgyrchoedd, gweithdai addysgol a chlybiau llyfrau, a hybu ymwneud â hwy gan fyfyrwyr PGR.

### 2.3.2 Barn myfyrwyr PGR

Roedd y mwyafrif o'r myfyrwyr PGR a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn eu sefydliad. Roedd y rhan fwyaf wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ond nododd nifer fach nad oeddent wedi gwneud hynny, ac nad oeddent yn ymwybodol bod unrhyw hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gael yn eu sefydliadau.

O ran cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, darparodd rhai myfyrwyr enghreifftiau cadarnhaol o'r cymorth a gawsant gan eu sefydliadau. Roedd un myfyriwr wedi cael diagnosis o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ran o'r ffordd trwy eu doethuriaeth a dywedodd fod y brifysgol "*mor gefnogol ac yn fy nghadw ar y trywydd iawn*" trwy gymorth gan oruchwylwyr, gwasanaethau llesiant, timau anabledd a chwnsela. Nododd myfyriwr rhyngwladol eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cefnogi gan eu goruchwyliwr a oedd yn deall eu cefndir diwylliannol, tra bo myfyriwr arall wedi rhoi enghraifft o fod wedi troi at Islam yn ddiweddar a theimlo bod y brifysgol yn gefnogol o ran darparu mynediad at fannau gweddïo.

Amlinellodd rhai myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig lleiafrifol, gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol, myfyrwyr anabl, a rhieni a gofalwyr, ddiffyg cefnogaeth ac roeddent yn teimlo nad oedd eu priod sefydliadau'n gwneud digon o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn fwy cyffredinol. Gwnaeth cwpl o fyfyrwyr sylwadau am 'ddiffyg cysylltiad' rhwng naratif a gweithredu ac roeddent yn teimlo bod angen i'w prifysgol wneud mwy i gefnogi a hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Roedd myfyriwr arall yn teimlo bod angen newid ar lefel ehangach, yn enwedig gan uwch staff, yn ogystal â chamau gweithredu i gefnogi cynnydd mewn ymwybyddiaeth o faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan fyfyrwyr PGR nad oeddent o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

[Ynglŷn â datganiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant eu sefydliad*]" mae'r datganiad i'w weld yn aneglur ac yn amwys. Mae'n dda eu bod yn dweud beth yw eu bwriadau, ond beth mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd?*" Myfyriwr PGR

*"Fel arfer mae yna ambell i unigolyn sy'n cymryd llawer iawn o gyfrifoldeb am wneud newidiadau o fewn yr [adran]. Ond ar y cyfan, nid yw'n ymddangos bod uwch staff yn gwneud yr ymdrech i annog myfyrwyr i gymryd rhan o'm profiad i. Ac ychydig iawn o fyfyrwyr*

*PhD nad ydynt o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol sydd ag ymwybyddiaeth o faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant."* Myfyriwr PGR

Dywedodd sawl myfyriwr rhyngwladol eu bod yn teimlo wedi'u heithrio o ddigwyddiadau cymdeithasol a gaiff eu rhedeg gan fyfyrwyr neu a gynhelir gan y brifysgol, gyda chanfyddiadau bod rhwystrau ieithyddol a diwylliannol yn bodoli, gan gyfrannu at deimlad ymhlith y rhai o gefndiroedd ethnig lleiafrifol eu bod yn cael eu gadael allan fel myfyrwyr PGR. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys peidio â theimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd neu beidio â chael eu gwahodd i ddigwyddiadau cymdeithasol. Nododd un o'r myfyrwyr rhyngwladol hefyd y gallai fod diffyg hyder gan eraill wrth siarad gyda myfyrwyr rhyngwladol a bod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o wahanol gefndiroedd.

Nododd nifer o gyfranogwyr benywaidd achosion o wahaniaethu ar sail rhyw. Nododd rhai fod eu meysydd yn cynnwys dynion yn bennaf a'u bod yn gweld hyn yn anodd. Dywedon nhw nad oedden nhw'n teimlo bod goruchwylwyr yn gwrando arnynt ac nad oeddent yn gallu cyfleu eu safbwynt a chael cydnabyddiaeth ac ymateb digonol i hyn. Dywedodd myfyrwraig arall mai hi oedd yr unig fenyw gwiar ar eu tîm ac nad oedd yn teimlo'i bod yn cael ei chynnwys ryw lawer, gydag awgrym bod angen i staff *"fod yn fwy agored eu meddwl*". Roedd myfyrwraig arall hefyd yn teimlo nad oedd cydweithwyr gwrywaidd yn ymddiried ynddi *"i allu codi pethau trwm*" ac yn teimlo fel pe bai'n cael ei thrin yn wahanol o ganlyniad. Rhoddwyd enghreifftiau hefyd o fyfyrwyr nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys na'u cefnogi oherwydd eu bod yn fyfyrwyr hŷn neu'n rhieni.

> *"Rwy'n fam ac mae wedi bod yn fater parhaus i mi fel myfyrwraig. Nid oes adran ar y wefan ar gyfer myfyrwyr sy'n rhieni...Yn aml nid yw'n cael ei ystyried. Nid fy mod yn dweud nad yw staff fel rheol yn hynod o barod i ddeall ac yn hyblyg y rhan fwyaf o'r amser. Ond, yn sefydliadol, dyw'r ystyriaeth yn syml ddim yno yn fy nhyb i."* Myfyrwraig PGR

O ran cael gafael ar gymorth ar gyfer materion sy'n ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant roedd tystiolaeth y gallai profiadau fod yn dra gwahanol i fyfyrwyr hyd yn oed o fewn yr un sefydliad. Er enghraifft, mewn un grŵp ffocws nododd dau fyfyriwr fod ganddynt gyflyrau niwroamrywiol ond eu bod wedi cael lefelau gwahanol o gymorth gan eu prifysgol. Roedd un myfyriwr, ar ôl cael diagnosis chwe mis ar ôl dechrau ar ei astudiaethau, wedi cael gwybodaeth ynglŷn â ble i gael cymorth, gan ei oruchwyliwr yn bennaf, ac roedd yn hapus gyda'r profiad hwn. Mewn cyferbyniad, nid oedd y myfyriwr arall yn teimlo ei fod yn cael cymorth nac yn gwybod o ble i gael cyngor, er bod ganddo ddiagnosis ar gyfer ei gyflwr ers dechrau ei astudiaethau. Roedd y myfyriwr hwn wedi cael ei gyfeirio'n awtomatig at y gwasanaeth cymorth anabledd pan gofrestrodd yn y brifysgol am y tro cyntaf, ond ar wahân i gyfarfod gorfodol i drafod ei gyflwr, nid oedd unrhyw beth arall wedi cael ei roi ar waith ac nid oedd y myfyriwr yn siŵr o ble arall y gallai gael cymorth.

Roedd myfyriwr arall o fewn yr un sefydliad wedi cael diagnosis gorsymudedd cyn dechrau ar ei astudiaethau ac yn teimlo bod y gofal bugeiliol yr oedd wedi gael yn "*ddi-fai*". I nodi, roedd y tri myfyriwr hyn yn dod o wahanol adrannau yn y sefydliad.

Mewn prifysgol arall, dywedodd dau fyfyriwr fod ganddynt faterion iechyd ac unwaith eto, teimlai un myfyriwr ei fod yn cael digon o gymorth gan ei oruchwyliwr a fyddai bob amser yn dechrau eu cyfarfodydd trwy ofyn i'r myfyriwr am ddiweddariadau ar ei iechyd, tra bod y myfyriwr arall yn teimlo bod ei oruchwyliwr yn *"lletchwith"* ynghylch ei faterion iechyd ac y byddai'n osgoi'r pwnc.

O ran awgrymiadau i wella Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar lefel ehangach yn y brifysgol, awgrymodd myfyrwyr yn bennaf fod angen i oruchwylwyr, staff eraill y brifysgol a myfyrwyr PGR eu hunain gael mwy o hyfforddiant yn rheolaidd er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Awgrymodd un myfyriwr y gallai seminarau neu gyfarfodydd un-i-un gyda'r rhai o wahanol gefndiroedd ddarparu sylfaen i gael gwell dealltwriaeth am anghenion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws adrannau. Awgrymwyd hefyd gan gwpl o fyfyrwyr y dylai fod mwy'n cael ei wneud i recriwtio a chadw'r rhai o gefndiroedd gwahanol, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a allai wella amrywiaeth o fewn sefydliadau yn eu tyb hwy.

## 2.4 Adborth a chynrychiolaeth myfyrwyr

Mae'r adran hon yn archwilio sut yr oedd adborth myfyrwyr yn cael ei ddefnyddio a pha gyfleoedd oedd ar gael i fyfyrwyr PGR gael eu cynrychioli ar draws prifysgolion, megis trwy undebau myfyrwyr, cynrychiolaeth ar raglenni PGR, a phresenoldeb myfyrwyr PGR ar bwyllgorau sefydliadol.

### 2.4.1 Barn gan brifysgolion a rhanddeiliaid ehangach

Dywedodd cynrychiolwyr prifysgolion fod ystod o fecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol ar gael i fyfyrwyr PGR roi adborth i sefydliadau. Roedd undeb y myfyrwyr yn cael ei ystyried yn llais pwysig i fyfyrwyr PGR, a nodwyd y byddai'r undebau'n cwrdd yn rheolaidd ag ysgolion doethurol/swyddfeydd graddedigion a phwyllgorau neu grwpiau lefel-uchel i roi adborth i'r brifysgol. Dywedwyd hefyd fod corff cenedlaethol undebau myfyrwyr, sy'n cynnwys cynrychiolwyr PGR ar draws sefydliadau Cymru, yn fecanwaith pwysig i lais y myfyrwyr gael ei glywed ar lefelau sefydliadol a chenedlaethol. Amlygodd undebau myfyrwyr hefyd, ochr yn ochr â chynrychiolaeth, eu bod hefyd yn rhoi cyngor ac eiriolaeth am ddim i fyfyrwyr PGR fel rhan o'u gwaith craidd.

Nododd staff SAUau hefyd bwysigrwydd cynrychiolwyr myfyrwyr PGR yn eu sefydliadau. Roedd y rhain yn fyfyrwyr a etholwyd fel cynrychiolwyr o fewn adrannau academaidd, yn ogystal â'r rhai a oedd yn ymwneud â chynrychiolaeth ehangach ar lefel y brifysgol. Rhan o ddiben rolau'r cynrychiolwyr myfyrwyr PGR hyn oedd casglu adborth gan gyd-fyfyrwyr PGR a bod yn gyfrwng i'r brifysgol gyrraedd eu carfannau myfyrwyr PGR. Adroddwyd fod cynrychiolwyr myfyrwyr PGR yn eistedd ar wahanol bwyllgorau a gweithgorau mewnol a oedd yn ymdrin â materion sefydliadol, er enghraifft pwyllgorau moeseg, pwyllgorau arloesi ymchwil, a phaneli myfyrwyr a staff.

Fodd bynnag, nododd dau gynrychiolydd myfyrwyr PGR heriau sy'n gysylltiedig â chynrychiolaeth ar gyfer myfyrwyr PGR. Roedd hyn yn cynnwys diffyg cysylltedd a chydweithio rhwng cynrychiolwyr myfyrwyr PGR mewn gwahanol ysgolion/adrannau, a

chynrychiolwyr heb ryw lawr o amser a chapasiti i gyflawni eu rolau cynrychioli'n effeithiol. Rhannodd dwy brifysgol brofiadau o heriau penodi cynrychiolwyr myfyrwyr PGR i leoedd gwag hefyd, gan gynnwys anawsterau recriwtio a gorfod rhoi mwy o gymorth i gynrychiolwyr nag a ddisgwyliwyd i ddechrau.

Roedd y rhan fwyaf o brifysgolion wedi cymryd rhan yn PRES yn ystod y tair blynedd ddiwethaf (cyn comisiynu'r ymchwil hon: gweler Tabl 1, Adran 1.2.1) i'w hysbysu am adborth myfyrwyr, tra bo'r sefydliadau sy'n weddill yn canolbwyntio ar eu harolygon mewnol eu hunain o fyfyrwyr PGR. Roedd dulliau eraill o gasglu adborth yn cynnwys adolygiadau o gynnydd, grwpiau ffocws mewnol ar gyfer myfyrwyr, fforymau a holiaduron ymadael. Roedd adborth yn cael ei gasglu mewn modd anffurfiol hefyd trwy sgyrsiau parhaus rhwng staff a myfyrwyr PGR, ac roedd hyn yn arbennig o wir mewn prifysgolion â charfannau myfyrwyr PGR llai.

Dywedwyd fod yr adborth a gasglwyd yn cael ei ystyried gan ysgolion ac adrannau unigol, ysgolion doethurol/swyddfeydd graddedigion ac ar lefel ehangach mewn prifysgolion. Amlygodd un brifysgol ei bod yn hysbysebu newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth trwy bosteri ar y campws: er enghraifft, roedd un yn dweud *"dyma beth ddwedoch chi wrthym, a dyma beth rydym ni wedi'i wneud"*. Dywedodd sefydliad arall ei fod yn benodol yn creu cynlluniau gweithredu i roi newidiadau ar waith gyda'r adborth a gawsant.

Roedd cynrychiolwyr prifysgolion yn hyderus bod myfyrwyr PGR yn cael digonedd o gyfleoedd trwy wahanol fecanweithiau i ddarparu awgrymiadau a chodi pryderon. Rhoddon nhw sawl enghraifft lle'r oedd llais myfyrwyr wedi helpu'r brifysgol i ddeall profiadau myfyrwyr PGR yn well, a oedd wedi arwain wedyn at newidiadau i ymarfer. Roedd y rhain yn cynnwys newid rhai cyrsiau hyfforddi o fod yn rhai a ddarperir yn y cnawd i fod yn rhai a ddarperir ar-lein yn dilyn adborth penodol gan fyfyrwyr am hygyrchedd, yn ogystal â chefnogi digwyddiadau rhyngddisgyblaethol mewn ymateb i geisiadau myfyrwyr am well cysylltedd rhwng ysgolion. Hefyd, rhoddodd cynrychiolydd undeb myfyrwyr enghraifft o sut yr oedd myfyrwyr PGR sy'n addysgu wedi bwydo'n ôl ar fater contractau anghyson. O ganlyniad, roedd y brifysgol yn cyflwyno contractau addysgu newydd ar gyfer myfyrwyr PGR ar draws pob adran a choleg.

### 2.4.2 Barn myfyrwyr PGR

Nid oedd pwnc adborth a chynrychiolaeth myfyrwyr yn brif ffocws i'r trafodaethau gyda myfyrwyr PGR: nid oedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr wedi cael cyswllt â chynrychiolwyr ac felly nid oedd ganddynt farn am y rolau hyn. Mewn rhai achosion lle'r oedd myfyrwyr PGR wedi ymdrin â chynrychiolwyr myfyrwyr PGR, roedd rhai enghreifftiau cadarnhaol. Cyfeiriodd un cyfranogwr a oedd yn gynrychiolydd myfyrwyr at gyfarfodydd cynrychiolwyr myfyrwyr ffurfiol a oedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd gyda'r cyfarwyddwr myfyrwyr ymchwil yn eu hysgol. Roeddent yn fodlon ar y broses adborth a'r cyfle i fynd i'r afael â rhwystrau. Yn benodol, fe wnaethant sôn am heriau a wynebir gan fyfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu, a'u bod yn codi hyn gyda'u hysgol ac yn trafod pa newidiadau y gellid eu gwneud.

Esboniodd sawl myfyriwr PGR mewn grŵp ffocws arall eu bod yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt, ac y byddai unrhyw geisiadau neu awgrymiadau rhesymol ar gyfer gwella yn cael eu derbyn.

*Myfyriwr PGR 1: "Ar gyfer y [cais am ystafell ôl-radd] anfonais e-bost at y Deon Ymchwil gan ofyn, 'a oes unrhyw siawns gan fy mod i wir yn meddwl bod angen yr ystafell hon arnom ar gyfer myfyrwyr ac ar gyfer rhwydweithio hefyd?'. Ac yn gyflym iawn, trefnwyd hynny. Felly oeddwn, roeddwn i'n teimlo eu bod yn gwrando arnaf yn y sefyllfa honno."*

*Myfyriwr PGR 2: "Ydw, roeddwn i ar fin dweud fy mod i'n teimlo fel bod y brifysgol yn ei chyfanrwydd, bod arnynt eisiau gwella. Os oes gennych chi syniad da, yr ydych chi'n gwybod y bydd yn gwella profiad myfyrwyr, fel rheol, maen nhw bob amser yn agored i'r mathau hynny o awgrymiadau."*

Mewn rhai achosion, roedd hi'n ymddangos bod anhawster ennyn ymgysylltiad myfyrwyr PGR er mwyn casglu adborth. Mewn un drafodaeth, roedd ar gynrychiolydd myfyrwyr PGR eisiau casglu adborth ar benderfyniad i barhau i gynnal cynhadledd flynyddol ar-lein, ar ôl iddi gael ei symud o fod yn ddigwyddiad yn y cnawd oherwydd y pandemig. Roeddent yn teimlo bod cynnal y digwyddiad hwn ar-lein yn cyfrannu at deimladau o unigedd i rai myfyrwyr ond yn ei chael hi'n anodd ennyn diddordeb myfyrwyr eraill mewn cael trafodaeth: cafodd arolwg a oedd yn ceisio casglu adborth ar y dull o gynnal y gynhadledd ymateb isel iawn.

## 2.5 Crynodeb o'r adran

- Darperir cymysgedd o gymorth academaidd a llesiant i adlewyrchu amrywiaeth corff myfyrwyr PGR. Roedd y cymorth hwn yn cael ei roi trwy amrywiaeth o fframweithiau a strwythurau, peth ohono wedi'i ganoli, i sicrhau ymagwedd unffurf tra bo elfennau eraill o gymorth yn cael eu datganoli i lefel adrannol.

- Yn y rhan fwyaf o brifysgolion Cymru, mae swyddfa graddedigion neu ysgol ddoethurol yn gweithredu fel 'hyb' gwybodaeth, cyfathrebu a chymorth i fyfyrwyr PGR. Fel rheol, mae'r rhain wedi'u hintegreiddio o fewn strwythurau prifysgolion ond mae ganddynt rywfaint o awtonomiaeth i roi cymorth wedi'i dargedu.

- Mae dwy brifysgol arall yn rhoi cymorth trwy raglen ganolfan a chanolfan datblygu ymchwilwyr yn eu tro.

- Er mwyn deall ac ymateb i anghenion myfyrwyr PGR, mae prifysgolion yn cynnal eu hymchwil eu hunain ac yn defnyddio mecanweithiau eraill ar gyfer casglu adborth (h.y. cwblhau a dadansoddi PRES). Roedd gwaith cynghorau ymchwil, cyrff cyllido a sefydliadau eraill hefyd yn ddylanwad ar ddylunio eu polisïau cymorth.

- Roedd ystod o fecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol ar gael i fyfyrwyr PGR roi adborth i sefydliadau. Roedd undeb y myfyrwyr yn cael ei ystyried yn llais pwysig ac roedd cynrychiolwyr myfyrwyr PGR yn eistedd ar bwyllgorau a gweithgorau mewnol. Fodd

bynnag, amlygwyd heriau mewn perthynas ag amser myfyrwyr, eu capasiti a'u hangen am gymorth.

- O ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, amlygodd y rhan fwyaf o sefydliadau fod strwythurau a phrosesau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael eu pennu ar lefel prifysgol gyfan ac yn cofnodi ac yn monitro pob myfyriwr mewn meysydd fel recriwtio, sefydlu, derbyniadau a pherfformiad.

- Soniodd cynrychiolwyr undebau myfyrwyr am dystiolaeth anecdotaidd o heriau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i fyfyrwyr PGR ac roeddent o'r farn bod mwy o gynnydd i'w wneud o ran gwreiddio cymorth ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac ymwybyddiaeth ohonynt, ar draws y gymuned PGR.

- Soniodd myfyrwyr PGR â nodweddion lleiafrifol am rai heriau o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ystod grwpiau ffocws. Awgrymwyd fod angen i staff prifysgolion a myfyrwyr PGR eu hunain gael mwy o hyfforddiant yn rheolaidd a bod angen gwneud mwy i recriwtio pobl o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol, i wella amrywiaeth o fewn sefydliadau.

# 3. Goruchwyliaeth

Mae'r adran hon yn archwilio'r berthynas oruchwyliol rhwng myfyrwyr PGR a staff academaidd, yn arbennig pwysigrwydd perthynas waith effeithiol, hyfforddiant i oruchwylwyr a monitro cynnydd.

## 3.1 Gweithdrefnau/canllawiau sy'n bodoli

Dywedodd yr holl gynrychiolwyr prifysgolion a myfyrwyr fod y berthynas oruchwyliol yn elfen hanfodol o brofiad myfyrwyr PGR. Roedd hyn yn wir o ran enghreifftiau cadarnhaol ac arfer da a rannwyd, achosion lle'r oedd y berthynas wedi bod yn her ac felly'n brofiad negyddol, a hefyd lle'r oedd heriau wedi cael eu goresgyn trwy'r gweithdrefnau a roddwyd ar waith gan sefydliadau a grwpiau sy'n cynrychioli myfyrwyr. Roedd rhanddeiliaid ehangach yn cytuno bod y berthynas hon yn ganolog i brofiad myfyrwyr PGR, gydag un yn dweud, *"mae'r berthynas â'r goruchwyliwr yn unigryw iawn - mae'n ymwneud â mentora, hyfforddi, agweddau bugeiliol ac addysgeg."*

### 3.1.1 Barn gan brifysgolion

O'r safbwynt sefydliadol, ystyriwyd fod goruchwyliaeth yn faes yr oedd arian yn cael ei fuddsoddi ynddo ac a oedd yn cael ei gefnogi'n dda. Amlygodd pob prifysgol ystod o bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau sefydliadol a oedd yn darparu'r fframwaith ar gyfer trefniadau goruchwylio. Roedd y berthynas yn cael ei llywodraethu gan godau ymarfer a gymeradwywyd gan bwyllgorau sefydliadol, yn cael ei hategu gan lawlyfrau a datblygiad proffesiynol ar gyfer goruchwylwyr, ac yn cael ei throsolygu gan fecanweithiau mewnol fel adolygiadau monitro cynnydd. Roedd cyfrifoldebau goruchwylwyr ymchwil wedi'u hamlinellu mewn llawlyfrau myfyrwyr PGR ac yn cael eu cyfleu i fyfyrwyr yn ystod gweithgareddau sefydlu.

Roedd cyfansoddiad y tîm goruchwylio'n amrywio ar draws ac o fewn prifysgolion: roedd amrywiaeth yn nifer y goruchwylwyr yr oedd eu hangen i oruchwylio prosiectau, weithiau gyda chymysgedd o oruchwylwyr mewnol, rhyngddisgyblaethol neu allanol gan ddibynnu ar gwmpas yr ymchwil. Roedd hyblygrwydd hefyd yn y meini prawf a oedd yn cael eu cymhwyso wrth baru goruchwylwyr â myfyrwyr PGR, gan gydnabod bod angen cymysgedd o gymorth academaidd a holistaidd yn y rôl. Amlygwyd hyn fel dull buddiol, gydag un sefydliad yn esbonio, *"rydym yn chwilio am gydweddiad da – o ran personoliaeth neu ddisgyblaeth".*

Dau oruchwyliwr oedd y norm fel rheol ar draws prifysgolion gydag un yn aml yn arwain ar yr arweiniad academaidd, a'r llall yn arwain ar elfennau mwy bugeiliol. Nododd un rhanddeiliad, *"mae goruchwylwyr ymchwil yn derbyn mai eu rôl hwy yw goruchwylio'r person nid prosiect, rhoi cymorth bugeiliol hefyd, ac ymateb i anghenion iechyd meddwl."* Rhoddwyd enghreifftiau o dimau'n cynnwys goruchwyliwr iau ac uwch oruchwyliwr, gyda'r cyntaf yn gweithredu fel y pwynt cyswllt mwy mynych ar gyfer myfyrwyr PGR tra bod yr ail yn ymgysylltu ar adegau allweddol yr ymchwil.

Roedd adolygiadau monitro cynnydd yn rhan annatod o daith myfyrwyr PGR a chan hynny roeddent yn cael eu hymgorffori mewn arferion goruchwylio. Amlygwyd fod defnyddio adolygydd cynnydd, trydydd parti a oedd yn goruchwylio cynnydd myfyriwr PGR ac a oedd

yn adrodd wrth banel ar wahân yn y brifysgol, yn rhan bwysig o'r broses fonitro. Amlygodd prifysgolion sut yr oedd myfyrwyr PGR yn cynnal deialog gyda'u hadolygydd cynnydd, y tu allan i gylch gwaith eu goruchwylwyr, ac y gellid codi unrhyw faterion gyda'r berthynas fel rhan o'r broses hon.

### 3.1.2 Barn gan fyfyrwyr PGR

Roedd gan fyfyrwyr yn y grwpiau ffocws brofiadau cymysg o oruchwyliaeth a pherthnasau goruchwyliol. I rai myfyrwyr, roedd disgwyliadau'n cael eu bodloni, tra bod eraill yn tynnu sylw at heriau ac anawsterau a oedd wedi effeithio ar eu cynnydd, eu hyder a'u hastudiaethau.

Ar y cyfan, roedd consensws bod gan oruchwylwyr yr wybodaeth bynciol angenrheidiol i arwain a chefnogi myfyrwyr PGR yn eu meysydd ymchwil a'u bod yn yr ystyr hwn 'yn cydweddu'n dda', gyda rhai eithriadau fel a amlinellir yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Fe wnaeth y rhai a siaradodd **yn gadarnhaol amlinellu sawl elfen a oedd yn cyfrannu at brofiad cadarnhaol i fyfyrwyr PGR**, gan gynnwys y canlynol:

**Cyfarfodydd mynych a rheolaidd** (boed ar-lein neu yn y cnawd) megis yn wythnosol, bob pythefnos neu'n fisol. Roedd myfyrwyr o'r farn bod sicrwydd cyfarfodydd rheolaidd i wirio cynnydd a gosod targedau'n fuddiol. Roedd ganddynt y disgwyliad y byddent yn cwrdd yn rheolaidd â'u goruchwylwyr ac y byddai cyfarfodydd yn canolbwyntio ar eu cynnydd academaidd.

**Bod wedi'u lleoli mewn labordy, canolfan ymchwil neu swyddfa yn agos at oruchwylwyr** a staff academaidd eraill. Roedd bod â mynediad at oruchwylwyr trwy weithio'n agos atynt yn rhywbeth a amlinellwyd fel ffordd o greu perthynas glòs a buddiol. Soniodd nifer o fyfyrwyr sut yr oedd y trefniant hwn yn golygu y gallent ddysgu gan oruchwylwyr o ddydd i ddydd, gofyn cwestiynau a gofyn am gyngor ar eu gwaith.

**Bod â mwy nag un goruchwyliwr, dau fel arfer, y naill â'r llall yn cyflawni gwahanol rolau yn y berthynas oruchwyliol** a sgiliau sy'n wahanol ond yn ategu ei gilydd. Yn aml, soniodd myfyrwyr fod un goruchwyliwr a lefel uwch na'r llall, gyda'r ail o'r rhain ar gael yn fwy ac yn gallu cynnig cymorth ehangach, cyfannol i'r myfyriwr PGR yn ogystal ag arweiniad academaidd.

Hefyd, roedd rhai o'r myfyrwyr yn y grwpiau ffocws wedi parhau o lefel israddedig i lefel ôl-radd yn yr un brifysgol. Fe ddwedon nhw fod y parhad, y cynefindra â phrosesau a'r perthnasoedd gwaith da presennol â'u goruchwylwyr yn cyfrannu at brofiad cadarnhaol.

Nododd rhai cyfranogwyr nad oedd eu goruchwylwyr bob amser yn gefnogol o ran dealltwriaeth ehangach amdanynt fel unigolion, ar eu teithiau trwy'r broses ôl-radd. Mae'n ymddangos, er bod prifysgolion gan mwyaf yn darparu goruchwylwyr o ansawdd o ran cymorth academaidd, bod llai o enghreifftiau cadarnhaol o gymorth cyfannol estynedig ar gyfer profiad cyffredinol myfyrwyr PGR. I rai myfyrwyr yn y grwpiau ffocws, roedd y berthynas oruchwyliol wedi bod yn anodd, ac roedd yn agwedd negyddol ar y profiad o fod yn fyfyriwr PGR. Yn yr achosion hyn, amlygwyd fod heriau weithiau'n rhai personol i'r myfyriwr unigol

weithiau, neu’n adlewyrchiad o faterion mwy generig, megis cymhwyso polisïau a gweithdrefnau'r brifysgol.

Roedd gwahaniaethau yn y ffyrdd yr oedd timau goruchwyliol yn cael eu rhoi at ei gilydd. Soniodd rhai myfyrwyr PGR am allu dewis eu goruchwylwyr, neu ddylanwadu ar y broses, ond roedd goruchwylwyr yn cael eu dyrannu i eraill gan eu hadrannau ac nid oedd ganddynt lais o ran pwy oedd yn cael eu neilltuo iddynt. Roedd yn ymddangos bod y gwahaniaethau hyn yn deillio o ystod o ffactorau dylanwadol, megis arbenigedd goruchwylwyr a phrosiectau ymchwil cydgynhyrchu. Nid oedd myfyrwyr PGR i’w gweld fel pe baent yn ymwybodol o'r ffactorau cynnil hyn a'r prosesau penderfynu a oedd yn bwydo i mewn i ddyrannu goruchwylwyr. Er enghraifft, mewn un grŵp ffocws, dywedwyd wrth rai cyfranogwyr fod yn rhaid iddynt gael goruchwylwyr o'r adran, tra bo eraill yn gallu manteisio ar arbenigedd priodol o'r tu allan i'r adran.

> *"Rwy'n synnu'n fawr eich bod wedi cael bod â goruchwylwyr nid yn unig a oedd y tu allan i'ch adran, ond a oedd y tu allan i'r brifysgol hefyd, oherwydd gwrthodwyd hynny’n blwmp ac yn blaen i mi. "Na, allwch chi ddim gwneud hynny." Felly mae rhai gwahaniaethau, rheolau...Pwy sy'n gosod y rheolau hynny? Ai rheolau adrannol yn unig ydynt? Neu onid penderfyniad i’r brifysgol yw gwneud hyn?"* Myfyriwr PGR

Fe wnaeth myfyrwyr PGR a soniodd iddynt gael **profiadau negyddol o oruchwyliaeth amlinellu'r enghreifftiau canlynol**:

**Goruchwylwyr yn peidio â bod ar gael i** gwrdd â'r myfyriwr neu ei dywys yn barhaus, a hwythau yn y bôn yn rhy brysur gyda chyfrifoldebau eraill i oruchwylio'n effeithiol. Yn yr achosion hyn, roedd y goruchwyliwr i’w weld fel pe bai, yn amlach na pheidio, yn ffigwr uwch yn yr ysgol / adran gyda llawer o ddyletswyddau yn cystadlu â’i gilydd a heb ryw lawer o amser i’w gysegru i oruchwylio a thywys myfyrwyr ôl-radd ar eu taith ymchwil.

**Bod goruchwylwyr yn cael eu neilltuo a hwythau heb fod yn arbenigwyr ym maes ymchwil y myfyriwr PGR**, ac felly'n gyfyngedig o ran eu gwybodaeth benodol a manwl am y pwnc.

Nododd lleiafrif bach o fyfyrwyr fod **ganddynt oruchwylwyr lluosog, y tu hwnt i'r ddau arferol**; er enghraifft, soniodd un myfyriwr PGR fod ganddynt chwe goruchwyliwr, yr oedd dau ohonynt yn bobl nad oeddent erioed wedi cwrdd â hwy nac wedi cael unrhyw gysylltiad â hwy. Nododd y myfyrwyr PGR hyn nad oedd hi’n glir iddynt beth oedd gwahanol rolau’r academyddion hyn yn eu prosiect, ac fe sonion nhw am orfod ymgodymu â safbwyntiau croes a gwahanol ar gyfeiriad eu hymchwil.

> *"Mae'n anodd iawn rheoli cymaint o bobl ac yn aml dydyn nhw ddim yn cytuno â'i gilydd, mae gan bob un ohonyn nhw farn wahanol am yr hyn y dylwn i fod yn ei wneud. Ac mae llawer o’m doethuriaeth yn cael ei dreulio’n cyfathrebu ar eu rhan oherwydd ni fyddant yn mynd mor bell â siarad gyda'i gilydd. Mae hynny'n achosi llawer o broblemau."* Myfyriwr PGR

**Bod â rhy ychydig o oruchwylwyr**. Siaradodd sawl cyfranogwr am yr anawsterau pan oedd goruchwylwyr yn gadael hanner ffordd trwy astudiaethau'r myfyriwr PGR a bod oedi cyn i rywun arall gael ei neilltuo yn eu lle, gan adael dim ond un goruchwyliwr i oruchwylio'r ymchwil. Roedd rhai o'r un myfyrwyr hyn yn chwilio am oruchwylwyr newydd eu hunain trwy eu rhwydweithiau eu hunain yn hytrach nag aros i'r sefydliad wneud hynny. Mewn un enghraifft, roedd goruchwyliwr cyntaf myfyriwr wedi ymddeol ac roedd yr ail wedi bod yn brysur yn gweithio ar lyfr.

> *"Felly doedd fy ngoruchwyliwr ddim ar gael i mi ac roedd yn disgwyl i mi fwrw ymlaen â'r gwaith. Rwy'n teimlo fel bod arnaf angen rhywun i ddal fy llaw ychydig bach mwy ond bellach mae gen i ddau [oruchwyliwr] cefnogol iawn a mwy addas... maen nhw'n nes at fy oedran i. Ac mae'n gydweddiad gwell o lawer. Ond roedd hi'n broses anodd a phoenus iawn. Roeddwn i'n teimlo fy mod i wedi gwastraffu fy amser a'm harian yn dod."* Myfyriwr PGR

**Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan y goruchwyliwr**. Fel a drafodwyd hefyd yn Adran 2.3.2, siaradodd nifer fach o fyfyrwyr am brofiadau rhwystredig lle nad oedd goruchwylwyr yn gwybod am eu datgeliadau mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig neu lle'r oeddent yn anwybyddu'r datgeliadau hynny. Siaradodd myfyrwyr PGR am orfod 'addysgu' staff academaidd am eu hanghenion, hyd yn oed os oeddent wedi datgelu'r rhain ymlaen llaw wrth y sefydliad. Siaradodd tri myfyriwr PGR am faterion a oedd yn heriol yn bersonol mewn perthynas â'u rhyw/hil/anabledd ond nododd y rhain na wnaethant godi cwynion gyda'u sefydliadau. Dywedwyd fod hyn am amryw resymau, fel peidio â bod eisiau tynnu sylw oddi wrth eu hastudiaethau neu gael eu gweld yn 'creu problem'.

## 3.2 Ymdrin â chwynion

### 3.2.1 Barn gan Brifysgolion

Mewn achosion lle'r oedd y berthynas oruchwyliol wedi bod yn her neu mewn perygl o fethu, eglurodd sefydliadau eu bod yn rhoi anogaeth a chefnogaeth i ddefnyddio mecanweithiau anffurfiol yn bennaf oll fel ffordd o geisio datrys anghydfodau'n gynnar. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys bod myfyrwyr PGR yn gallu siarad yn gyfrinachol gyda'u hadolygwyr cynnydd a / neu gyfarwyddwyr ymchwil adrannol, gan ddarparu proses gyfryngu rhwng pob parti, a'r opsiwn ar gyfer newid goruchwyliwr/goruchwylwyr.

Nodwyd ymdrechion rhagweithiol i osgoi methiant yn y berthynas a chwynion: nododd un sefydliad eu bod yn cynnal digwyddiadau chwemisol i ddod â goruchwylwyr a myfyrwyr ôl-radd at ei gilydd i drafod unrhyw faterion, rhoi adborth a gwneud newidiadau a oedd wedyn yn cael eu bwydo i mewn i hyfforddiant goruchwylwyr; amlinellodd eraill sut y gwnaethant ddefnyddio ymgynghorwyr ychwanegol a gweithwyr cymorth a'u hyrwyddo i fyfyrwyr PGR, megis gan undeb y myfyrwyr, ar gyfer mynediad at gymorth ac arweiniad cyfrinachol os oedd problemau gyda goruchwylwyr yn codi.

Roedd prifysgolion yn pwysleisio bod llwybrau ffurfiol ar gael i bob myfyriwr trwy weithdrefnau cwynion sefydliadol, yr oedd myfyrwyr PGR yn cael eu gwneud yn ymwybodol

ohonynt yn eu llawlyfrau ac mewn digwyddiadau sefydlu. Fodd bynnag, nododd prifysgolion mai datrys yn anffurfiol oedd eu hoff lwybr ar gyfer datrys problemau, gan nodi bod hwn yn ddull llwyddiannus yn y rhan fwyaf o achosion a oedd yn galluogi'r myfyriwr PGR i barhau â'u hastudiaethau a lleihau tarfu pellach.

Rhoddodd rhanddeiliaid eraill farn am gynorthwyo myfyrwyr ôl-radd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion gyda goruchwylwyr hefyd. Esboniodd cynrychiolydd ar ran cyngor ymchwil mai eu ffocws hwy oedd sicrhau bod myfyrwyr PGR yn mynd trwy eu priod brosesau sefydliadol yn gyntaf i geisio datrysiad. Aethant ymlaen i amlygu y byddent yn disgwyl i sefydliadau roi gwybod iddynt pan oedd cwynion a nodi beth oedd y canlyniad terfynol. Ychwanegodd y cynrychiolydd "*Nid ydym wedi ein harfogi nac yn meddu ar yr adnoddau i fynd i mewn i fanylion pob achos felly mae'n rhaid cael cydbwysedd. Gallwn dynnu arian yn ôl [oddi wrth sefydliadau], ond y dewis olaf fyddai hynny.*".

Amlygodd rhanddeiliaid eraill o sefydliadau sy'n cynrychioli myfyrwyr bwysigrwydd strwythurau a phrosesau sefydliadol hefyd ac fe sonion nhw am ymgymryd â rôl gyfryngu lle bo angen o fewn y strwythurau hyn.

### 3.2.2 Barn myfyrwyr PGR

Yn ystod trafodaethau ynglŷn â'r anawsterau yr oedd myfyrwyr PGR wedi'u hwynebu yn eu sefydliadau, gofynnwyd i'r myfyrwyr a oedd ganddynt unrhyw brofiad o gyflwyno cwyn. Er bod ymwybyddiaeth ymhlith y myfyrwyr PGR o systemau ffurfiol sy'n bodoli i godi materion, roedd yn ymddangos y bu cyndynrwydd i wneud hynny. Eglurodd dau fyfyriwr fod canfyddiad y dylid osgoi gwneud cwynion ffurfiol am oruchwylwyr. Esboniodd un y byddai "*troi'r drol*" o bosibl yn arwain at gael "enw gwael" yn eu sector bach.

> *"Rwyf hefyd yn meddwl, yn aml iawn os oes problem y gallech fod yn ei phrofi gyda'ch goruchwyliwr, bod [rhywun] mor ofnus o fynd dros ben y goruchwyliwr neu i rywle arall oherwydd ei fod yn cael ei ysgubo o dan y carped ac rydym yn gwybod bod digon o achosion lle mae hynny'n digwydd."* Myfyriwr PGR

Er bod sawl myfyriwr PGR wedi siarad yn y grwpiau ffocws am yr heriau yr oeddent wedi'u profi yn ystod eu hastudiaethau, nid oedd yr un ohonynt wedi cymryd camau ffurfiol i gwyno wrth eu sefydliadau. Fe anfonodd ychydig o fyfyrwyr PGR e-bost dilynol at y tîm ymchwil ar ôl i'r sesiynau grŵp gael eu cynnal i roi rhagor o fanylion, ond unwaith eto ni nododd yr un ohonynt eu bod wedi cwyno'n ffurfiol wrth eu sefydliadau.

Efallai fod hyn yn dangos bod petruster ymhlith myfyrwyr PGR i gyfleu cwynion swyddogol a allai o bosibl arwain at dangofnodi anghydfodau myfyrwyr PGR mewn sefydliadau addysg uwch trwy systemau monitro cwynion sefydledig.

Mae cyndynrwydd myfyrwyr PGR yn ôl pob golwg i gyflwyno cwynion yn faes y mae angen gwneud ymchwil bellach iddo i gael gwell dealltwriaeth am faint y mater a'r rhesymau dros unrhyw gyndynrwydd. Gallai hyn gynnwys rhoi cynnig ar ddulliau heblaw trafodaeth grŵp neu

dreulio mwy o amser yn ymchwilio'n benodol i'r broses o wneud cwynion a pha un a ddylid datblygu llwybrau anffurfiol mwy hygyrch.

## 3.3 Datblygiad proffesiynol ar gyfer goruchwylwyr

### 3.3.1 Barn gan Brifysgolion

Amlygodd sefydliadau beth wmbredd o hyfforddiant a chymorth sydd ar gael i staff academaidd sy'n goruchwylio myfyrwyr PGR. Yn ogystal â bod canllawiau wedi'u nodi mewn llawlyfrau goruchwylwyr, roedd yr academyddion hyn yn cael mynediad at hyfforddiant a gweithdai a oedd yn ymdrin â gofynion academaidd ymarferol yn ogystal â gwybodaeth am gefnogi llesiant myfyrwyr PGR trwy bolisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau sefydliadol.

Soniodd rhai sefydliadau eu bod yn defnyddio Fframwaith Arfer Goruchwylio Da Cyngor y DU ar gyfer Addysg i Raddedigion (UKCGE)[14], sydd wedi'i fwriadu i osod disgwyliadau ar gyfer goruchwylwyr a chefnogi rhaglenni datblygu goruchwylwyr. Mae'r Fframwaith yn amlinellu 10 elfen allweddol o ymarfer goruchwylio, megis rheoli'r berthynas oruchwyliol, cefnogi datblygiad personol, proffesiynol a gyrfaol myfyrwyr PGR, a monitro cynnydd. Amlygodd un sefydliad yn benodol sut yr oeddent wedi ymgorffori'r fframwaith hwn wrth ddiwygio eu llawlyfrau goruchwylwyr ac wedi diweddaru gweithdrefnau yn unol â hynny.

Roedd yn ofynnol i oruchwylwyr fynychu hyfforddiant pan oeddent yn dechrau goruchwylio myfyrwyr PGR am y tro cyntaf, ac roedd rhai sefydliadau'n darparu hyfforddiant diweddaru dilynol bob ychydig o flynyddoedd. Nododd un sefydliad eu bod yn ymdrin â'r mân wahaniaethau a geir mewn perthnasoedd goruchwyliol yn yr hyfforddiant yr oeddent yn ei gynnig i academyddion.

*"Rydym yn ymdrin â phennu agenda gyffredinol, llesiant, peidio byth â gadael cyfarfod heb bennu'r dyddiad nesaf, o leiaf 6 y flwyddyn ond yn ddelfrydol yn fisol ac ati. Mae hefyd yn bwysig bod goruchwylwyr yn gosod disgwyliadau ac yn gwybod am y berthynas grym gan y bydd myfyrwyr ychydig yn nerfus yn gwthio am bethau. [Rydym yn] atgoffa goruchwylwyr na fydd myfyrwyr yn teimlo'n gyfartal pan fyddan nhw'n dechrau"'* Staff Prifysgol

Yn ogystal â hyfforddiant ffurfiol, amlygodd sefydliadau weithgarwch sydd wedi'i fwriadu i gryfhau datblygiad proffesiynol eu goruchwylwyr, gyda'r bwriad o wella a chyfoethogi'r berthynas oruchwyliol yn barhaus. Amlinellodd sawl un sut y byddent yn 'cyfeillio' goruchwylwyr mwy newydd gyda rhai profiadol wrth ddyrannu timau goruchwyliol fel ffordd o hyfforddi academyddion a rhannu gwybodaeth yn y sefydliad. Dywedodd eraill eu bod yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau er mwyn i oruchwylwyr ddod at ei gilydd, dysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu arfer da fel math o gymorth gan gymheiriaid. Soniodd un sefydliad hefyd am gynnal hyfforddiant i fyfyrwyr i'w cefnogi yn y berthynas oruchwyliol.

*"Mae gennym [gyrsiau] ynglŷn â sut i gael y gorau allan o'ch goruchwyliwr, sut i reoli'r berthynas honno eich hun mewn gwirionedd a chymryd y cyfrifoldeb am wneud hynny. Rydyn ni'n ychwanegu ein bod ni wir yn disgwyl iddyn nhw wneud rhywbeth fel contract*

[14] UKCGE | Good Supervisory Practice Framework

*dysgu fel bod y berthynas yn eglur, beth yw eu gofynion hwy ar ei chyfer, sut y dylai weithio, ac ati. Oherwydd yn aml y natur nad aneglur sy'n rhoi problemau i chi yn hwyr."* Staff Prifysgol

Amlygodd prifysgolion fod rôl goruchwyliwr wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bod datblygiad proffesiynol i gefnogi'r academyddion hyn wedi esblygu wedi hynny. Roedd gofynion mwy newydd yn cynnwys aros gyfuwch â rheolau a rheoliadau newidiol (yn rhai mewnol ac yn rhai allanol i'r sefydliad), addasu ac ymgorffori gofynion a thelerau ac amodau cyllidwyr, a mwy o ymwneud gan, a chyswllt â, Chanolfannau Hyfforddiant Doethurol (CDTs) a Phartneriaethau Hyfforddiant Doethurol (DTPs). Nododd rhai y gallai hyn fod yn gryn her ar adegau o ran llwyth gwaith ond ei fod yn elfen hanfodol o gefnogi staff academaidd sy'n goruchwylio myfyrwyr PGR.

### 3.3.2 Barn myfyrwyr PGR

Roedd myfyrwyr PGR yn cydnabod bod goruchwylwyr yn arbenigwyr yn y maes ac yn teimlo bod eu goruchwylwyr yn rhoi gwybodaeth a chymorth pwnc benodol o ansawdd da iddynt. O ran datblygiad proffesiynol i oruchwylwyr, roedd adborth myfyrwyr ar yr elfen benodol hon yn canolbwyntio ar fod eisiau i oruchwylwyr gael eu hyfforddi'n well mewn meysydd anacademaidd fel Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a chymorth bugeiliol, fel a ddangosir yn Adrannau 2.3.2 a 3.1.2.

## 3.4 Crynodeb o ganfyddiadau'r adran

- Roedd y berthynas oruchwyliol rhwng staff academaidd a myfyrwyr yn elfen hanfodol o brofiad myfyrwyr PGR. Amlygodd pob prifysgol ystod o bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau sefydliadol a oedd yn darparu'r fframwaith ar gyfer trefniadau goruchwylio.

- Roedd cyfansoddiad timau goruchwyliol yn amrywio ar draws ac o fewn prifysgolion, gyda chymysgedd o oruchwylwyr mewnol, rhyngddisgyblaethol neu allanol, gan gydnabod bod angen cymysgedd o gymorth academaidd a bugeiliol ar y rôl.

- Amlygodd prifysgolion fod rôl goruchwyliwr wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bod datblygiad proffesiynol i gefnogi'r academyddion hyn wedi esblygu wedi hynny.

- Dau oruchwyliwr fel rheol oedd y norm ar draws prifysgolion. Rhoddwyd enghreifftiau o oruchwylwyr iau ac uwch oruchwylwyr yn y tîm, gyda'r cyntaf yn gweithredu fel y pwynt cyswllt mwy mynych ar gyfer myfyrwyr PGR tra bod yr ail yn ymgysylltu ar adegau allweddol yr ymchwil.

- Roedd y ffactorau llwyddiant allweddol a nodwyd gan fyfyrwyr PGR i ddarparu perthynas oruchwyliol gadarnhaol yn cynnwys cyfarfodydd mynych a rheolaidd, bod wedi'u lleoli mewn labordy, canolfan ymchwil neu swyddfa yn agos at oruchwylwyr a bod â mwy na dau oruchwyliwr, pob un â gwahanol rolau a sgiliau sy'n wahanol ond yn ategu ei gilydd.

- Roedd gwahaniaethau yn y ffyrdd yr oedd timau goruchwylio’n cael eu rhoi at ei gilydd. Soniodd rhai myfyrwyr PGR am allu dewis eu goruchwylwyr, neu ddylanwadu ar y broses, ond roedd goruchwylwyr yn cael eu dyrannu i eraill gan eu hadrannau ac nid oedd ganddynt lais o ran pwy oedd yn cael eu neilltuo iddynt.

- Roedd y meysydd allweddol ar gyfer gwella a nodwyd gan fyfyrwyr PGR yn cynnwys goruchwylwyr yn peidio â bod ar gael, goruchwylwyr yn cael eu neilltuo iddynt nad oeddent yn arbenigwyr ym maes ymchwil y myfyriwr PGR, bod â rhy ychydig neu ormod o oruchwylwyr a gwybodaeth gyfyngedig gan oruchwylwyr am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

- Roedd gweithdrefnau anffurfiol a ffurfiol yn cael eu rhoi ar waith i ddatrys anghydfodau gan sefydliadau a grwpiau sy'n cynrychioli myfyrwyr. Serch hynny, nodwyd cyndynrwydd i wneud cwynion ffurfiol gan leiafrif o fyfyrwyr PGR ac mae angen ymchwil bellach yn y maes hwn.

# 4. Cymorth academaidd

Mae'r adran hon yn archwilio agweddau allweddol ar y cymorth academaidd sydd ar gael i fyfyrwyr PGR, y tu allan i'r cymorth academaidd a geir gan oruchwylwyr. Mae'n cynnwys cyfleoedd hyfforddi a datblygu, cefnogaeth i ymchwilwyr ôl-radd sy'n addysgu, a gwasanaethau allweddol a ddarperir gan sefydliadau fel cymorth llyfrgell a gwybodaeth.

## 4.1 Cyfleoedd hyfforddi a datblygu

### 4.1.1 Barn gan brifysgolion

Nododd sefydliadau eu bod yn cynnig ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu gwahanol i'w myfyrwyr PGR i wella profiad myfyrwyr a pharatoi myfyrwyr ar gyfer gwaith ar ôl astudio. Roedd pynciau hyfforddiant yn amrywio rhwng pynciau seiliedig ar ymchwil megis paratoi ar gyfer yr arholiad llafar, moeseg a dulliau ymchwil ar y naill law a meysydd mwy generig a throsglwyddadwy ar y llaw arall, gan gynnwys rheoli amser ac ysgrifennu'n effeithiol. Roedd rhai cyrsiau hefyd wedi'u bwriadu i baratoi myfyrwyr PGR ar gyfer llwybrau gyrfa anacademaidd fel arwain, cyhoeddi ac entrepreneuriaeth.

Nododd sawl sefydliad eu bod yn dilyn Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr (RDF) Vitae[15] ac yn defnyddio hwn fel offeryn wrth ddylunio eu harlwy hyfforddi a datblygu ar gyfer myfyrwyr PGR. Mewn rhai sefydliadau dywedwyd fod y RDF wedi'i integreiddio'n llawn, gyda modiwlau a chyrsiau yn cael eu marchnata'n benodol fel rhai sy'n bodloni gwahanol elfennau o'r Fframwaith. Er enghraifft, soniodd un sefydliad am ddefnyddio'r RDF i gefnogi eu darpariaeth fewnol.

*"Rydym yn cynnal arolwg dychwelyd blynyddol, gan ofyn i [fyfyrwyr PGR] a oes unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiadau penodol yr hoffent eu gweld yn y Rhaglen RDF. Rydym yn rhan o adran Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi ehangach, gyda chalendr o ddigwyddiadau ar gyfer yr holl ymchwilwyr, staff a myfyrwyr, ac mae gennym gyrsiau sy'n benodol ar gyfer myfyrwyr PGR."* Staff Prifysgol

Roedd yn ymddangos bod sefydliadau eraill yn defnyddio'r RDF yn fwy llac, weithiau fel offeryn arweiniol ac nad oeddent bob amser yn croesgyfeirio'n benodol at y Fframwaith. Yn ogystal â'r RDF, amlygodd rhai sefydliadau eu bod yn hyrwyddo hyfforddiant cyllidwyr allanol i fyfyrwyr PGR, lle bo hynny'n briodol, a bod hyn yn ategu'r hyn a gynigir yn fewnol. Roedd sefydliadau â swyddfeydd graddedigion ac ysgolion doethurol yn cynnig cyrsiau a chyfleoedd ychwanegol at yr hyn y byddai myfyrwyr PGR yn cael mynediad ato fel arall trwy adrannau. Mewn rhai achosion, roedd gan yr adrannau hyn gysylltiadau â phrifysgolion eraill a oedd yn galluogi eu myfyrwyr i gael mynediad at hyfforddiant allanol am ddim, er enghraifft dywedodd dwy adran fod ganddynt gysylltiadau â phrifysgol yn Lloegr.

Siaradodd cynrychiolwyr o'r adrannau hyn hefyd am fod yn ymwybodol o'r angen i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a datblygu a fyddai'n cefnogi myfyrwyr PGR i amrywiaeth o lwybrau gyrfa yn y dyfodol. Fe wnaethant nodi eu bod bellach yn mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o roi cymorth i fyfyrwyr PGR gamu ymlaen i yrfaoedd y tu hwnt i'r byd

[15] Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae — Gwefan Vitae

academaidd, gan amlygu’r ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy y mae myfyrwyr PGR yn eu datblygu a heriau cyfredol sicrhau cyfleoedd gwaith yn y sector academaidd.

Y farn oedd bod hyn yn cyd-fynd â pholisïau cynghorau ymchwil, gydag un o'u cynrychiolwyr yn dweud mai eu nod oedd i’r sector fod â "*mwy o gysondeb mewn perthynas ag elfennau craidd fel hyfforddiant cyflogadwyedd"* i roi cymorth i fyfyrwyr PGR gamu ymlaen i ystod o yrfaoedd.

Amlygodd y rhan fwyaf o brifysgolion fod niferoedd da’n mynychu eu rhaglenni hyfforddi ac, mewn rhai achosion, bod mwy o alw nag oedd o leoedd ar gael. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau o ran faint o hyfforddiant gorfodol yr oedd prifysgolion yn disgwyl i’w myfyrwyr PGR ei gwblhau, os o gwbl, sy'n dangos ymagwedd wahanol ar draws SAUau Cymru. Roedd rhai sefydliadau'n cynnig ystod o gyrsiau a oedd i gyd yn ddewisol, roedd gan eraill destunau craidd yr oedd angen i bob myfyriwr PGR eu cwblhau, ac roedd eraill yn dweud eu bod yn cynnig cymysgedd o gyrsiau gorfodol a dewisol: mewn un enghraifft, amlinellodd prifysgol fod ganddi sesiynau hyfforddi craidd i fyfyrwyr PGR eu cwblhau o fewn blwyddyn gyntaf eu hastudiaethau, megis effaith ymchwil ac ysgrifennu adolygiadau o lenyddiaeth a methodolegau, a’i bod yn cynnig cyrsiau ychwanegol, dewisol y gallai myfyrwyr PGR ddewis ohonynt yn unol â'u diddordebau a'u hanghenion hyfforddi.

Amlygodd pob sefydliad fod hyfforddiant yn rhan annatod o fonitro cynnydd myfyrwyr PGR, gyda llawer yn nodi bod adrannau penodol sy’n ymwneud ag anghenion hyfforddiant myfyrwyr PGR yn eu gwaith papur monitro. Dywedwyd fod myfyrwyr PGR a goruchwylwyr yn adnabod ac yn cytuno ar anghenion hyfforddi gyda'i gilydd, gyda myfyrwyr PGR yn gyfrifol fel rheol am roi sylw dilynol i’w cynnydd eu hunain trwy ddod o hyd i gyrsiau perthnasol. Dywedodd ambell i sefydliad fod myfyrwyr wedi rhoi adborth eu bod yn teimlo y gallai elfen hyfforddi adolygiadau o gynnydd gael ei chryfhau a'i monitro'n fwy manwl gan oruchwylwyr; dynododd y sefydliadau hyn eu bod yn ceisio gwneud yr agwedd hon ar fonitro cynnydd yn fwy ystyrlon yn ymarferol.

Roedd pob prifysgol yn hysbysebu eu cyrsiau trwy negeseuon e-bost neu byrth canolog fel y frewnrwyd i fyfyrwyr ac roeddent wedi datblygu calendr treigl o ddigwyddiadau hyfforddi yr oedd myfyrwyr yn gallu archebu lle arnynt yn uniongyrchol. Roedd cyrsiau’n cael eu darparu trwy gymysgedd o sesiynau wyneb-yn-wyneb neu ar-lein, ac weithiau’n cael eu recordio ymlaen llaw i fyfyrwyr eu gwylio yn eu hamser eu hunain neu’n cael eu recordio'n fyw ac ar gael wedi hynny. Amlygodd prifysgolion fod penderfynu ar y dull cyflwyno’n gryn her, gyda llawer o fyfyrwyr yn ffafrio rhyw ddull darparu neu'i gilydd ac felly bod rhai wedi addasu trwy redeg cyrsiau mewn gwahanol ffyrdd ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

### 4.1.2 Barn myfyrwyr PGR

Dywedodd myfyrwyr mewn grwpiau ffocws eu bod yn cael cyfleoedd hyfforddi a datblygu amrywiol o ansawdd da gan eu sefydliadau. Ar y cyfan, roedd myfyrwyr PGR yn fodlon ar yr ystod o gyrsiau hyfforddi y gallent eu mynychu ac roeddent yn teimlo y byddai'r rhain o fudd uniongyrchol i'w hastudiaethau a'u gyrfaoedd ar ôl y brifysgol. Fe wnaethant amlinellu bod ganddynt fynediad at fodiwlau a gweithdai a oedd yn gwella eu profiad academaidd gan gynnwys dulliau ymchwil a phecynnau meddalwedd, yn ogystal ag agweddau mwy cyfannol ar brofiad myfyrwyr PGR megis llesiant ac ymwybyddiaeth ofalgar, rheoli amser a goresgyn

oedi. Fe ddwedon nhw eu bod yn cael eu gwneud yn ymwybodol o hyfforddiant trwy ysgolion doethurol/swyddfeydd graddedigion, mewnrwydi prifysgolion a negeseuon e-bost mewnol.

Pan oedd anghysonderau'n codi mewn profiadau, roedd yn ymddangos bod hyn yn gysylltiedig â'r cwestiwn pa un a oedd myfyrwyr PGR yn cael eu cyllido ai peidio. Dywedodd myfyrwyr a oedd yn cael eu cyllido fod ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu ychwanegol trwy eu cyllidwyr a'u Canolfannau Hyfforddiant Doethurol (CDTs) a Phartneriaethau Hyfforddiant Doethurol (DTPs), gan gynnwys gallu gwneud cais am interniaethau â thâl mewn sefydliadau allanol. Roedd rhai myfyrwyr PGR wedi ceisio cyllid ychwanegol gan eu sefydliadau i wneud cais am hyfforddiant allanol (mewn achosion lle nad oedd y sefydliadau'n darparu cyrsiau ar bynciau penodol), ac roedd gan eraill fynediad at grantiau gan eu cyllidwyr y gallent eu defnyddio i fynychu hyfforddiant, gweithdai a chynadleddau yr ystyrid eu bod yn ddefnyddiol i gwblhau eu hastudiaethau. Fodd bynnag, er gwaethaf adroddiadau bod arian ychwanegol ar gael ar gyfer cyrsiau, nododd rhai myfyrwyr PGR a oedd yn hunangyllido anawsterau wrth gael caniatâd i fynychu hyfforddiant yr oeddent wedi ei adnabod fel hyfforddiant a oedd yn ganolog i'w hymchwil.

*"Dylai goruchwylwyr gyflawni mwy o rôl i annog myfyrwyr i fynychu cyrsiau hyfforddi. Roedd rhaid i mi ofyn am gyllideb i fynd ar gwrs a dysgu sut i ddefnyddio peiriannau a ddefnyddir ar gyfer y ddoethuriaeth ond bu'n rhaid i mi bwysleisio drosodd a throsodd wrth oruchwylwyr pa mor bwysig yw'r hyfforddiant. Nid yw'n ymddangos bod parodrwydd i'n hanfon [ni] ar gyrsiau."* Myfyriwr PGR

Hefyd, mynegodd lleiafrif o fyfyrwyr PGR anfodlonrwydd ar fynychder hyfforddiant a'r dull o'i gyflwyno ar adegau: roedd yn well gan rai gyrsiau yn y cnawd lle gallent gwrdd a rhwydweithio â myfyrwyr PGR, tra bo ar eraill eisiau hyblygrwydd cyrsiau ar-lein a fyddai'n cyd-fynd ag ymrwymiadau eraill. Roedd hyn yn arbennig o wir am y rhai a oedd yn ddysgwyr o bell neu'n fyfyrwyr rhan-amser.

Er bod yr hyfforddiant a gynigir fel arfer yn amrywiol ac yn gynhwysfawr, nid oedd myfyrwyr PGR bob amser yn gwybod sut i flaenoriaethu pa gyrsiau i'w mynychu. Er bod adolygiadau monitro cynnydd yn cynnwys dadansoddiad o anghenion hyfforddi, amlygodd myfyrwyr PGR eu bod weithiau'n teimlo eu bod wedi'u llethu gan yr ystod o gyrsiau a gynigir a bod arnynt eisiau mwy o arweiniad ynghylch pa sesiynau y dylent ganolbwyntio arnynt. Fodd bynnag, soniodd rhai myfyrwyr, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn gweithio tuag at lwybr gyrfa a nodwyd megis aros yn y byd academaidd, am fynychu cyrsiau yr oeddent yn gwybod y byddent yn cyfrannu at eu datblygiad ac yn eu helpu ar eu llwybr gyrfa.

Dim ond ychydig o fyfyrwyr PGR a grybwyllodd RDF Vitae, ac roedd y rhan fwyaf i'w gweld fel pe baent yn mynychu hyfforddiant ar sail ad-hoc yn hytrach nag o ganlyniad i wneud penderfyniadau strategol. Nodwyd hefyd nad oedd ar bob myfyriwr PGR eisiau neu angen cyfleoedd hyfforddi a datblygu cyflogadwyedd: mewn lleiafrif o achosion, siaradodd myfyrwyr PGR am ymgymryd ag astudiaeth ôl-radd er mwyn boddhad personol ac felly nad oeddent yn bwriadu defnyddio eu cymhwyster PGR ar gyfer datblygiad gyrfa.

### 4.1.3 Barn rhanddeiliaid ehangach

Darparodd rhanddeiliaid ehangach rai sylwadau ychwanegol ynghylch cyfleoedd hyfforddi i fyfyrwyr PGR. Roedd cefnogaeth gref i rôl hyfforddiant o ran gwella profiad myfyrwyr PGR, gwella datblygiad personol ac academaidd a rhoi gymorth i gamu ymlaen i gyflogaeth. Roedd ar undebau myfyrwyr eisiau sicrwydd bod yr hyfforddiant a gynigir yn effeithiol o ran ateb y gwahanol ddibenion hyn, ac i fyfyrwyr ôl-radd gael eu gwneud yn ymwybodol bod hyfforddiant yn darparu cyfleoedd rhwydweithio yn ogystal â datblygiad proffesiynol. Ar gyfer y cyrff hyn sy'n cynrychioli myfyrwyr PGR, roedd cyswllt â chyfarwyddwyr academaidd ynglŷn â hyfforddiant felly'n elfen bwysig o'u gwaith, ac felly hefyd cyfathrebu â myfyrwyr i adnabod eu hanghenion penodol.

Amlygodd cynrychiolwyr o sefydliadau cyllido bwysigrwydd symudedd yn y byd academaidd a phwysigrwydd sgiliau rhyngddisgyblaethol. Roedd bwlch allweddol a nodwyd yn ymwneud â chymorth a chyngor gyrfaoedd wedi'u teilwra, yr ystyrid eu bod wedi datblygu'n dda ar gyfer israddedigion o'i gymharu â myfyrwyr PGR. Fe wnaeth cyllidwyr a chyrff cynrychioliadol amlygu'r bwlch hwn gydag un cyllidwr yn nodi, *"rydym yn ceisio cynorthwyo sefydliadau i ddatblygu hyn, ond mae llawer mwy i'w wneud."*

Roedd hyn yn cyd-fynd â safbwyntiau sefydliadau a myfyrwyr, gyda chyfleoedd hyfforddi wedi'u dylunio'n dda ar y cyfan ac yn berthnasol i anghenion academaidd ond heb ffocws ar gyflogadwyedd a chymorth i gamu ymlaen mewn llwybrau gyrfa y tu hwnt i'r byd academaidd. Dywedodd un rhanddeiliad fod eu sefydliad yn cefnogi myfyrwyr ôl-radd gyda'r broses bontio wrth gwblhau eu doethuriaeth a symud ymlaen i'w camau gyrfa nesaf.

> *"Sut ydyn ni'n cael disgwyliadau realistig i fyfyrwyr ar eu deilliannau? Mae arnom eisiau iddynt gael amrywiaeth o ddarpariaeth yn ystod eu hastudiaethau doethurol i'w helpu yn eu gyrfa wedi hynny."* Rhanddeiliad

## 4.2 Myfyrwyr PGR sy'n addysgu

Fe wnaeth adroddiad CCAUC, 'Adolygiad o Bolisi ac Arfer o ran Cefnogi Myfyrwyr Ôl-radd sy'n Addysgu', ddarparu nifer o argymhellion polisi ac arfer ar gyfer SAUau i wella'r profiad ar gyfer myfyrwyr PGR a gyflogir i addysgu, fel a amlinellir yn Adran 1.2.1. Ar wahân i'r adroddiad hwn, soniodd prifysgolion am ffactorau dylanwadol ychwanegol a oedd wedi achosi iddynt wneud newidiadau i'w polisïau a'u gweithdrefnau, gan gynnwys adolygiadau mewnol a negodiadau gydag undebau llafur. Dylid nodi, fodd bynnag, bod y profiadau a nodwyd gan fyfyrwyr PGR, yn Adran 4.2.2 isod, yn dangos diffyg cysondeb a dull gweithredu sector cyfan o ran recriwtio, hyfforddiant, tâl a chymorth i fyfyrwyr ôl-radd sy'n addysgu.

### 4.2.1 Barn gan brifysgolion a rhanddeiliaid ehangach

Roedd pob sefydliad yn cyflogi myfyrwyr PGR mewn rolau addysgu â thâl, i raddau llai neu fwy helaeth gan dibynnu ar argaeledd cyfleoedd. Yn bennaf, roedd hyn ar ffurf rolau achlysurol â thâl fesul awr y cyfeirir atynt yn gyfnewidiol fel 'Tiwtoriaid Graddedig', 'Tiwtoriaid' neu 'Diwtoriaid sy'n Cael Tâl Fesul Awr'. Hefyd, roedd rhai sefydliadau'n cynnig rolau Cynorthwyydd Addysgu Graddedig (GTA), yn eu treialu, neu'n ystyried cyflwyno'r swyddi hyn yn y dyfodol. Roedd cynrychiolwyr sefydliadol yn cydnabod, er bod myfyrwyr PGR yn cael eu

hystyried yn ffurfiol yn fyfyrwyr ac nid yn aelodau staff, fod y rhai sy'n addysgu'n cael eu hunain mewn man aneglur: yn cael eu hystyried yn aelodau o staff gan y rhai y maent yn eu haddysgu, gan weithio ar y cyd â staff academaidd, ac yn cael tâl gan y sefydliad ond eto'n dal i fod yn fyfyrwyr eu hunain.

Roedd rhai cynrychiolwyr sefydliadol yn llafar wrth dynnu sylw at yr ystod o arbenigedd a phrofiad sydd gan eu myfyrwyr PGR, ac fe siaradon nhw am fod eisiau harneisio hyn er budd myfyrwyr israddedig.

*"Does dim byd tebyg i fod ag ymchwilydd o'ch blaen chi i wir annog myfyrwyr israddedig. Ac mae gan ein myfyrwyr [PGR] arbenigedd proffesiynol yr hoffen nhw ei rannu – mae arnynt eisiau bod o flaen y dosbarth hwnnw."* Staff Prifysgol

Roedd yr un sefydliad hwn yn ystyried sut orau i gynnwys myfyrwyr Doethuriaeth Broffesiynol fel eu bod yn addysgu ar fodiwlau, yr oedd llawer ohonynt yn rhan-amser ac yn dal i gael eu cyflogi yn eu meysydd.

*"Mae gennym ni bobl yn gwneud doethuriaethau sydd ddim o flaen myfyrwyr, ond mae ganddyn nhw beth wmbredd o broffesiynoldeb... Mae arnom wir eisiau symud hynny ymlaen. Mae gennym ni bobl anhygoel ar ein rhaglenni y mae arnynt eisiau rhannu eu harbenigedd, oherwydd yn aml dyna'r holl reswm maen nhw'n gwneud Doethuriaeth Broffesiynol - i roi yn ôl i'w proffesiwn."* Staff Prifysgol

Roedd sefydliadau'n recriwtio tiwtoriaid mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys trwy wefannau undebau a 'Siopau Swyddi', ar eu mewnrwyd, fel rhan o fentrau gan brifysgolion fel cynlluniau lleoli, ac ar lefel adrannol trwy ysgolion academaidd.

Soniodd rhai sefydliadau am yr angen am fwy o dryloywder o ran arferion recriwtio i addysgu ac roeddent wedi cymryd camau i gydlynu dulliau mewnol. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno canllawiau Adnoddau Dynol canolog ar recriwtio tiwtoriaid graddedig i ysgolion academaidd, a hyrwyddo aelodaeth o undebau llafur a pholisïau Adnoddau Dynol i fyfyrwyr PGR. Teimlid fod hyn o gymorth i sicrhau bod gweithdrefnau lleol ar gyfer recriwtio myfyrwyr PGR yn cyd-fynd ag arfer prifysgolion ac y byddai hefyd yn arwain at fwy o gysondeb rhwng y gwahanol adrannau ac ysgolion o fewn sefydliadau.

Serch hynny, tynnodd rhai cynrychiolwyr prifysgolion sylw at anawsterau gyda chynnig cyfleoedd tiwtora mewn ffordd deg i'w myfyrwyr PGR oherwydd cyfyngiadau cyllidwyr: amlygodd un sut yr oedd rhai myfyrwyr PGR a oedd yn cael ariantal wedi'u cyfyngu i chwe awr yr wythnos o gyflogaeth am dâl gan delerau ac amodau eu cyllidwr, tra bo myfyrwyr PGR eraill a oedd yn hunangyllido'n cael gweithio mwy o oriau. Yn yr un modd, roedd cyfyngiadau wrth gyflogi myfyrwyr rhyngwladol i addysgu gan bod y myfyrwyr PGR hyn yn aml yn ddarostyngedig i reolau mewnfudo a oedd yn cyfyngu ar eu horiau gwaith.

Fel rheol, roedd myfyrwyr PGR yn cael contractau addysgu achlysurol am yr oriau yr oeddent yn eu darparu, gan gynnwys amser paratoi. Felly, roeddent heb yr ystod lawn o fuddion a mesurau diogelu yr oedd cyflogeion parhaol a chyfnod penodol yn elwa ohonynt. Dywedodd rhai sefydliadau fod trafodaethau mewnol yn cael eu cynnal ynghylch llofnodi Siarter Cyflogaeth Myfyrwyr Ôl-radd yr Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) ac Undeb

Cenedlaethol y Myfyrwyr[16] sy’n amcanu at godi proffil hawliau cyflogaeth a datblygiad proffesiynol myfyrwyr ôl-radd mewn addysg uwch. Er enghraifft, roedd un sefydliad wedi cymeradwyo newidiadau i dâl ac amodau yn ddiweddar, a fyddai wedyn yn rhoi mwy o chwarae teg i diwtoriaid PGR o’i gymharu ag aelodau o staff ac a fyddai'n rhoi mynediad iddynt at hyfforddiant staff.

Roedd sefydliadau wedi datblygu codau ymarfer ar gyfer myfyrwyr ôl-radd sy'n addysgu i sicrhau eu bod yn cael eu cynorthwyo i ddarparu sesiynau'n effeithiol. Roedd prifysgolion yn darparu hyfforddiant ar addysgu, gan ymdrin yn aml ag agweddau megis marcio a darparu adborth ar asesiadau a oedd yn cael ei gyflwyno naill ai ar lefel ysgol neu drwy adrannau wedi’u canolig. Amlygodd llawer nad oeddent yn caniatáu i fyfyrwyr PGR ymgymryd â rolau addysgu nes eu bod wedi gwneud rhai cyrsiau hyfforddi gorfodol.

Soniwyd hefyd am gyfleoedd hyfforddi eraill fel cyrsiau iechyd a diogelwch. Yn ogystal â hyfforddiant, roedd prifysgolion ag argaeledd addysgu cyfyngedig iawn yn darparu ystod o gyfleoedd datblygu i fyfyrwyr PGR i'w huwchsgilio a darparu cydraddoldeb. Roedd y mentrau hyn yn cynnwys cysgodi darlithwyr a hyrwyddo cynlluniau allanol fel The Brilliant Club[17] sy'n galluogi myfyrwyr PhD i ddatblygu eu deunyddiau addysgu eu hunain i'w cyflwyno mewn ysgolion.

Siaradodd sawl sefydliad am hyrwyddo'r cynllun Cymrodoriaeth Gyswllt (AFHEA)[18] i’w myfyrwyr ôl-raddedig sy'n addysgu, a ddyfernir ar dystiolaeth o ymarfer proffesiynol personol sy'n cyrraedd safonau addysgu a chymorth dysgu ar gyfer y sector addysg uwch. Cyfeiriwyd at hwn fel cwrs poblogaidd gyda lefelau da iawn yn manteisio arno, ac un a fyddai'n cefnogi datblygiad gyrfa myfyrwyr PGR sy'n bwriadu aros yn y byd academaidd.

Fel a nodwyd uchod, dywedodd rhai sefydliadau fod ganddynt rolau Cynorthwywyr Addysgu Graddedig, gyda gofyniad i fyfyrwyr addysgu fel rhan o'u trefniant cyllido. Dywedodd un sefydliad y bu ganddynt rôl weithredol o ran sicrhau cydbwysedd rhwng ymrwymiadau'r GTA i addysgu ac i gwblhau eu hymchwil eu hunain. Roedd sefydliad arall wedi estyn yr amser safonol a ganiateir i gwblhau PhD i bedair blynedd os oedd yn ofynnol i Gynorthwywyr Addysgu Graddedig dreulio 25% o'u hamser yn addysgu. Roedd yr enghreifftiau hyn yn dangos ei bod fel pe bai dealltwriaeth y gallai fod angen mesurau arwahanol ar Gynorthwywyr Addysgu Graddedig i sicrhau eu bod yn cael profiad ôl-radd cadarnhaol a llwyddiannus.

Amlinellodd cynrychiolwyr o gyrff myfyrwyr bryderon bod myfyrwyr PGR yn cael eu defnyddio gan SAUau i 'lenwi bylchau yn y system', o ystyried galwadau ar amser staff y sefydliadau eu hunain. Amlygodd y cynrychiolwyr hyn bryderon hefyd ynghylch diffyg strwythurau tâl a chontractau cyson ar draws gwahanol ysgolion, yr ystyriwyd ei fod yn rhan o'r diffyg cymorth a strwythur cydlynol ehangach ar gyfer cyrsiau ôl-radd. Nodwyd hefyd y gallai myfyrwyr PGR rhan-amser fod heb yr amser na'r capasiti i addysgu yn ogystal ag astudio a bod y myfyrwyr hyn mewn perygl o beidio â chael cyfleoedd, yn broffesiynol ac o ran sgiliau, i ddatblygu'r agwedd hon ar eu profiad fel myfyrwyr PGR.

[16] UCU - Postgraduate employment
[17] The Brilliant Club
[18] Associate Fellowship | Advance HE (advance-he.ac.uk)

### 4.2.2 Barn myfyrwyr PGR

Roedd nifer o'r myfyrwyr PGR mewn grwpiau ffocws wedi ymgymryd ag addysgu neu arddangos yn eu hysgolion neu eu hadrannau. Roedd rhai myfyrwyr PGR yn gweithio fel arddangoswyr neu diwtoriaid sy’n cael tâl fesul awr, tra bo lleiafrif wedi nodi eu bod ar gontractau Cynorthwywyr Addysgu Graddedig ac felly ei bod yn ofynnol iddynt addysgu.

Soniodd y myfyrwyr PGR a oedd yn addysgu am brofiadau cymysg o recriwtio, cymorth, hyfforddiant a thâl, er bod y rhan fwyaf yn dweud bod y profiad yn un cadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un ohonynt fod yr addysgu’n rhoi gwobr ariannol iddynt, a oedd yn cael ei groesawu, yn ogystal â phrofiad amhrisiadwy yn enwedig i'r rhai a oedd yn bwriadu dilyn gyrfa yn y byd academaidd.

*"Mae arnaf eisiau mynd i mewn i'r byd academaidd felly gall cymryd rhan mewn rhaglenni addysgu a mentora fod yn werthfawr. Maent yn ymdrin â thechnegau addysgu effeithiol, rheoli ystafell ddosbarth, a sut i fentora myfyrwyr israddedig."* Myfyriwr PGR

Soniodd myfyrwyr PGR am wahanol ffyrdd y cawsant eu recriwtio i addysgu: weithiau roedd darlithwyr yn cysylltu â hwy’n uniongyrchol i ofyn iddynt weithio ar fodiwlau penodol heb fod angen llenwi ffurflen gais neu fynd am gyfweliad, a gwelodd myfyrwyr PGR eraill rolau’n cael eu hysbysebu ar byrth mewnol a hwythau wedi ymgeisio trwy broses recriwtio. Canfuwyd gwahaniaethau tebyg yn swm a dyfnder yr hyfforddiant a ddarparwyd i'r myfyrwyr PGR hyn, gyda rhai’n amlygu eu bod wedi gorfod cwblhau modiwlau/gweithdai craidd cyn iddynt gael dechrau addysgu.

*"Yr unig ffordd y gallwch chi addysgu yn yr adran yw os ydych chi'n mynychu'r gweithdai hyfforddi gorfodol y maen nhw'n eu cynnal. Cefais i dri gweithdy ac roedden nhw wedi’u sgaffaldio’n fawr, felly roedd hynny’n braf iawn. Rwy'n cael tâl yn brydlon. Rwy'n cael llawer o gymorth. Rwyf hyd yn oed yn cael adborth ac fe wnes fy AFHEA oherwydd y cyfan, a oedd yn wych. Mae'r cymorth rwy’n ei gael yn dda, rydw i wedi cael profiad addysgu hyfryd iawn."* Myfyriwr PGR

O'r myfyrwyr PGR a oedd yn addysgu, ychydig a grybwyllodd eu bod wedi ymgymryd â chymrodoriaeth yr AFHEA ac nid oedd rhai wedi clywed amdani. Dywedodd myfyrwyr PGR eraill ychydig iawn o hyfforddiant a gawsant ond bod ganddynt fynediad at staff academaidd i gyfeirio atynt pe bai angen. Hefyd, roedd rhai Cynorthwywyr Addysgu Graddedig a myfyrwyr PGT sy'n addysgu wedi cael budd o gymorth sefydliadol ychwanegol, fel cynlluniau mentora, a oedd wedi bod yn ffynhonnell werthfawr o gymorth ac arweiniad yn eu teithiau addysgu medden nhw. Fodd bynnag, nodwyd anghysondeb unwaith eto, gan yr ymddengys nad oedd y cynlluniau hyn bob amser ar gael i bob myfyriwr PGR sy'n addysgu yn yr un sefydliad ac roedd diffyg eglurder mewn rhai grwpiau ffocws ynghylch tâl a pha fathau o waith y gellid hawlio amdanynt.

Roedd mwyafrif y myfyrwyr PGR mewn grwpiau ffocws nad oeddent wedi addysgu yn awyddus i wneud hynny, ac o'r rhain roedd llawer yn teimlo nad oedd digon o gyfleoedd ar gael i ateb y galw. Hefyd, roedd rhai yn rhwystredig bod ganddynt gefndiroedd proffesiynol

yn eu meysydd pwnc ac yn dweud bod arnynt eisiau rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd gydag israddedigion yn eu sefydliadau. Soniodd rhai myfyrwyr nad oeddent wedi addysgu am ddiffyg tryloywder canfyddedig ynghylch sut yr oedd cyfleoedd addysgu dros dro'n cael eu hysbysebu a sut yr oedd recriwtio'n digwydd ar eu cyfer. Dywedodd rhai eu bod wedi cael cynnig gwaith addysgu yn uniongyrchol gan ddarlithwyr yn eu hadran, heb wneud cais trwy fecanwaith ffurfiol ac roedd ymdeimlad mai "*pwy rydych chi'n ei adnabod"* sy'n bwysig.

> *"Mae rhywfaint o aneglurder yn y broses oherwydd mae'n ymddangos bod y broses yn agored i bawb wneud cais. Ond efallai fod rhyw fath o ffafriaeth o ran sut maen nhw'n cael eu dewis ar gyfer y swydd, ni waeth pa gymwysterau sydd ganddyn nhw."* Myfyriwr PGR

Roedd lleiafrif o fyfyrwyr yn y grwpiau ffocws yn Gynorthwywyr Addysgu Graddedig wedi'u contractio i addysgu nifer o oriau fel rhan o'u telerau ac amodau cyllido. Er ei bod yn anodd canfod nodweddion cyffredin rhwng y profiadau, o ystyried y nifer isel, nodwyd fod gan y Cynorthwywyr Addysgu Graddedig hyn ystyriaethau ychwanegol i ymgodymu â hwy, yn enwedig o ran rheoli amser a tharo cydbwysedd rhwng rolau deuol addysgu ac ymchwil. Hefyd, fe wnaethant leisio ansicrwydd ynghylch eu diogelwch yn y rôl Cynorthwyydd Addysgu Graddedig pe baent ar ei hôl hi gyda'u hastudiaethau ac yn methu â chwblhau ar amser.

Roedd un Cynorthwyydd Addysgu Graddedig wedi cael rhywfaint o hyfforddiant, yn bennaf ar ffurf adnoddau ar-lein y gofynnwyd iddynt ymgyfarwyddo â hwy, ac wedi hynny roeddent wedi canfod bod llawer mwy o amser ym mlwyddyn gyntaf eu PhD mewn gwirionedd wedi cael ei dreulio ar ofynion elfen addysgu eu rôl. Dywedon nhw ei bod yn anodd neilltuo amser i wylio'r adnoddau hyfforddi ar-lein ac ymrwymo'n ddigonol i'r rôl addysgu a hwythau hefyd yn ceisio symud ymlaen gyda'u hymchwil.

> "*Mae'r rôl Cynorthwyydd Addysgu Graddedig yn mynd â mwy o amser na'r PhD. Roedd un o'r darlithwyr yn arfer bod yn Gynorthwyydd Addysgu Graddedig a dywedodd wrthyf ei bod yn arfer gwneud y stwff Cynorthwyydd Addysgu Graddedig yn ystod y semestrau, ac yna dros yr haf byddai'n canolbwyntio mwy ar ei PhD. Mae'n rhan amser [...] y contract Cynorthwyydd Addysgu Graddedig, ond weithiau rwy'n gwneud mwy [...]."* Myfyriwr PGR

## 4.3 Gwasanaethau eraill

### 4.3.1 Barn gan brifysgolion

Nododd prifysgolion fod gwasanaethau llyfrgell helaeth ar gael i'r holl fyfyrwyr a oedd yn cynnig cymysgedd o adnoddau ar-lein a chopi caled a chatalogau ar-lein helaeth i gefnogi myfyrwyr PGR yn eu hymchwil. Dywedodd rhai cynrychiolwyr sefydliadol eu bod wedi adolygu eu systemau i sicrhau bod y rhain yn cwmpasu anghenion amrywiol myfyrwyr TAR. Amlygodd un sefydliad waith parhaus i ailddylunio eu tudalennau mewnrwyd nad oeddent wedi cynnwys unrhyw ddolenni penodol ar gyfer myfyrwyr doethurol o'r blaen. Roedd eraill wedi canolbwyntio ar ddarparu digwyddiadau a siaradwyr a oedd yn benodol ar gyfer

myfyrwyr PGR gan ddefnyddio adrannau a gwasanaethau allweddol fel undeb y myfyrwyr, gwasanaethau gyrfaoedd, cymorth TG a gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth.

Soniodd sawl prifysgol am botiau cyllido mewnol y gallai myfyrwyr PGR gyflwyno cais iddynt i gefnogi eu hastudiaethau eu hunain neu roi anogaeth i rwydweithio. Roedd y mathau o weithgareddau y gellid eu cefnogi'n cynnwys arian i gynnal cynadleddau yn y sefydliad, gwneud cais i fynd i gynadleddau (y nodwyd ei fod yn arbennig o ddefnyddiol i fyfyrwyr a oedd yn hunangyllido) a chynnal cystadlaethau a digwyddiadau codi proffil.

### 4.3.2 Barn myfyrwyr PGR

Roedd bron pob myfyriwr PGR yn y grwpiau ffocws yn canmol gwasanaethau llyfrgell eu sefydliad, o ran mynediad ac argaeledd adnoddau yn ogystal â staff y llyfrgell eu hunain. Ar y cyfan roedd myfyrwyr yn fodlon iawn ar yr ystod o arbenigedd, cymorth ac arweiniad a oedd ar gael iddynt, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn rheolaidd yn defnyddio gweithfannau yn y llyfrgell neu le arall mewn swyddfa a ddynodwyd ar gyfer myfyrwyr PGR mewn adrannau lle'r oedd hynny'n bodoli.

## 4.4 Crynodeb o ganfyddiadau'r adran

- Roedd myfyrwyr PGR yn cael ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu gwahanol i wella'u profiad a'u paratoi ar gyfer gwaith ar ôl astudio. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau o ran faint o hyfforddiant gorfodol yr oedd prifysgolion yn disgwyl i'w myfyrwyr PGR ei gwblhau.

- Ar y cyfan, roedd myfyrwyr PGR yn fodlon ar yr ystod o gyrsiau hyfforddi y gallent eu mynychu ac roeddent yn teimlo y byddai'r rhain o fudd uniongyrchol i'w hastudiaethau a'u gyrfaoedd ar ôl y brifysgol. Mynegodd lleiafrif anfodlonrwydd ar y dulliau darparu hyfforddiant ac amlder yr hyfforddiant hwnnw.

- Nododd myfyrwyr a oedd yn cael eu cyllido fod ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu ychwanegol trwy eu cyllidwyr a'u Canolfannau Hyfforddiant Doethurol (CDTs) a Phartneriaethau Hyfforddiant Doethurol (DTPs); fodd bynnag, nododd rhai myfyrwyr a oedd yn hunangyllido anawsterau wrth gael caniatâd neu gyllid ychwanegol i fynychu hyfforddiant.

- Roedd cefnogaeth gref gan randdeiliaid ehangach i rôl hyfforddiant o ran gwella profiad myfyrwyr PGR. Roedd bwlch allweddol a nodwyd yn ymwneud â chymorth gyrfaoedd wedi'i deilwra, yr ystyrid ei fod wedi cael ei ddatblygu'n well ar gyfer israddedigion o'i gymharu â myfyrwyr PGR.

- Roedd myfyrwyr PGR yn cael eu cyflogi'n bennaf trwy rolau achlysurol â thâl fesul awr y cyfeirir atynt yn gyfnewidiol fel 'Tiwtoriaid Graddedig', 'Tiwtoriaid' neu 'Diwtoriaid sy'n Cael Tâl Fesul Awr'. Yn ogystal, roedd rhai sefydliadau hefyd yn cynnig rolau Cynorthwyydd Addysgu Graddedig (GTA). Felly, roedd myfyrwyr PGR heb yr ystod lawn o fuddion a mesurau diogelu yr oedd cyflogeion parhaol a chyfnod penodol yn elwa ohonynt.

- Amlygodd prifysgolion anawsterau o ran cynnig cyfleoedd addysgu mewn modd teg i'w myfyrwyr PGR oherwydd cyfyngiadau cyllidwyr a chyfyngiadau ar fisâu wrth gyflogi myfyrwyr rhyngwladol i addysgu. Roedd rhai'n cydnabod yr angen am fwy o dryloywder mewn perthynas ag arferion recriwtio i addysgu ac roeddent wedi cymryd camau i gydlynu dulliau mewnol.

- Soniodd myfyrwyr PGR a oedd yn addysgu am brofiadau cymysg o recriwtio, cymorth, hyfforddiant a thâl, er bod y rhan fwyaf yn dweud bod y profiad yn un cadarnhaol a'u bod yn gwerthfawrogi'r manteision ariannol a'r cyfle i ennill profiad.

- Mae'r profiadau cymysg a amlygwyd gan fyfyrwyr PGR yn dangos diffyg cysondeb a dull sector cyfan o ran recriwtio, hyfforddi, tâl a chymorth i fyfyrwyr PGR sy'n addysgu. Amlinellodd cynrychiolwyr o gyrff myfyrwyr bryderon ynghylch strwythurau contractau cyson ar draws gwahanol ysgolion ac amser a chapasiti'r myfyrwyr i addysgu.

# 5. Datblygu cymuned ymchwil


Mae'r adran hon yn archwilio cynnydd prifysgolion o ran datblygu cymunedau ymchwil, amgylcheddau sydd â'r potensial i gynorthwyo myfyrwyr PGR i integreiddio'n effeithiol i fywyd academaidd. Mae'n cwmpasu'r camau gweithredu a gymerir gan brifysgolion i gefnogi'r cymunedau hyn, canfyddiadau am fyfyrwyr ym mywyd y brifysgol, a'r effaith yr oedd cymunedau ymchwil yn ei chael ar brofiad myfyrwyr PGR.

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) yn yr Alban yn darparu diffiniad eang o gymuned, sy'n ddefnyddiol ar gyfer deall cyd-destun yr adran hon.

> *Mae 'cymuned' yn awgrymu rhywbeth sy'n cael ei rannu rhwng pobl: lle, cysylltiad, profiad, hunaniaeth neu weithgareddau neu arferion penodol.*[19]

Yn 2017, rhyddhaodd QAA adroddiad ynghylch cymunedau ymchwil ar gyfer myfyrwyr PRG a nododd, er nad oedd diffiniad pendant o gymunedau ymchwil nac ymagwedd bendant atynt, fod sawl maes allweddol a oedd yn cyfrannu at ddatblygu a chynnal cymunedau ymchwil. Roedd y rhain yn cynnwys: goruchwylwyr; mannau ffisegol; datblygu hunaniaeth academaidd ar gyfer myfyrwyr PGR ac ar gyfer y rhai sy'n addysgu; cymunedau wedi'u canolig ac ar-lein; a'r defnydd o hyfforddiant wrth ddatblygu cymuned ymchwil[19].

Roedd trafodaethau gyda myfyrwyr PGR a staff prifysgolion yn canolbwyntio ar fod yn rhan o dri math gwahanol o gymunedau: (1) cymuned myfyrwyr PGR yn y SAU; (2) cymunedau adrannol o fewn y SAU; a (3) cymuned ymchwil ehangach o fewn y sefydliad a'r tu hwnt. Mewn rhai achosion, roedd gorgyffwrdd rhwng y tri maes hwn, fel a ddangosir yn Ffigur 2.




Ffigur 2: Cymunedau ymchwil ar gyfer myfyrwyr PGR

## 5.1 Barn gan brifysgolion a rhanddeiliaid ehangach

Fel rheol roedd barn cynrychiolwyr prifysgolion ynglŷn â datblygu cymunedau ymchwil yn gadarnhaol, gyda rhai'n dweud bod hyn yn rhan annatod o'u dull sefydliadol o gefnogi eu myfyrwyr ymchwil. Roedd strategaethau a gweithgareddau a oedd wedi'u bwriadu i feithrin y

[19] Building a Research Community - Examples of Policy and Practice (qaa.ac.uk)

cymunedau hyn yn cynnwys mecanweithiau ffurfiol megis datblygu cysylltiadau rhyngadrannol yn ogystal â gweithgareddau disgyblaethol gan gynnwys cefnogi grwpiau darllen ac ymchwil, cynnal gwyliau ymchwil a seremonïau gwobrwyo. Nododd y rhan fwyaf o brifysgolion hefyd eu bod yn darparu mannau pwrpasol i fyfyrwyr PGR gwrdd, astudio a chymdeithasu.

Eglurodd un brifysgol fod darpariaeth eu hysgol i raddedigion yn amcanu at greu "*ymdeimlad o garfan"* ymhlith myfyrwyr PGR i wneud iddynt deimlo'n rhan o gymuned ymchwil. Nid oedd i'w weld fel pe bai llawer o wahaniaeth rhwng sefydliadau a oedd â swyddfeydd graddedigion a'r rhai a oedd hebddynt o ran datblygu cymunedau ymchwil ar gyfer myfyrwyr PGR, er bod rhai gwahaniaethau wedi'u nodi yn Adran 5.2 isod. Roedd hyn yn debyg i'r canfyddiadau a ddangosir yn Adran 2.2; roedd sefydliadau heb swyddfeydd graddedigion yn trefnu cyfleoedd datblygu ar gyfer eu myfyrwyr PGR a oedd yn debyg i'r rhai a drefnir gan sefydliadau ag adrannau pwrpasol.

> *"'Rydym yn ceisio adeiladu mwy o gymuned [gyda] mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr PGR fod â rhwydwaith cymorth gan gymheiriaid a [rhoi] cyfleoedd i fyfyrwyr ddod at ei gilydd."* Staff Prifysgol

Dywedodd nifer o gynrychiolwyr SAUau fod effaith pandemig COVID-19 wedi dylanwadu'n rhannol ar eu hymagwedd tuag at adeiladu cymunedau ymchwil, gan amlygu awydd i ailsefydlu dewis arall yn lle diwylliant gweithio o bell ac i wella rhwydweithiau myfyrwyr yr effeithiwyd yn negyddol arnynt. Nododd un brifysgol fod y newid i weithio o bell yn golygu bod angen iddynt wneud mwy i gefnogi cymunedau PGR ar-lein ac yn y cnawd, gan gydnabod bod y ddau ddull yn werthfawr ac yn gweddu i wahanol anghenion gan fyfyrwyr PGR.

Dywedodd rhai sefydliadau llai fod ganddynt gymuned myfyrwyr PGR gref yn barod, gyda myfyrwyr PGR yn cael nifer o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ymgysylltu â chyd-fyfyrwyr yn ogystal â staff y brifysgol. Roedd undebau myfyrwyr mewn sefydliadau llai yn cyd-fynd â'r farn hon, gan ddweud bod eu priod gymunedau ymchwil yn gwneud cyfraniad pwysig at lesiant a phrofiad cadarnhaol eu myfyrwyr PGR. Fe ddwedon nhw'n fwy cyffredinol y byddai mwy o fuddsoddiad yn yr elfen hon o fywyd prifysgol o fudd mawr, pe bai adnoddau digonol yn cael eu darparu ar ei chyfer. Teimlid y byddai gwneud hynny'n grymuso myfyrwyr PGR ac yn eu gwneud yn ganolog i fywyd y brifysgol.

## 5.2 Barn myfyrwyr PGR

Cynigiodd y myfyrwyr PGR ddarlun cymysg o'u hymgysylltiad â chymunedau ymchwil yn eu sefydliadau. Roedd bod yn rhan o gymuned, a'r ymdeimlad o berthyn sy'n cyd-fynd â hyn, yn amlwg yn amlweddog. Soniodd myfyrwyr PGR am lefelau amrywiol o gysylltiad â myfyrwyr PGR eraill, yn eu hadran ac ar draws y brifysgol gyfan, â'r adran a/neu'r brifysgol ei hun, ac ag eraill o fewn eu disgyblaeth ond y tu allan i'r brifysgol. Dywedodd rhai eu bod wedi cysylltu â chyd-fyfyrwyr PGR o'r gymuned ymchwil ehangach ac amlygodd eraill eu bod yn rhan o grwpiau wedi'u trefnu o fewn eu sefydliadau a oedd yn seiliedig ar ddisgyblaethau penodol.

> *"Fy ngrŵp ymchwil yw fy ngoruchwyliwr, ymchwilydd ôl-ddoethurol, un neu ddau o fyfyrwyr PhD. Rwyf yn y gymuned honno fel ymchwilydd, rwy'n syml yn perthyn i'r*

*cylch hwnnw. Wn i ddim beth mae pobl y tu allan i'm swyddfa neu hyd yn oed yn y swyddfa arall [yn y maes pwnc] yn ei wneud. Felly, rwy'n teimlo fel pe bawn i'n perthyn mewn rhan fach iawn o'r gymuned."* Myfyriwr PGR

Roedd yn ymddangos bod gan fyfyrwyr a oedd yn gysylltiedig â chanolfannau ymchwil mewn sefydliadau fynediad at gyfleusterau yn ôl yr arfer, a oedd yn eu helpu i deimlo eu bod wedi'u hymgorffori yn yr adran ac yn gallu ffurfio cymuned gyda myfyrwyr PGR eraill a staff academaidd.

*"Mae fy adran bob wythnos yn gwneud rhyw fath o beth ymchwil a bydd ymchwilwyr yn dod at ei gilydd a bydd rhywun yn cynnal darlith am yr hyn maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd yn eu hymchwil. Efallai mai'r rheswm dros hynny yw ei bod yn fwy o adran sy'n cael ei llywio gan ymchwil."* Myfyriwr PGR

I'r rhai nad oedd ganddynt y cymunedau hyn a oedd yn bodoli eisoes i integreiddio â nhw, roedd y profiad yn fwy o her, gan ddangos diffyg cysondeb ym mhrofiad myfyrwyr PGR yn sefydliadau Cymru. Amlygodd cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws nad oedd cymuned ymchwil yn eu sefydliad y gallent integreiddio â hi gan nad oedd gan eu maes pwnc ganolfan ymchwil ar y campws.

*"Dydw i ddim yn teimlo'n rhan o'r gymuned ymchwil. Dydw i ddim yn teimlo fy mod yn rhan o rwydwaith o ymchwilwyr. Rwy'n teimlo mai hwn fu profiad mwyaf unig ac ynysol fy mywyd."* Myfyriwr PGR

Roedd mannau ffisegol yn faes allweddol a nodwyd yn adroddiad QAA, y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn yr adran hon, o ran hwyluso cymuned o fyfyrwyr PGR[19]. Yn ogystal â bod amwynderau cyffredinol ar gael i bob myfyriwr, soniodd llawer o fyfyrwyr PGR am gael budd o gyfleusterau a ddyrannwyd yn benodol iddynt hwy. Roedd lle pwrpasol mewn swyddfa i fyfyrwyr PGR, gweithfannau ar eu cyfer, cyfleusterau iddynt wneud te a choffi, a mynediad hawdd i ystafelloedd ymolchi yn themâu a gododd dro ar ôl tro yn y grwpiau ffocws ac roedd darparu'r rhain yn cael effeithiau cadarnhaol ar brofiad myfyrwyr. Heb gyfleusterau o'r fath, teimlai rhai myfyrwyr PGR fod eu gallu i ffurfio cysylltiadau a bod ag ymdeimlad o gymuned yn cael ei danseilio.

*"Roedd gen i ddisgwyliadau ynglŷn â rhannu swyddfa gydag ychydig o bobl. Ond bu'n rhaid i mi drefnu fy fflat er mwyn i mi allu gweithio gartref. Mae un swyddfa a rennir yn yr adran gyfan ac mae tua chwe chyfrifiadur mawr i gyd wedi'u gwasgu i mewn, does dim teimlad cydlynol o agosatrwydd yn yr adran ychwaith. Mae wedi bod yn brofiad eithriadol o unig bod yma."* Myfyriwr PGR

Nodwyd gan fyfyrwyr PGR fod mynediad at weithfan bwrpasol ar y campws ochr yn ochr â myfyrwyr PGR a/neu staff eraill o fudd i deimlo'n rhan o gymuned ymchwil. Roedd bod â llyfrgell a lle mewn swyddfa a oedd yn hygyrch y tu allan i oriau gwaith 9-5 arferol yn cael ei ystyried yn ddefnyddiol iawn ar gyfer myfyrwyr PGR a oedd yn gweithio oriau afreolaidd ac a allai fanteisio ar amseroedd tawelach ar y campws.

Roedd lleiafrif bach o fyfyrwyr wedi adleoli i fynychu eu prifysgol, gan gredu, o'r broses ymgeisio, bod gofyn iddynt fyw yn agos at y campws a bod ar y safle am ran helaeth o'r

amser. Roedd y myfyrwyr hyn yn canfod yn ddiweddarach nad oedd lle mewn swyddfa wedi'i ddarparu ar eu cyfer ac yn canfod hefyd – a hwythau heb fod yn gysylltiedig â chanolfan ymchwil – eu bod yn aml yn gweithio o bell ar eu pen eu hunain, ffactorau y gwnaethant fynegi rhwystredigaeth a siomedigaeth gref yn eu cylch. Yn ogystal â hyn, effeithiodd y cynnydd mewn gweithio o bell ar ôl y pandemig yn negyddol ar gyfleoedd i fyfyrwyr PGR deimlo'n rhan o gymuned.

*"Ers Covid, ro'n i heb [weithfan] am ddwy flynedd a oedd yn bell o fod yn ddelfrydol... ac nid yw'r brifysgol wedi cymryd unrhyw gamau o gwbl i hwyluso cymuned [ymchwil]."* Myfyriwr PGR

Nodwyd fod myfyrwyr PGR yn y grwpiau ffocws wedi dechrau eu graddau ar wahanol adegau, gyda phandemig COVID-19 wedi effeithio'n fwy uniongyrchol ar rai na'i gilydd. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o fyfyrwyr PGR yn ystyried bod effaith barhaus y pandemig wedi cyfrannu at arwahanrwydd, yn enwedig o ran colli cyfleoedd i adeiladu rhwydwaith a meithrin cysylltiadau â chymuned ymchwil.

Er na wnaeth y myfyrwyr PGR nodi bod ysgolion i raddedigion wedi hwyluso cymunedau ymchwil, dywedodd myfyrwyr a oedd yn cael eu cyllido fod ganddynt rwydweithiau gwell oherwydd yr ystod o weithgareddau cyllidwyr a oedd ar gael iddynt a'u hamlder, gan gynnwys lleoliadau, interniaethau, cyrsiau hyfforddi a chylchlythyrau. Nodwyd fod gan y myfyrwyr hyn fynediad at gyfleoedd y tu allan i'w sefydliadau a oedd yn ychwanegol at yr hyn y gallai myfyrwyr PGR eraill nad oeddent yn cael eu cyllido wneud cais amdano.

*"Mae gan [y cyllidwr] y gymuned gyfan hon y maen nhw'n eich annog i fod yn rhan ohoni, trwy sianel Teams, ac rwy'n ceisio manteisio ar y cyfan. Ac felly mae'r mynediad hwnnw y tu allan i'r brifysgol ar gael. Rwy'n credu bod hynny'n help mawr."* Myfyriwr PGR

Er bod cyfleoedd i fyfyrwyr PGR gymryd rhan mewn cymuned ymchwil yn bodoli a bod prifysgolion yn ymwybodol o'r angen i feithrin gweithgareddau, mynegodd llawer o fyfyrwyr PGR awydd i brifysgolion wneud mwy. Roedd sawl un yn awyddus i sefydlu rhwydweithiau gwell gydag ymchwilwyr sy'n gweithio ar bynciau tebyg ar draws disgyblaethau, ac yn teimlo mai'r brifysgol oedd yn y sefyllfa orau i greu'r cysylltiadau hyn (yn hytrach na'r myfyrwyr PGR eu hunain).

*"Mwy o bethau i ddod â ni i gyd at ein gilydd [yn hytrach] na'n cadw ni ar wahân oherwydd bod PhD yn daith unig, fel y dywed llawer o bobl... dim ond cael y cyfleoedd hynny i gwrdd â phobl o fewn y semester cyntaf, mwy o gyfleoedd rhwydweithio y tu allan i'r [adran] - byddai mwy o waith rhyngddisgyblaethol o gymorth."* - Myfyriwr PGR

Cafodd yr arwahanrwydd wrth wneud gradd PGR ei nodi fel problem sylweddol drwyddi draw yn y grwpiau ffocws. Yn ogystal â bod y diffyg ymwneud â chymunedau ymchwil yn arwain at deimlad o unigedd, roedd meysydd eraill o fewn profiad myfyrwyr yn cyfrannu at y teimlad hwn. Er enghraifft, nododd sawl myfyriwr PGR ei bod yn anodd dod o hyd i dai priodol ac felly'r canlyniad anfwriadol oedd eu bod yn byw ar eu pen eu hunain, a thrwy hynny'n gwaethygu eu hunigedd, fel a nododd un myfyriwr PGR.

*"Rwyf wedi cael bod byw ar fy mhen fy hun yn weddol ynysol ac mae hynny mwy na thebyg wedi bwydo i mewn i'r rhesymau pam nad ydw i wedi gwneud gormod o gysylltiadau. Byddai llety atodol mwy addas yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r person hŷn, bod â phobl â'r un nodweddion demograffig â chi eich hun - mae gennych fwy yn gyffredin a gall fod yn fwy o brofiad cymdeithasol. Mae wedi bod y profiad mwyaf unig ers blynyddoedd lawer i mi."* - Myfyriwr PGR

## 5.3 Crynodeb o ganfyddiadau'r adran

- Roedd strategaethau a gweithgareddau ar-lein ac yn y cnawd i feithrin cymunedau ymchwil yn cynnwys cymunedau rhyngadrannol, cefnogi grwpiau darllen ac ymchwil, a chynnal gwyliau ymchwil. Nododd y rhan fwyaf o brifysgolion hefyd eu bod yn darparu mannau pwrpasol i fyfyrwyr PGR gwrdd, astudio a chymdeithasu.

- Dywedodd sefydliadau llai fod ganddynt eisoes gymuned gref, gyda myfyrwyr PGR yn cael nifer o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ymgysylltu â chyd-fyfyrwyr yn ogystal â staff y brifysgol.

- Soniodd myfyrwyr PGR am lefelau amrywiol o gysylltiad â myfyrwyr PGR eraill, yn eu hadran ac ar draws y brifysgol. Roedd myfyrwyr a oedd yn gysylltiedig â chanolfannau ymchwil yn teimlo eu bod wedi'u hymgorffori ac yn gallu ffurfio cymuned gyda myfyrwyr PGR eraill a staff academaidd. I'r rhai nad oedd ganddynt y cymunedau hyn a oedd yn bodoli eisoes i integreiddio â hwy, roedd y profiad yn fwy o her.

- Dywedodd myfyrwyr a oedd yn cael eu cyllido fod ganddynt rwydweithiau gwell oherwydd yr ystod o weithgareddau cyllidwyr a oedd ar gael iddynt ac amlder y gweithgareddau hynny, gan gynnwys lleoliadau, interniaethau, cyrsiau hyfforddi a chylchlythyrau.

- Soniodd llawer o fyfyrwyr PGR am gael budd o gyfleusterau a ddyrannwyd yn benodol iddynt. Lle mewn swyddfa wedi'i neilltuo i fyfyrwyr PGR, gweithfannau ar eu cyfer, cyfleusterau iddynt wneud te a choffi, a mynediad hawdd at ystafelloedd ymolchi. Heb gyfleusterau o'r fath, teimlai rhai myfyrwyr PGR fod eu gallu i feithrin cysylltiadau a chael ymdeimlad o gymuned yn cael ei danseilio:

- Cafodd yr arwahanrwydd wrth wneud gradd PGR ei nodi fel problem sylweddol drwyddi draw yn y grwpiau ffocws. Ystyrid fod effaith barhaus y pandemig yn cyfrannu at yr arwahanrwydd hwn i fyfyrwyr PGR, yn enwedig o ran colli cyfleoedd i adeiladu rhwydwaith a meithrin cysylltiadau â chymuned ymchwil.

# 6. Heriau a chymorth gyda llesiant

Cafodd yr heriau yr oedd myfyrwyr PGR yn eu hwynebu eu trafod yn y grwpiau ffocws yn ogystal ag mewn cyfweliadau â phrifysgolion a rhanddeiliaid. Mae'r adran hon yn amlinellu'r materion allweddol a godwyd gan fyfyrwyr PGR ac yn nodi'r hyn yr oedd sefydliadau wedi'i roi ar waith i gefnogi llesiant y tu allan i'r hyn a oedd yn cael ei gynnig gan staff academaidd fel rhan o'r berthynas oruchwyliol.

## 6.1 Heriau: Barn gan brifysgolion a rhanddeiliaid

Roedd cefnogi llesiant a mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl mewn perthynas â myfyrwyr PGR yn flaenoriaethau allweddol i sefydliadau. Roedd cynrychiolwyr prifysgolion yn cydnabod yr arwahanrwydd a'r unigrwydd posibl sy'n gysylltiedig â gwneud gradd PGR, fel a amlinellwyd gan fyfyrwyr PGR eu hunain yn Adran 5.2. Codwyd hyn fel pryder sylweddol gan randdeiliaid ehangach hefyd. Yn wahanol i fyfyrwyr ar raddau a addysgir, nodwyd fod astudio ar lefel PGR yn aml yn broses unig ac ynysol a oedd yn creu anawsterau i brifysgolion o ran adnabod unigolion a oedd yn ei chael hi'n anodd. Nododd cynrychiolwyr sefydliadol hefyd fod cefnogi llesiant myfyrwyr PGR ar ôl COVID-19 yn her sylweddol, a siaradodd pob un ohonynt am fwy o ffocws yn y maes hwn.

> *"Rydyn ni'n dal i weld rhan olaf cyfnod Covid ac mae wedi cael effaith barhaus ar eu gallu (myfyrwyr PGR) i astudio ac yn golygu eu bod yn gorfod rheoli anawsterau... Bu effaith sylweddol ar bethau fel iechyd, ac iechyd meddwl, yn fy marn i."* - Staff Prifysgol

Er bod datblygu gweithio o bell wedi rhoi mynediad ehangach i fyfyrwyr at adnoddau a hyblygrwydd, mewn llawer o achosion roedd ei effaith wedi gwaethygu arwahanrwydd ymhlith myfyrwyr PGR yn ôl cynrychiolwyr prifysgolion. Roedd cydnabyddiaeth hefyd i effeithiau negyddol y pandemig ar ymchwil ei hun gyda myfyrwyr PGR yn methu â chael mynediad at labordai a chyfyngiadau'n bodoli ar gasglu data.

Nodwyd hefyd fod demograffeg ac amgylchiadau personol myfyrwyr PGR wedi cyfrannu at heriau yn y maes hwn i brifysgolion. Dywedodd cynrychiolwyr prifysgolion fod eu myfyrwyr PGR fel rheol yn hŷn ac yn rhan-amser gydag ymrwymiadau a chyfrifoldebau y tu allan i'w gradd.

> *"Maen nhw ar adeg yn eu bywydau lle gall fod ganddynt blant, cyfrifoldebau gofalu am rieni [a] pan fydd anawsterau maen nhw'n cael eu taro gan ddigwyddiadau bywyd mewn ffordd nad yw rhai o'n myfyrwyr iau efallai. Byddwn i'n dweud bod hynny'n un o'r addasiadau mawr yr ydym yn canfod bod rhaid i ni eu gwneud ar gyfer myfyrwyr PGR."* - Staff Prifysgol

Mater arwyddocaol arall a nodwyd i fyfyrwyr PGR oedd goblygiadau ariannol gwneud gradd ôl-radd. Cafodd effaith negyddol yr argyfwng costau byw ledled y DU ei nodi fel her i fyfyrwyr PGR; gydag un cynrychiolydd yn dweud, *"Mae'n wasgfa fawr iddyn nhw".* Dywedodd prifysgolion eu bod wedi cyflwyno cymorth i fyfyrwyr PGR yng ngoleuni hyn, megis darparu mannau 'ystafell gynnes' a phrydau am bris gostyngol iddynt. Amlygodd cynrychiolydd undeb

myfyrwyr fod cynghorau cyllido ymchwil wedi cynyddu eu hariantal i fyfyrwyr er mwyn helpu gyda'r argyfwng costau byw. Roedd materion ariannol eraill a amlygwyd gan gynrychiolwyr myfyrwyr PGR yn cynnwys oedi cyn cael treuliau a hawliwyd, sy'n cael sylw pellach yn yr adran ganlynol.

## 6.2 Heriau: Barn myfyrwyr PGR

Fe wnaeth myfyrwyr PGR ar draws pob grŵp ffocws fanylu ar y materion penodol yr oeddent yn eu hwynebu fel rhan o'u profiad, a'r rheiny'n amrywio o heriau ariannol i heriau o ran llesiant.

### 6.2.1 Heriau ariannol

Fel a enghreifftiwyd yn Adran 1.2, canfu ymchwil flaenorol fod materion ariannol yn her sylweddol i fyfyrwyr PGR ac mae canfyddiadau'r ymchwil yn ategu'r farn hon. Cyfeiriodd llawer o fyfyrwyr PGR at bryderon ac anawsterau ariannol yn ystod y grwpiau ffocws. Amlygodd rhai cyfranogwyr sut y bu'n rhaid iddynt gynnal cyswllt rhwng eu prifysgol a'u cyllidwr a/neu'r tîm Cyllid Myfyrwyr i sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud, ac fe amlinellon nhw na allent ddibynnu ar y prosesau o fewn sefydliadau i ddatrys oedi a chymhlethdodau os oeddent yn codi. Roedd hwn yn fater a oedd yn effeithio ar fyfyrwyr pa un a oeddent yn hunangyllido ynteu'n cael cymorth gan gyllidwr/cyngor ymchwil.

Fe wnaeth myfyrwyr PGR a oedd yn cael eu cyllido nodi heriau eraill, gan gynnwys rheolau a oedd wedi'u pennu gan gyllidwyr ynghylch uchafswm y gwaith am dâl yr oeddent yn cael ei wneud.

> *"Rwy'n cael ariantal ac oherwydd fy nghyllid nid wyf yn cael gwneud unrhyw waith arall am fy mod yn gwneud fy PhD fel myfyriwr amser llawn... nid yw'n ddigon i fyw arno mewn gwirionedd ... Rwyf wedi gorfod symud adref i allu byw felly mae hynny wedi bod yn anodd iawn. Mae gen i ffrindiau yn y gymuned ôl-radd sy'n ei chael hi'n anodd iawn oherwydd bod ganddynt rent neu fod ganddynt forgais ac nid yw'n ddigon i gael deupen llinyn ynghyd."* - Myfyriwr PGR

Ymhlith yr anawsterau eraill y soniwyd amdanynt roedd ansicrwydd pa un a fyddai myfyrwyr PGR yn cael eu cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd ychwanegol yn ystod eu hastudiaethau megis cyflwyno mewn cynadleddau rhyngwladol; teithiau a oedd yn golygu treuliau ychwanegol fel ffioedd mynychu, teithio a fisâu nad oedd eu hariantal yn ddigon i'w talu. I'r rhai a oedd â hawl i ad-daliadau ar gyfer treuliau wrth fynd ar deithiau o'r fath, nododd rhai broblemau gyda pheidio â chael y treuliau hyn yn ôl mewn modd amserol, a dywedodd un myfyriwr PGR ei fod wedi aros sawl mis i gael yr arian yn ôl, a oedd wedi creu anawsterau ariannol.

Mewn un sefydliad, esboniodd sawl cyfranogwr eu bod wedi cael eu gadael mewn anawsterau ariannol oherwydd gwallau gweinyddol ac wedi profi oedi cyn i'w cyllid gael ei dalu. Mewn un achos, fe wnaeth oedi o dri mis achosi i fyfyriwr PGR geisio cymorth o gronfa galedi'r brifysgol tra'r oedd yn disgwyl am ei ariantal, er gwaethaf ymdrechion i ddatrys y mater gyda swyddfeydd adrannol. Roedd materion a oedd yn codi pan oedd prosesau gweinyddol yn arwain at broblemau gyda chyllid yn amlwg yn achosi her aruthrol i'r myfyrwyr

PGR yr effeithiwyd arnynt, gan effeithio ar eu gallu i ymgartrefu mewn lleoliad newydd, cadw eu pennau uwchben y dŵr yn ariannol, a symud ymlaen gyda'u hymchwil.

> *"Pe bawn i'n syml wedi aros ar y llwybr gyrfa, byddwn i mwy na thebyg wedi bod yn well fy myd. [O ran] y costau byw ar hyn o bryd, wn i ddim a ydyn nhw'n gwneud graddau PhD yn werth chweil." Myfyriwr PGR*

Esboniodd rhai myfyrwyr PGR eu bod wedi ymgymryd â gwaith ychwanegol i ennill incwm ychwanegol. Dywedodd myfyrwyr rhyngwladol eu bod yn wynebu pwysau ariannol ychwanegol, yn enwedig y rhai a oedd yn hunangyllido, a'u bod yn gorfod dod o hyd i incwm drostynt eu hunain yn flynyddol er mwyn parhau â'u hastudiaethau. Soniodd y myfyrwyr hyn am weithio'n rhan-amser i gael deupen llinyn ynghyd a bod diffyg sicrwydd ariannol ganddynt.

> *"Oherwydd bod gan y coleg lawer o waith arddangos, cofrestrais ac rwy'n cael rhywfaint o arian poced. Ond ni all gefnogi fy nghostau byw fy hun, ac nid yw rhai myfyrwyr rhyngwladol eraill o golegau eraill yn cael llawer o waith arddangos. Felly, maen nhw'n mynd i weithio mewn siopau cludfwyd yn ystod y penwythnos i ennill [arian]."* - Myfyriwr PGR

### 6.2.2 Heriau a gofynion academaidd

Nodwyd sylwadau am ofynion academaidd ymgymryd â gradd PGR gan fyfyrwyr ar draws y grwpiau ffocws. Soniwyd am syndrom y ffugiwr gan rai myfyrwyr PGR yn yr ymchwil hon, yn unol â chanfyddiadau Arolwg Myfyrwyr PhD Nature (2019), y cyfeirir ato yn Adran 1.2. Dywedodd myfyrwyr PGR a oedd wedi ymgymryd â gwaith neu addysgu fod y ffactorau hyn yn ychwanegu rhagor o bwysau a chyfyngiadau amser ar gyfer cwblhau eu hymchwil, fel yr oedd anawsterau gyda tharo cydbwysedd rhwng rolau gofalu â chyfrifoldebau academaidd.

> *"Rwyf wir yn meddwl bod astudio fel myfyriwr rhan-amser yn dwyn ei heriau ei hun oherwydd fy mod i'n gweithio pedwar diwrnod yr wythnos. Rwyf hefyd yn rhiant sengl. Felly rwy'n gweithio llawer gyda'r nos hefyd ac yn gyson yn jyglo ac rwy'n gwybod bod hanner fy ffioedd dysgu wedi'u talu, ond rwy'n dal i fod yn gyfrifol am yr hanner arall. Rwy'n taro cydbwysedd ac yn gweithio gyda hynny, ond mae llawer o bwysau."* Myfyriwr PGR

O ran effaith barhaus pandemig COVID-19, ar wahân i'r effaith negyddol ar lesiant myfyrwyr PGR, soniodd myfyrwyr am yr heriau a'r cyfyngiadau sylweddol yr oeddent yn eu hwynebu wrth gyflawni eu hymchwil. Roedd hyn yn cynnwys gosod cyfyngiadau ar gasglu data yn y cnawd, anallu i recriwtio cyfranogwyr ar gyfer eu hymchwil, a chyfyngiadau ar ddefnyddio mannau wedi'u neilltuo ar gyfer ymchwil ar y campws, fel labordai. Amlinellodd un myfyriwr PGR eu bod "wedi *colli blwyddyn gyfan i COVID-19*" a'u bod wedi addasu eu hymchwil o ganlyniad.

### 6.2.3 Heriau penodol i fyfyrwyr rhyngwladol

Yn ogystal â'r heriau ariannol i fyfyrwyr PGR rhyngwladol a nodwyd uchod, soniodd y garfan hon o fyfyrwyr eu bod yn wynebu heriau unigryw, fel a adlewyrchir yn adroddiad Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol y cyfeiriwyd ato yn Adran 1.2. Darparodd myfyrwyr PGR rhyngwladol

enghreifftiau o faterion gyda fisâu, oedi gyda noddwyr rhyngwladol a oedd yn arwain at fynediad cyfyngedig at adnoddau'r brifysgol, ac oedi gyda llythyrau derbyn yn cael eu hanfon allan a oedd yn creu problemau teithio wedi hynny. Eglurodd dau fyfyriwr rhyngwladol nad oedd gan eu prifysgolion yr arbenigedd i gefnogi ceisiadau am fisâu ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol; dywedodd un ei fod yn teimlo'n brin o gymorth gan ei brifysgol ar ôl bod mewn digwyddiad astudio rhyngwladol, gan fod yn sownd wedi hynny ar ôl cael fisa annigonol.

## 6.3 Cymorth ar gyfer llesiant myfyrwyr PGR

### 6.3.1 Barn Prifysgolion a rhanddeiliaid ehangach

Amlinellodd staff prifysgolion sawl math o gymorth gyda llesiant a oedd ar gael i fyfyrwyr PGR megis cwnsela a gwasanaethau cymorth dros y ffôn 24 awr y dydd. Roedd llawlyfrau, prosesau sefydlu (ar draws y brifysgol ac mewn ysgolion), tudalennau mewnrwyd prifysgolion a 'bwletinau' yn cael eu defnyddio i hysbysu myfyrwyr PGR ynghylch y cymorth sydd ar gael iddynt.

Un mater allweddol a godwyd oedd mynediad at gymorth penodol ar gyfer myfyrwyr PGR. Ar gyfer rhai prifysgolion, nodwyd fod cymorth gyda llesiant ar gael yn gyffredinol i bob myfyriwr, ni waeth beth fo'u lefel astudio, tra bod gan eraill strwythurau arwahanol ar waith ar gyfer llesiant myfyrwyr PGR. Nodwyd pwysigrwydd darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer myfyrwyr PGR, ac eglurodd dwy brifysgol fod gan eu myfyrwyr PGR fynediad at wasanaethau cymorth llesiant i fyfyrwyr a staff; gan fynd i'r afael ag amrywiaeth anghenion myfyrwyr PGR yn ogystal ag adlewyrchu'r rôl ddeuol a oedd gan rai myfyrwyr PGR mewn rhai sefydliadau.

Nodwyd hefyd fod undebau myfyrwyr yn ffynhonnell darpariaeth llesiant i fyfyrwyr, ond roedd canfyddiadau gan nifer o gynrychiolwyr undebau y gallai myfyrwyr PGR fod wedi teimlo bod undebau myfyrwyr yn canolbwyntio'n fwy ar israddedigion ac nid ar y garfan ôl-radd.

> *"Mae'n aml yn wir nad myfyrwyr PGR yw'r myfyrwyr mwyaf prysur ar y campws, maent yn syrthio trwy fwlch o ran cael eu hystyried yn fyfyrwyr nid staff, cael eu trin fel myfyrwyr ond a hwythau'n peidio â chael y cymorth y dylid disgwyl i fyfyrwyr ei gael."* - Rhanddeiliad

Roedd rhai sefydliadau wedi cymryd camau i fuddsoddi mewn swyddogion cymorth yn benodol ar gyfer myfyrwyr PGR i oruchwylio llesiant ar lefel y sefydliad, yn bennaf trwy fwy o waith i godi ymwybyddiaeth a digwyddiadau a gweithgareddau cefnogol. Roedd un brifysgol wedi buddsoddi mewn dyrannu aelod o staff at y diben hwn, gan egluro bod y rôl wedi cael ei datblygu mewn ymateb i dystiolaeth o'r angen a diffyg capasiti blaenorol o ran rheoli cymorth iechyd meddwl ar gyfer myfyrwyr PGR yn y sefydliad. Yn ogystal ag aelodau o staff wedi'u dyrannu, tynnwyd sylw hefyd at gymorth dan arweiniad myfyrwyr, gyda swyddogion cymorth i fyfyrwyr, swyddogion cymorth cymunedol a hyrwyddwyr llesiant yn dod o'r corff myfyrwyr.

Amlygodd prifysgolion hefyd eu bod yn ymgorffori gweithdai a sesiynau ar thema llesiant yn eu rhaglenni hyfforddiant (er enghraifft meithrin cydnerthedd, rheoli ansicrwydd, magu hyder), ac fe ddwedon nhw eu bod yn cynnal y rhain ar y cyd â rhanddeiliaid eraill fel llais myfyrwyr ac undeb y myfyrwyr.

Fel a amlinellwyd yn Adran 6.2, roedd prifysgolion yn cydnabod bod effaith COVID-19 wedi creu'r angen i roi mecanweithiau ar waith i sicrhau bod myfyrwyr PGR yn cael cymorth priodol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig. Roedd enghreifftiau'n cynnwys gweithredu polisïau dim anfantais (gan sicrhau nad oedd effaith y pandemig yn effeithio'n anffafriol ar ddeilliannau myfyrwyr), a chynnig estyniadau i fyfyrwyr PGR. Nodwyd fod rhai sefydliadau wedi dweud eu bod wedi cael ceisiadau am estyniadau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 gan eu myfyrwyr PGR, ymhell wedi i lawer o'r cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â Covid gael eu llacio.

Fel a nodwyd yn Adran 3.1, roedd gan oruchwylwyr rôl allweddol hefyd o ran rhoi cymorth llesiant i fyfyrwyr PGR, gydag un rhanddeiliad yn dweud*, " mae'r berthynas â'r goruchwyliwr yn unigryw iawn - mae'n ymwneud â mentora, hyfforddi, agweddau bugeiliol ac addysgeg."* Felly, roedd hyfforddiant ar gyfer goruchwylwyr yn allweddol i roi cymorth effeithiol gyda llesiant. Eglurodd rhai cynrychiolwyr prifysgolion fod yr hyfforddiant hwn wedi cynnwys elfennau o gymorth llesiant/bugeiliol, megis cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o hunanladdiad, er bod sawl un wedi egluro eu bod yn annog goruchwylwyr i gyfeirio myfyrwyr PGR at y gwasanaethau perthnasol yn y SAU pan oedd materion difrifol yn codi. Yn ogystal â hyfforddiant, dywedodd lleiafrif o sefydliadau fod goruchwylwyr yn cael eu cyfeirio at Fframwaith Arfer Goruchwylio Da UKCGE i ddatblygu eu gwybodaeth a'u gallu eu hunain i gefnogi myfyrwyr PGR, fel a grybwyllwyd yn Adran 3.3.1.

Yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau a oedd ar waith ar gyfer myfyrwyr PGR, roedd achosion o gymorth llesiant mwy anffurfiol o dan arweiniad myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr PGR. Roedd enghreifftiau'n cynnwys boreau coffi, gweithgareddau fel rhedeg a gwau a chlybiau, a 'gwibgyfeillio'. I rai sefydliadau, roedd hyn yn cael ei drefnu gan ysgolion unigol yn hytrach nag ar draws y brifysgol gyfan. Rhannwyd enghreifftiau hefyd o ddefnyddio ysgolion doethurol/swyddfeydd graddedigion i hwyluso cymorth llesiant a meithrin cymunedau ymchwil, fel a amlinellwyd yn Adran 5. Amlygodd un cynrychiolydd prifysgol bwysigrwydd rhoi cyfle i fyfyrwyr PGR ddatblygu cymorth yn eu cymuned.

> *"Hefyd bydd [gweithgareddau] sy'n cael eu rhedeg o fewn ysgolion ar gyfer cymunedau ôl-radd, y maent yn trefnu eu hunain... mae a wnelo â rhoi mynediad iddynt at leoliad a chyllid i drefnu digwyddiadau a fyddai'n eu cefnogi yn y ffyrdd y maent am gael eu cefnogi, nid ffyrdd yr oeddem ni'n meddwl y dylid eu cefnogi."*
> Staff Prifysgol

Roedd barn rhanddeiliaid ehangach yn cyd-fynd yn agos â'r rhai a nodwyd gan gynrychiolwyr prifysgolion a myfyrwyr PGR eu hunain. Roedd rhanddeiliaid yn unfrydol wrth amlygu bod iechyd meddwl a llesiant a chostau byw yn faterion a oedd o bwys mawr i fyfyrwyr PGR, a bod eu sylw'n canolbwyntio ar eu cefnogi drwy heriau. Fodd bynnag, cododd rhanddeiliaid nodyn o bwyll ar ddatblygu polisïau a strategaethau cyffredinol, gan ystyried amrywiaeth y garfan o fyfyrwyr PGR. Fe wnaethant amlinellu bod myfyrwyr yn aml yn profi effeithiau gwahanol, yn enwedig pa un a ydynt yn astudio'n rhan-amser ynteu'n llawn-amser, ac fe amlygon nhw'r ffaith ei bod yn naturiol y byddai anghysonderau rhwng profiadau wrth ddarparu ar gyfer anghenion grŵp amrywiol o fyfyrwyr.

Er i brifysgolion amlinellu gwahanol fesurau a oedd ar waith i gefnogi myfyrwyr PGR, roedd rhywfaint o gydnabyddiaeth i feysydd yr oedd angen eu gwella. Esboniodd un cynrychiolydd cwrs PGR eu bod wedi cael adborth gan rai myfyrwyr PGR ynghylch methu â chael mynediad at wasanaethau wedi'u canoli yn y sefydliad i gael gymorth. Amlygodd cynrychiolydd cwrs PGR arall yr effaith sylweddol ar lesiant myfyrwyr rhyngwladol sy'n symud i ffwrdd o'u cartref ac amlinellodd nad oedd darpariaeth i gefnogi'r mater penodol hwn yn eu sefydliad. Pwysleisiodd un rhanddeiliad fod angen teilwra'r cyfathrebu gyda myfyrwyr PGR yn fwy a bod angen i wybodaeth fod ar gael yn gyson trwy gydol y flwyddyn academaidd, yn hytrach na "*dadlwytho gwybodaeth*" yn ystod prosesau sefydlu yn y semester cyntaf yn unig.

### 6.3.2 Barn myfyrwyr PGR

Fel y dengys Adrannau 6.1 a 6.2, roedd myfyrwyr PGR yn wynebu heriau gwahanredol; fodd bynnag, dim ond ychydig o fyfyrwyr PGR a rannodd brofiadau o gael mynediad at gymorth llesiant trwy eu prifysgol. Mynegodd un myfyriwr PGR nad oedd eu prifysgol yn cefnogi iechyd meddwl myfyrwyr PGR ddigon, yn enwedig i'r rhai sy'n ymchwilio i bynciau sensitif; "*Mae disgwyl i mi fwrw ymlaen gyda'r PhD yma sy'n bwrw golwg ar bynciau gwirioneddol eithafol ac anodd*". Cyfeiriodd Adran 2.3 at ddwy enghraifft o anghysonderau pan fo myfyrwyr PGR yn cael mynediad at gymorth llesiant o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Yn debyg i farn y corff cynrychioliadol a nodwyd yn yr adran flaenorol, roedd sawl myfyriwr PGR yn teimlo bod cymorth wedi'i gyfeirio'n fwy tuag at fyfyrwyr israddedig.

> *"Rwy'n credu bod cymorth aruthrol i israddedigion. Rwy'n credu bod myfyrwyr PhD yn syml yn cael eu gadael i fwrw ymlaen â phethau. Mae angen mwy o gymorth arnom gyda'n hiechyd meddwl a'n bywydau. Mae angen mwy o gymorth arnom i rwydweithio a chysylltu â myfyrwyr [eraill].* " Myfyriwr PGR

Rhannodd sawl myfyriwr PGR farn gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth a oedd yn cael ei roi gan eu goruchwylwyr. Pwysleisiodd un myfyriwr PGR y ddibyniaeth ar oruchwylwyr PGR i gael profiad cadarnhaol.

> *"Mae gen i oruchwylwyr gwych iawn. Maen nhw'n fy nghefnogi yn gyson. Bu gen i le ac amgylchedd da iawn i ymchwilio i wahanol syniadau a datblygu pethau'n fwy. Mae'r profiad PGR hwn yn ddibynnol iawn ar oruchwylwyr."* Myfyriwr PGR

Ar wahân i oruchwylwyr, nododd un myfyriwr PGR fod eu swyddfa graddedigion yn rhoi gofal bugeiliol yn ychwanegol at y cymorth academaidd arferol. Roedd y swyddfa graddedigion yn eu sefydliad wedi trefnu boreau coffi anffurfiol lle gallai myfyrwyr PGR godi materion a chwrdd ag uwch aelodau o staff mewn amgylchedd hamddenol.

## 6.4 Crynodeb o ganfyddiadau adrannau

- Roedd cefnogi llesiant a mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl mewn perthynas â myfyrwyr PGR yn flaenoriaethau allweddol. Nodwyd fod astudio ar

lefel PGR yn aml yn broses unig ac ynysol a bod gan fyfyrwyr yn aml gyfrifoldebau y tu allan i'w gradd.

- Roedd prifysgolion yn ymgorffori gweithdai llesiant yn eu rhaglenni hyfforddi ac roedd hyfforddiant i oruchwylwyr hefyd yn allweddol i roi cymorth effeithiol. Tynnwyd sylw hefyd at gymorth dan arweiniad myfyrwyr, gyda swyddogion cymorth i fyfyrwyr, swyddogion cymorth cymunedol a hyrwyddwyr llesiant yn dod o’r corff myfyrwyr.

- Er bod datblygu gweithio o bell wedi rhoi mynediad ehangach i fyfyrwyr PGR at adnoddau a hyblygrwydd, mewn llawer o achosion, roedd ei effaith wedi gwaethygu arwahanrwydd. Roedd cydnabyddiaeth hefyd i effeithiau negyddol y pandemig ar ymchwil ei hun gyda myfyrwyr PGR yn methu â chael mynediad at labordai ac yn wynebu cyfyngiadau ar gasglu data.

- Mater arwyddocaol arall a nodwyd i fyfyrwyr PGR oedd goblygiadau ariannol gwneud gradd ôl-radd. Cafodd effaith negyddol yr argyfwng costau byw ei nodi fel her bellach i fyfyrwyr PGR ac mae ystod o fesurau cymorth wedi cael eu rhoi ar waith.

- Cyfeiriodd llawer o fyfyrwyr PGR at bryderon ariannol yn ystod y grwpiau ffocws, gyda rhai’n amlygu gwallau gweinyddu cyllid ac oedi ac roedd materion ychwanegol gyda fisâu ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol.

- Roedd syndrom y ffugiwr ac ymgymryd â gwaith neu addysgu yn ychwanegu pwysau a chyfyngiadau amser ychwanegol at gwblhau eu hymchwil, yn ogystal â'r anawsterau o ran taro cydbwysedd rhwng rolau gofalu a chyfrifoldebau academaidd.

# 7. Casgliadau ac argymhellion

Mae'r adran hon yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion ar gyfer pob un o'r meysydd a drafodir yn yr adroddiad hwn.

## 7.1 Polisïau a gweithdrefnau i gefnogi myfyrwyr PGR

Dywedodd holl sefydliadau addysg uwch Cymru eu bod wedi ymrwymo i ddarparu profiadau myfyrwyr o ansawdd da ar gyfer myfyrwyr PGR. Roedd cydnabyddiaeth o bob rhan o'r sector bod myfyrwyr PGR yn garfan unigryw ac amrywiol y mae arnynt angen cymorth ac arweiniad wedi'u teilwra. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n defnyddio PRES ac wedi cynnal eu hadolygiadau eu hunain i ddeall anghenion myfyrwyr PGR yn well yn ogystal â chael eu tywys gan gynghorau ymchwil, cyllidwyr allanol, cyrff cyllido a safonau'r llywodraeth mewn meysydd fel absenoldeb rhiant ac amodau cyflogaeth. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr PGR hefyd yn eistedd ar bwyllgorau a grwpiau sefydliadol, yn unol ag ymdrechion i gynyddu cynrychiolaeth myfyrwyr PGR ar draws sefydliadau.

Mae hyn wedi arwain at ystod o bolisïau, gweithgareddau, cyfathrebu a hyfforddiant pwrpasol i sicrhau'r sgiliau y mae eu hangen i fod yn fyfyriwr PGR effeithiol, a hyrwyddir yn ystod pob cam o'r broses o'u recriwtio a'u hintegreiddio i fywyd prifysgol. Daw'r amrywiaeth hon o gymorth trwy ddwy brif sianel. Set o fesurau wedi'u canoli, ar draws y sefydliad i sicrhau dull unffurf yw un. Yr ail yw lle mae elfennau o gymorth wedi'u datganoli'n well i lefel adran neu, mewn rhai sefydliadau, Swyddfeydd Graddedigion neu Ysgolion Doethurol, y mae cynrychiolwyr prifysgolion yn ystyried eu bod yn cynnig dull mwy hyblyg ac ymatebol.

O ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), amlygodd y rhan fwyaf o sefydliadau fod strwythurau a phrosesau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael eu pennu ar lefel y brifysgol gyfan ac yn cofnodi ac yn monitro pob myfyriwr mewn meysydd fel recriwtio, sefydlu, derbyniadau a pherfformiad. Er hynny, roedd cynrychiolwyr undebau myfyrwyr a rhai myfyrwyr PGR o'r farn bod mwy o gynnydd i'w wneud o ran ymgorffori cymorth ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac ymwybyddiaeth ohonynt, ar draws y gymuned PGR.

> **Argymhelliad i sefydliadau:** Dylai sefydliadau sicrhau bod polisïau a strwythurau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cefnogi myfyrwyr PGR yn cyd-fynd â'i gilydd ar draws pob adran / ysgol i sicrhau lefel gyson a chyfartal o gymorth.

## 7.2 Goruchwyliaeth

Dywedodd yr holl gynrychiolwyr prifysgolion a myfyrwyr fod y berthynas oruchwyliol yn elfen hanfodol o brofiad myfyrwyr PGR. O safbwynt sefydliadol, mae goruchwyliaeth yn faes y buddsoddir yn sylweddol ynddo, sy'n cynnwys codau ymarfer sefydledig, cysylltiadau â strwythurau sefydliadol, a chyfleoedd datblygu proffesiynol i oruchwylwyr. Roedd y dulliau hyn yn cael eu cefnogi ymhellach gan hyblygrwydd wrth benodi goruchwylwyr yn seiliedig ar

ddisgyblaeth, hynafedd, deialog gyda myfyrwyr PGR ac yn cael eu hategu gan adolygiadau a monitro.

Serch hynny, soniodd myfyrwyr PGR am brofiadau cymysg o oruchwyliaeth a pherthnasoedd goruchwyliol, gan amlinellu'r anghysonderau a all effeithio ar eu profiad fel myfyrwyr. Roedd enghreifftiau cadarnhaol o arfer da a ddyfynnwyd gan fyfyrwyr PGR yn cynnwys cyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd ac amserol gan oruchwylwyr, cael eu lleoli mewn labordy neu ganolfan ymchwil gyda mynediad rhwyddach at oruchwylwyr, bod â sawl goruchwyliwr â gwahanol sgiliau i gefnogi gwahanol elfennau o'u hanghenion academaidd a llesiant, a'r parhad a amlygwyd gan y myfyrwyr PGR hynny a oedd wedi parhau i astudio o lefel israddedig ymlaen yn yr un sefydliad.

Roedd profiadau negyddol yn cynnwys anghysonderau canfyddedig wrth ddewis goruchwylwyr – roedd rhai sefydliadau yn cynnig llais i fyfyrwyr PGR yn hyn, nid oedd eraill yn gwneud hynny, ynghyd â materion ynghylch diffyg argaeledd, arbenigedd a/neu ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn enwedig o ran cydnabod nodweddion gwarchodedig. Awgrymwyd prosiectau sy'n hybu mynediad a chyfranogiad ar gyfer ymchwilwyr doethurol o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a hyfforddiant ychwanegol i godi ymwybyddiaeth o ragfarn ddiarwybod wrth oruchwylio fel syniadau i alluogi cynnydd pellach o fewn SAUau Cymru.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn a chefnogi dull mwy cyson o oruchwylio myfyrwyr PGR, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi cyflwyno hyfforddiant i staff academaidd sy'n goruchwylio myfyrwyr PGR. Yna, mae rhai sefydliadau'n parhau i ddarparu hyfforddiant parhaus i addasu i ofynion a thelerau ac amodau cyllidwyr a'u hymgorffori, a chefnogi mwy o ymwneud gan Partneriaethau Hyfforddiant Doethurol (DTPs), a chyswllt â hwy. Roedd mentrau eraill yn cynnwys paru goruchwylwyr mwy newydd ag unigolion profiadol a rhannu gwybodaeth ar draws adrannau a sefydliadau ehangach.

Er mwyn datrys anghydfodau rhwng myfyrwyr PGR a'u goruchwylwyr, soniodd cynrychiolwyr sefydliadol am ystod o fecanweithiau anffurfiol a ffurfiol. Roedd y rhain yn cynnwys adolygiadau rheolaidd gyda chyfarwyddwyr ymchwil, cyfleoedd cyfryngu rhwng myfyrwyr PGR a goruchwylwyr, cyfleoedd dysgu proffesiynol pellach i oruchwylwyr ac opsiynau i newid goruchwylwyr. Amlygodd sefydliadau mai dyma'r llwybrau a ffefrir; fodd bynnag, mae rhai achosion yn cael eu datrys trwy weithdrefnau cwynion sefydliadol. Tynnodd sefydliadau sy'n cynrychioli myfyrwyr sylw hefyd at bwysigrwydd strwythurau a phrosesau sefydliadol ac fe sonion nhw am ymgymryd â rôl gyfryngu lle bo angen o fewn y strwythurau hyn.

Mae cyndynrwydd rhai myfyrwyr PGR o'r grwpiau ffocws yn ôl pob i gyflwyno cwynion yn faes y mae angen cynnal ymchwil bellach iddo i gael gwell dealltwriaeth am faint y mater a'r rhesymau dros unrhyw gyndynrwydd. Gallai hyn gynnwys rhoi cynnig ar ddulliau heblaw trafodaeth grŵp neu dreulio mwy o amser yn ymchwilio'n benodol i'r broses o wneud cwynion a pha un a ddylid datblygu llwybrau anffurfiol mwy hygyrch.

**Argymhelliad i CCAUC:** Dylai CCAUC annog sefydliadau i gefnogi goruchwylwyr a staff perthnasol eraill gyda gweithgarwch hyfforddi a datblygu rheolaidd ac effeithiol sy'n gysylltiedig â PGR.

**Argymhelliad i sefydliadau:** Dylai sefydliadau adnabod a rhannu arfer da sy'n ymwneud â goruchwyliaeth PGR, o fewn a rhwng sefydliadau, gan gynnwys gweithredu Fframwaith Goruchwyliaeth Dda UKCGE.

**Argymhelliad i CCAUC:** Dylai CCAUC ystyried comisiynu ymchwil i archwilio amharodrwydd myfyrwyr PGR i gyflwyno cwynion a llwybrau newydd posibl i'w cefnogi.

## 7.3 Cymorth academaidd a chyfleoedd datblygu

Dywedodd sefydliadau eu bod yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i'w myfyrwyr PGR i wella eu profiad fel myfyrwyr a'u paratoi ar gyfer gwaith. Roedd y rhain yn amrywio o bynciau sy'n canolbwyntio ar ymchwil fel moeseg a dulliau ymchwil a pharatoi ar gyfer yr arholiad llafar, i sgiliau mwy generig a throsglwyddadwy, gan gynnwys rheoli amser ac ysgrifennu'n effeithiol. Mae rhai cyrsiau hefyd wedi'u bwriadu'n benodol i baratoi myfyrwyr PGR ar gyfer llwybrau gyrfa anacademaidd megis arwain, cyhoeddi ac entrepreneuriaeth. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o brifysgolion at y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr (RDF) fel offeryn arweiniol wrth ddylunio eu harlwy hyfforddi a datblygu myfyrwyr PGR.

Er bod y mathau hyn o hyfforddiant yn cael eu gwerthfawrogi'n at ei gilydd gan fyfyrwyr, roedd rhai anghysonderau o hyd o ran agweddau ar hyfforddiant fel cost, mynediad a pha un a yw hyfforddiant yn orfodol ynteu'n ddewisol. Roedd rhai sefydliadau'n cynnig ystod o gyrsiau a oedd i gyd yn ddewisol, tra bo gan eraill bynciau craidd yr oedd angen i bob myfyriwr PGR eu cwblhau. Roedd ychydig o sefydliadau'n cynnig dewis o fodiwlau ond yn ei gwneud yn ofynnol i'w myfyrwyr PGR gwblhau isafswm nifer o gredydau o fewn ffrâm amser. Roedd gan rai sefydliadau a rhanddeiliaid ganfyddiad nad oedd sgiliau trosglwyddadwy a hyfforddiant seiliedig-ar-gyflogadwyedd mor hygyrch â hyfforddiant seiliedig-ar-ymchwil ar hyn o bryd.

Disgwylir i fyfyrwyr PGR weithio gyda'u goruchwylwyr a chydweithwyr eraill, gan gynnwys cyrff cynrychioliadol i nodi eu hanghenion hyfforddi; fodd bynnag roedd anghysondeb yn ôl pob golwg o ran monitro'r niferoedd sy'n manteisio ar hyfforddiant a'u cynnydd. Roedd rhai sefydliadau hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allanol i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu pellach tra bo cyllidwyr a sefydliadau rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys cyrff cynrychioliadol, hefyd yn darparu cyfleoedd. Dywedodd sefydliadau, rhanddeiliaid a myfyrwyr fod yr ystod hon o gyfleoedd yn gwella'r profiad myfyrwyr PGR; fodd bynnag, ni all pob myfyriwr gael mynediad at bob cyfle, gan fod rhai'n gysylltiedig â chyllidwyr neu heb feini prawf cymhwystra.

Ar y cyfan roedd myfyrwyr PGR yn siarad yn gadarnhaol iawn ynghylch faint o hyfforddiant oedd yn cael ei ddarparu gan eu priod sefydliadau. Roedd enghreifftiau o hyfforddiant ymarferol buddiol a ddarparwyd yn cynnwys sesiynau ar ddefnyddio meddalwedd, moeseg ac ysgrifennu. Fodd bynnag, roedd lefelau cymysg o ymwybyddiaeth a mynediad, yn

enwedig o ran cyfleoedd hyfforddi wyneb-yn-wyneb, ac roedd anghysondeb o ran cyfleoedd i fyfyrwyr PGR a gyllidir ac sy’n hunangyllido, gyda phryderon yn cael eu mynegi am gostau ychwanegol gan yr ail o’r rhain. Roedd rhanddeiliaid ehangach yn cytuno bod angen rhoi cyhoeddusrwydd gwell i hyfforddiant a bod angen i fyfyrwyr PGR gael eu cefnogi'n well ag arian i gael mynediad at gyfleoedd newydd.

Roedd bwlch arall a nodwyd gan randdeiliaid ehangach yn ymwneud â chymorth a chyngor gyrfaoedd wedi'u teilwra, yr ystyrir eu bod wedi cael eu datblygu’n well ar gyfer israddedigion o'i gymharu â myfyrwyr PGR. Roedd sefydliadau a myfyrwyr yn credu bod cyfleoedd hyfforddi wedi'u cynllunio'n dda ar y cyfan ac yn berthnasol i angen academaidd, ond mewn rhai achosion nad oeddent yn cynnwys ffocws ar gyflogadwyedd a chamu ymlaen at lwybrau gyrfa eraill y tu hwnt i'r byd academaidd. Roedd hwn yn bryder allweddol a amlinellwyd gan fyfyrwyr PGR yn adroddiad PRES 2022 hefyd.

**Argymhelliad i CCAUC**: Dylai CCAUC annog sefydliadau i sicrhau bod myfyrwyr PGR a ariennir ac na ariennir yn cael profiad teg o ran manteisio ar gyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol.

**Argymhellion i sefydliadau:** Dylai sefydliadau roi cyhoeddusrwydd gwell i gyfleoedd hyfforddi a datblygu, gan hefyd bwysleisio'r potensial i fyfyrwyr gael budd o rwydweithio yn ystod y digwyddiadau hyfforddi hyn.

Dylai sefydliadau ehangu cyfleoedd hyfforddi sy'n canolbwyntio ar sgiliau cyflogadwyedd a chyngor gyrfaoedd i roi cymorth i fyfyrwyr PGR gamu ymlaen at gyflogaeth.

## 7.4 Rolau addysgu ar gyfer myfyrwyr PGR

Roedd pob sefydliad yn cyflogi myfyrwyr PGR mewn rolau addysgu am dâl gan ddibynnu ar argaeledd cyfleoedd, yn bennaf mewn rolau achlysurol gan gael tâl fesul awr. Yn ogystal, roedd rhai sefydliadau hefyd yn cynnig rolau Cynorthwyydd Addysgu Graddedig (GTA) neu'n ystyried cyflwyno'r swyddi hyn yn y dyfodol. Roedd sefydliadau'n cydnabod bod myfyrwyr PGR sy'n addysgu yn gweithredu mewn man aneglur: yn cael eu hystyried yn aelodau o staff gan y rhai y maent yn eu haddysgu, yn gweithio ar y cyd â staff academaidd ac yn cael cyflog gan y sefydliad, ond yn dal i fod yn fyfyrwyr eu hunain. Mae datblygu dull cyson yn wynebu her bellach ar ffurf natur amrywiol myfyrwyr PGR, gyda'r rhai a oedd yn fyfyrwyr a gyllidir, yn fyfyrwyr rhan-amser neu’n fyfyrwyr rhyngwladol yn aml yn wynebu cyfyngiadau o ran yr oriau y gallant eu gweithio.

Mae dulliau recriwtio’n amrywio ac roedd rhai sefydliadau’n cydnabod bod angen mwy o dryloywder a chysondeb, er enghraifft canllawiau Adnoddau Dynol wedi'u canoli'n well i ysgolion academaidd a hyrwyddo aelodaeth o undebau llafur a pholisïau Adnoddau Dynol sefydliadol i fyfyrwyr PGR. Mae myfyrwyr PGR sy'n addysgu yn cael cyfleoedd hyfforddi ychwanegol ac amlygwyd mentrau fel The Brilliant Club a'r Gymrodoriaeth Gyswllt (AFHEA) fel cyfleoedd uwchsgilio cadarnhaol pellach.

Mae gan fyfyrwyr PGR sy'n addysgu gontractau addysgu achlysurol ar gyfer yr oriau y maent yn eu darparu, gan gynnwys amser paratoi, ac felly maent yn gweithredu heb yr ystod lawn o fuddion a mesurau diogelu sydd gan gyflogeion parhaol a chyfnod penodol. Amlinellodd cynrychiolwyr o gyrff myfyrwyr bryderon bod myfyrwyr PGR yn cael eu defnyddio gan SAUau i 'lenwi bylchau yn y system' a bod diffyg cyflog a chontractau cyson ar draws gwahanol ysgolion, yr ystyrir ei fod yn rhan o'r diffyg ehangach o ran cymorth a strwythur cydlynol ar gyfer myfyrwyr PGR. Roedd ambell i sefydliad yn y broses o fynd i'r afael â'r materion hyn, gan weithio gydag Undebau i gefnogi hawliau cyflogaeth myfyrwyr ôl-radd ymhellach.

Soniodd myfyrwyr PGR sy'n addysgu am brofiadau cymysg o recriwtio, cymorth, hyfforddiant a thâl.  Ar y cyfan, dywedodd y rhan fwyaf fod y profiad yn un cadarnhaol. Amlygodd myfyrwyr PGR agweddau cadarnhaol gwobrwyon ariannol a phrofiad addysgu, tra bo'r rhai nad oeddent wedi cael y cyfle i addysgu'n sôn am heriau a oedd yn ymwneud â diffyg cydnabyddiaeth i'w sgiliau a diffyg tryloywder yn y broses o recriwtio i'r rolau hyn.

**Argymhelliad i sefydliadau**: Dylai sefydliadau datblygu dull sy'n gyson ac yn cael ei gyfleu'n glir o ran myfyrwyr PGR sy'n addysgu, gan gynnwys tâl, amodau a recriwtio i addysgu.

## 7.5 Datblygu cymuned ymchwil

Mae datblygu cymunedau ymchwil wedi bod yn rhan annatod o ddull rhai sefydliadau o gefnogi eu myfyrwyr, trwy fecanweithiau megis grwpiau ymchwil, gwyliau ymchwil a mannau pwrpasol i fyfyrwyr gwrdd, astudio a chymdeithasu. Mae'r cymunedau ymchwil hyn yn fwy datblygedig mewn rhai sefydliadau na'i gilydd, gyda sefydliadau llai fel rheol yn cynnig mwy o gyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol â staff a myfyrwyr PGR eraill. Dywedodd myfyrwyr PGR a oedd yn gysylltiedig â chanolfannau ymchwil eu bod wedi cael cyfleoedd ychwanegol i rwydweithio; fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd hyn yn cael eu profi gan yr holl fyfyrwyr ar hyn o bryd.

Gall hyn arwain at ddiffyg cysondeb ym mhrofiad myfyrwyr PGR, o fewn a rhwng sefydliadau, ac fe gafodd COVID-19 effaith negyddol bellach ar hyn, gan atal rhai myfyrwyr ymchwil rhag teimlo'n rhan o gymuned ymchwil. Amlygodd adroddiad PRES 2022 yr angen am ryngweithiadau yn y cnawd a mynegodd nifer o fyfyrwyr a gymerodd ran yn y gwaith maes ar gyfer yr ymchwil hon y byddai'n well ganddynt fwy o ddigwyddiadau yn y cnawd. Roedd galwadau hefyd am fwy o gyfleoedd trawsddisgyblaethol i ddatblygu cymunedau ymchwil.

**Argymhelliad i CCAUC:** Dylai CCAUC weithio gyda Prifysgolion Cymru a Chymdeithas Ddysgedig Cymru i gefnogi cynnydd pellach o ran datblygu cymunedau ymchwil, er enghraifft llunio canllawiau i gefnogi cysondeb o ran y dull gweithredu a rhannu enghreifftiau o arfer da.

**Argymhelliad i sefydliadau:** Dylai pob sefydliad yng Nghymru adolygu'r cyfleoedd y maent yn eu darparu i fyfyrwyr PGR ddod yn rhan o gymuned ymchwil, gan gynnwys cyfleoedd trawsddisgyblaethol a gweithgareddau cymdeithasol. Ochr yn ochr â chyfleoedd ar-lein, dylai sefydliadau gynnig rhyngweithiadau yn y cnawd lle bo hynny'n bosibl er mwyn galluogi myfyrwyr PGR i adeiladu cymuned ymchwil.

## 7.6 Heriau a chymorth gyda llesiant

Mae materion sy'n ymwneud â llesiant ac iechyd meddwl yn rhan allweddol o gymorth prifysgolion a rhanddeiliaid ehangach i fyfyrwyr PGR. Roedd heriau o ran arwahanrwydd ac unigrwydd sy'n gysylltiedig â gwneud gradd PGR yn codi pryderon sylweddol ymhlith prifysgolion a rhanddeiliaid. Dywedwyd fod yr heriau hyn wedi cael eu gwaethygu gan COVID-19, a arweiniodd at roi mwy o ffocws ar ddysgu ar-lein a diffyg mynediad at labordai a gweithgareddau casglu data yn ystod cyfnodau clo.

Roedd heriau eraill i lesiant yn cynnwys yr argyfwng costau byw cyfredol a goblygiadau ariannol ymgymryd â gradd ôl-radd, yn enwedig i'r myfyrwyr hŷn a rhan-amser hynny sydd â chyfrifoldebau eraill. Roedd myfyrwyr PGR rhyngwladol hefyd yn wynebu ystod o heriau penodol ac fe ddarparon nhw enghreifftiau o faterion gyda fisâu, oedi gyda noddwyr rhyngwladol yn cyfyngu ar fynediad at adnoddau’r brifysgol, a materion a oedd yn ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn mae prifysgolion wedi rhoi ystod o fesurau a gweithgareddau ar waith i gefnogi llesiant myfyrwyr PGR. Fel gydag elfennau eraill o brofiad myfyrwyr PGR, mae peth o'r cymorth hwn yn rhan o fesurau ehangach sydd wedi’u hanelu at bob myfyriwr tra bo meysydd eraill yn benodol i fyfyrwyr PGR. Roedd y math cyntaf o gymorth yn cynnwys mwy o fynediad at gwnsela, llinellau cymorth 24 awr a llawlyfrau i fyfyrwyr, a chyda’r ail fath, ar gyfer myfyrwyr PGR, mae gweithdai a sesiynau ar thema llesiant yn aml yn cael eu hymgorffori mewn rhaglenni hyfforddi, weithiau mewn partneriaeth gydag undebau myfyrwyr. Mewn rhai achosion, roedd rhai goruchwylwyr yn cael hyfforddiant i gyfeirio myfyrwyr PGR at y mathau hyn o gymorth. Fe ymatebodd sefydliadau i effaith y pandemig trwy bolisïau dim anfantais ac estyniadau astudio hefyd.

Amlygwyd meysydd i'w gwella gan sefydliadau, rhanddeiliaid ehangach a myfyrwyr. Roedd myfyrwyr PGR yn cydnabod y rôl gefnogol gadarnhaol a gyflawnir gan eu goruchwylwyr mewn rhai achosion ac ymdrechion eu hadrannau; fodd bynnag, y teimlad cyffredinol oedd bod cymorth ar gyfer llesiant yn cael ei dargedu'n fwy tuag at israddedigion ar hyn o bryd. Ystyriwyd fod dull gweithredu cyson, gan gydnabod amrywiaeth profiad myfyrwyr PGR a'u

hanghenion cymorth penodol, yn ffocws allweddol ar gyfer strategaethau yn y dyfodol, ynghyd â chydnabyddiaeth i'r effaith yr oedd costau byw yn ei chael ar gyllid myfyrwyr PGR.

**Argymhelliad i sefydliadau:** Dylai sefydliadau sicrhau bod myfyrwyr PGR yn cael mynediad at gymorth amserol o ansawdd sy'n cydnabod eu hanghenion llesiant penodol a'u taith academaidd.

## 7.7 Datblygu arlwy safonol o gymorth

Roedd y gwahanol lefelau a'r amrywiaeth o strwythurau cymorth a roddwyd ar waith wedi'u bwriadu i fynd i'r afael ag amrywiaeth y garfan PGR a'u hanghenion penodol. Er bod y cymorth wedi arwain at ystod o ddeilliannau cadarnhaol i fyfyrwyr PGR, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn dangos bod anghysonderau, lefelau gwahanol o ymgysylltu a bylchau yn y ddarpariaeth o hyd, ac mae hyn wedi cael effaith negyddol ar brofiad cyffredinol rhai myfyrwyr.

Felly gellid cefnogi cydlyniant pellach ar draws prifysgolion Cymru trwy ddatblygu arlwy safonol i fyfyrwyr PGR. Yn unol â'r themâu allweddol yn yr adroddiad hwn, gallai hyn gynnwys dull cyson o roi cymorth gyda llesiant, cyfleoedd datblygiad proffesiynol, cydnabyddiaeth ffurfiol i statws addysgu, mynediad at gymuned ymchwil a chyswllt mynych â goruchwylwyr. Gallai prifysgolion gefnogi'r dull hwn trwy ddarparu hyfforddiant mynych i oruchwylwyr a staff eraill sy'n ymwneud â myfyrwyr PGR a chysoni polisïau cymorth mewn modd hyblyg ar draws adrannau a'u priod sefydliadau.

**Argymhelliad i CCAUC:** Dylai CCAUC weithio gyda sefydliadau a rhanddeiliaid ehangach i ddylunio arlwy safonol o gymorth i fyfyrwyr PGR, a allai ddarparu meincnod ar gyfer dull cyson ym mhrifysgolion Cymru.

# 8. Atodiadau

## Atodiad 1

Tabl 2: Niferoedd cyfranogwr o blith staff sefydliadau yn ôl sefydliad

| **Prifysgol** | **Nifer y cyfranogwyr** |
|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 2 |
| Prifysgol Bangor | 2 |
| Prifysgol Caerdydd | 6 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 1 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 2 |
| Prifysgol Abertawe | 5 |
| PDC | 2 |
| PCDDS | 2 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | 1 |
| **Cyfanswm** | **23** |


## Atodiad 2

Tabl 3: Nifer y cyfranogwyr o blith myfyrwyr PGR yn ôl sefydliad[20]

| **Prifysgol** | **Nifer y cyfranogwyr** |
|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 6 |
| Prifysgol Bangor | 7 |
| Prifysgol Caerdydd | 13 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 5 |
| Prifysgol Abertawe | 8 |
| PDC | 4 |
| PCDDS | 3 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | 4 |
| **Cyfanswm** | **50** |


[20] Ni chynhaliwyd grŵp ffocws gyda myfyrwyr PGR o'r Brifysgol Agored yng Nghymru gan bod y mwyafrif o'r myfyrwyr yn astudio ar eu campws ym Milton Keynes.

## Atodiad 3




Ffigur 3: Canran y rhaglenni gradd ymhlith cyfanswm y cyfranogwyr PGR[21]

## Atodiad 4




Ffigur 4: Canran y disgyblaethau ehangach ymhlith cyfanswm y cyfranogwyr PGR

[21] Dywedodd un myfyriwr PGR yn ei wybodaeth ddemograffig mai ‘MSc trwy Ymchwil; oedd eu rhaglen radd, ac mae'r myfyriwr yma wedi'u cynnwys yn y data MRes.